Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil cymdeithasol: 70/2025

Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2025

# Tegwch a Chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru: astudiaeth ansoddol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Crown Copyright ISBN Digidol 978-1-80633-114-7

Tegwch a Chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru: Astudiaeth Ansoddol

Awdur(on): Dr Nigel Newton, Athro David Egan, Dr Mirain Rhys (Prifysgol Metropolitan Caerdydd); Brett Duggan, Dr Felicity Morris (Arad)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Newton, N; Egan, D; Rhys, M; Duggan, B; Morris, F (2025). Tegwch a Chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru: Astudiaeth Ansoddol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 70/2025

Ar gael yn: https://www.gov.wales/equity-and-inclusion-curriculum-wales-qualitative-study

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Cwricwlwm

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000253213

E-bost: ymchwil.cwricwlwm@llyw.cymru

## Cynnwys

Rhestr tablau ..... 2
Geirfa… ..... 3
Crynodeb gweithredol ..... 5
1. Cyflwyniad ..... 15
2. Methodoleg ..... 24
3. Canfyddiadau ..... 32
4. Casgliadau ..... 69
Atodiad A: Cyfeiriadau ..... 79
Atodiad B: Offerynnau ymchwil ..... 81

## Rhestr tablau

Tabl 1: Sampl ysgolion/lleoliadau astudiaeth ansoddol Tegwch a Chynwysoldeb ...............26

## Geirfa

**AAA**

Anghenion Addysgol Arbennig

**ADY**

Anghenion Dysgu Ychwanegol

**AGA**

Addysg Gychwynnol Athrawon

**AHY**

Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**ANG**

Athro Newydd Gymhwyso

**BTEC**

Cymwysterau Cyngor Busnes a Thechnoleg

**CADY**

Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol[1]

**CDU**

Cynllun Datblygu Unigol

**DARPL**

Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth

**EAL**

Saesneg fel Iaith Ychwanegol

**Maes(meysydd)**

Maes (meysydd) Dysgu a Phrofiad[2]

**MAT**

Mwy Abl a Thalentog

**RADY**

Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Difreintiedig

**TAR**

Tystysgrif Addysg i Raddedigion

---

[1] Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol neu'r CADY yn unigolyn a ddynodir, yn unol ag Adran 60 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018), gan ysgol a gynhelir (ac eithrio ysgol arbennig) neu sefydliad addysg bellach i fod yn gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth ddysgu ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (Llywodraeth Cymru, 2021).

[2] Mae byrfodd MDPh yn parhau i gael ei ddefnyddio gan ymarferwyr a chaiff ei gynnwys mewn nifer o ddyfyniadau gair am air a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

**UDA**

Uwch Dîm Arwain

**UCD(au)**

Uned(au) Cyfeirio Disgyblion

## Crynodeb gweithredol

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r gwerthusiad ffurfiannol o Gwricwlwm i Gymru. Fel rhan o'r gwerthusiad, cynhaliwyd astudiaethau ansoddol yn seiliedig ar bynciau a thestunau, gan archwilio elfennau penodol o Gwricwlwm i Gymru.
2. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth ansoddol ynghylch Tegwch a Chynwysoldeb, dan arweiniad Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Nod yr ymchwil oedd cynnig atebion i ddau gwestiwn ymchwil cyffredinol:
    - Sut mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gweithredu yn ymarferol i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb?
    - Sut mae lleoliadau ac ymarferwyr yn cael eu cynorthwyo i weithredu Cwricwlwm i Gymru mewn ffordd sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb?

# Methodoleg

3. Nodir y fethodoleg ym mhennod 2 yr adroddiad hwn, ac roedd yn cynnwys:
    - recriwtio naw ysgol ac un uned cyfeirio disgyblion (UCD) i gymryd rhan yn yr astudiaeth.
    - trafodaethau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws gydag uwch arweinwyr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y cwricwlwm, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) ac ymarferwyr sy'n cyflawni amrediad o rolau ac sy'n gyfrifol am gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb dysgwyr, gan amrywio o benaethiaid cyfadran i gynorthwywyr addysgu.
    - gwnaethpwyd gwaith i ddadansoddi cynnwys thematig trawsgrifiadau'r trafodaethau, gan arwain at adnabod pum thema a ddaeth i'r amlwg, sy'n cynnig sylfaen ar gyfer cyflwyno canfyddiadau yn yr adroddiad.
4. Mae'r adroddiad yn amlygu nifer o gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r astudiaeth hon, sef:
    - natur fach a hunanddewisol y sampl, sy'n golygu nad yw'r canfyddiadau yn rhai y mae modd eu cyffredinoli.

- y ffaith bod y canfyddiadau’n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd ar un adeg yn unig, gan gyfyngu ar y cyfleoedd i archwilio cynnydd ysgolion gydag amser wrth iddynt weithredu’r cwricwlwm a defnyddio dulliau addysgegol newydd.
- amser cyfyngedig a oedd ar gael er mwyn gallu archwilio pob agwedd ar waith cynllunio a gweithredu ysgolion.
- gwybodaeth gyfyngedig a ddarparwyd gan gyfranogwyr mewn perthynas ag arfer i gynorthwyo dysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys dysgwyr eFSM
- y ffaith bod gweithgarwch i hyrwyddo tegwch a chynwysoldeb mewn ysgolion yn gyfyngedig i ystod o ganllawiau statudol ac anstatudol ehangach; o ganlyniad, nid oedd hi wastad yn glir a oedd unrhyw benderfyniadau a gweithredoedd yr adroddwyd amdanynt yn seiliedig ar bolisi a chanllawiau ehangach, neu’n ymwneud â’u gweithrediad o’r cwricwlwm yn uniongyrchol

## Canfyddiadau

5. Mae canfyddiadau’r astudiaeth wedi’u strwythuro ar sail pum adran, gan adlewyrchu’r prif themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro o’r trafodaethau.

### Newidiadau i brofiadau dysgu dysgwyr trwy gyfrwng Cwricwlwm i Gymru

6. Adroddodd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod yn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb trwy gyfrwng amrediad o strategaethau ac arferion ar draws yr ysgol, a gyflwynwyd i gynorthwyo wrth wireddu Cwricwlwm i Gymru. Adroddodd y rhan fwyaf o ysgolion bod Cwricwlwm i Gymru wedi arwain at fwy o ffocws ar degwch a chynwysoldeb i bob dysgwr. Er bod rhai o’r newidiadau yr adroddwyd amdanynt wedi cychwyn cyn trefniadau Cwricwlwm i Gymru efallai, roeddent yn teimlo bod Cwricwlwm i Gymru wedi cyflymu’r datblygiadau, neu ei fod wedi cyd-fynd â nhw.
7. Nododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr o bob ysgol bod Fframwaith Cwricwlwm i Gymru wedi cynnig cyfle iddynt ddatblygu cwricwlwm wedi’i deilwra i anghenion eu dysgwyr a’u cymunedau.

8. Adroddodd uwch arweinwyr yn gyson y bu mwy o bwyslais ar adnabod anghenion dysgwyr ac addasu dulliau er mwyn rhoi sylw i'r rhain mewn ffyrdd mwy cynhwysol. Roedd y rhain yn cynnwys:

   - Ffocws ar gymorth ac addysgeg wahaniaethol wrth ymateb i anghenion dysgwyr sydd â nodweddion penodol.
   - Newidiadau i addysgeg er mwyn cynorthwyo mwy o degwch o ran y ffordd y mae dysgwyr yn profi'r cwricwlwm. Roedd hyn cynnwys cymorth wedi'i dargedu ynghylch dulliau astudio, ac adborth gwell gan ddysgwyr er mwyn helpu dysgwyr i ddeall yn well y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt er mwyn sicrhau cynnydd. Cyfeiriodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr at newidiadau i arfer yn y dosbarth, gan gynnwys mwy o gymorth un-i-un a gwaith gyda grwpiau llai er mwyn cynorthwyo cynnydd dysgwyr.

9. Yn ystod trafodaethau, cyfeiriadau prin a gafwyd gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr at ddysgwyr eFSM a dysgwyr â nodweddion gwarchodedig. Nododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr, fodd bynnag, eu bod yn bodloni anghenion dysgwyr eFSM a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig trwy ganolbwyntio ar fodloni anghenion unigol pob dysgwr.

10. Yn gyffredinol, roedd y data yn dynodi symud i ffwrdd o'r arfer o osod dysgwyr mewn grwpiau ar sail gallu, fodd bynnag, adroddodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr am lwyddiant a phrofiadau cyferbyniol mewn perthynas â hyn.

11. Adroddodd y rhan fwyaf o ysgolion bod Cwricwlwm i Gymru wedi cyfrannu at newidiadau o ran y ffordd y maent yn asesu cynnydd dysgwyr, gan gynnwys hwb o'r newydd i adnabod a chynorthwyo anghenion unigol. Roedd hyn yn cynnwys gwneud mwy o ddefnydd o asesiadau parhaus ac mewn rhai achosion, defnyddio proffiliau un tudalen i gyfrannu at waith cynllunio. Nododd nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr bod hyn yn galluogi dull mwy unigoledig, gan adlewyrchu mannau cychwyn a chynnydd dysgwyr yn well.

12. Mewn rhai ysgolion, roedd cyflwyno camau cynnydd yn dynodi newid o ddefnyddio nodau cyrhaeddiad yn seiliedig ar oedran, i arfer sy'n briodol ar lefel ddatblygiadol ac addysgegol. Er bod rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr o'r farn bod y camau cynnydd yn ddefnyddiol, roedd eraill yn beirniadu eu 'haneglurder' tybiedig, gan nodi bod y disgrifiadau dysgu dan bob cam yn anodd i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr eu deall.

13. Nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr bod newidiadau a gyflwynwyd dan drefniadau'r cwricwlwm newydd wedi arwain at fwy o ddefnydd o hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid hefyd, gan feithrin mwy o gyfrifoldeb ac annibyniaeth ymhlith dysgwyr.

## Adolygu dysgu a phrofiadau'r cwricwlwm

14. Adroddodd pob ysgol eu bod wedi gwneud newidiadau er mwyn cynnwys ac adlewyrchu anghenion dysgwyr yn eu cwricwlwm mewn ffyrdd sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Pwysleisiont bwysigrwydd sicrhau bod dysgu ac addysgu yn berthnasol ac o ddiddordeb i ddysgwyr, gan adlewyrchu anghenion dysgwyr wrth gynllunio profiadau dysgu.

15. Adroddodd ysgolion yn gyson eu bod yn manteisio ar adborth dysgwyr i gyfrannu at weithgarwch cynllunio y cwricwlwm, gan adolygu ac addasu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer mathau penodol o ddysgwyr a dosbarthiadau.

16. Adroddodd rhai ysgolion bod cynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd sy'n bodloni anghenion amrywiol yn arwain at fanteision o ran ymgysylltu â dysgwyr. Roedd rhai ymarferwyr yn teimlo bod cyswllt rhwng gweithgarwch cynllunio cwricwlwm gwell a lefelau presenoldeb.

17. Nododd pob ysgol eu bod yn rhoi pwyslais ar gynorthwyo sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, a chynnig cyfleoedd i ddysgwyr feithrin hyder a gwydnwch. Gwelwyd bod hyn yn rhan o ddull mwy holistaidd tuag at gynorthwyo sgiliau a chynnydd dysgwyr.

18. Adroddodd bron pob ysgol eu bod yn cynorthwyo dyheadau uchel a'u bod yn meithrin sgiliau mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo egwyddorion tegwch a chynwysoldeb. Roedd hyn yn cynnwys annog cyfranogiad dysgwyr mewn gweithgareddau chwaraeon a'r celfyddydau, annog datblygiad sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau gydol oes megis cyfathrebu, arweinyddiaeth ac empathi, yn ogystal â meithrin sgiliau cyflogadwyedd.

19. Adroddodd nifer o'r ysgolion uwchradd nad ydynt yn siŵr sut i gysoni'r dull mwy holistaidd ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wrth weithredu'r cwricwlwm, a'r gofynion sy'n gysylltiedig â chymwysterau TGAU. Gofynnwyd cwestiynau gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd ynghylch sut i ymwreiddio dull sy'n seiliedig

ar degwch a chynwysoldeb ar gyfer y cwricwlwm, os yw systemau atebolrwydd yn parhau i flaenoriaethu canlyniadau arholiadau.

## Nodi anghenion unigol a chynnig cymorth priodol

20. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn ymdrechu i ymwreiddio tegwch a chynwysoldeb trwy adnabod anghenion unigol ac amgylchiadau teuluol, gan gynnig cymorth priodol. Adroddodd nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr bod hyn wedi arwain at fwy o ddealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar ddysgwyr a'u cynnydd, yr oeddent yn aml y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol nhw.

21. Adroddodd sawl ysgol am fwy o ymdrechion i ymgysylltu â theuluoedd, gyda chymorth swyddogion ymgysylltu â theuluoedd. Adroddodd rhai ysgolion bod hyn wedi eu galluogi i addasu dysgu ac addysgu, a chynnig cymorth priodol i ddysgwyr.

22. Mynegwyd rhybudd gan sawl cyfranogydd ei bod hi'n anodd sicrhau, wrth geisio bodloni anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr, bod pob dysgwr yn cael eu cynorthwyo mewn ffordd briodol, a cheir risg y gallai anghenion dysgwyr gael eu hanwybyddu mewn ffordd anfwriadol wrth ganolbwyntio ar grwpiau sydd ag anghenion dysgu penodol.

23. Yn ogystal, mynegwyd pryder gan rai uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd y gallai cyfyngiadau ar y gyllideb arwain at heriau wrth barhau'r cymorth sy'n targedu grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi. Roedd hyn yn cynnwys gostyngiad yn nifer y swyddi cynorthwywyr addysgu a gweithgareddau allgyrsiol, a bod gan hyn y potensial i gyfyngu ar gyfleoedd i gynorthwyo dulliau mwy unigoledig tuag at addysgu a dysgu, sy'n rhywbeth a ystyrir yn rhan ganolog o ymdrechion i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb trwy weithredu'r cwricwlwm.

## Capasiti y system i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb

24. Roedd gweithredu Cwricwlwm i Gymru mewn ffordd a oedd yn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb wedi arwain at newidiadau o ran arfer, yr adroddwyd eu bod wedi arwain at alwadau ychwanegol ar uwch arweinwyr ac ymarferwyr ar draws pob ysgol yn y sampl. Er bod uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r galluogedd i deilwra dysgu yn unol ag anghenion amrywiol yn gyffredinol, nododd rhai bod

datblygu, cynllunio a darparu adnoddau ar gyfer y dulliau hyn yn cymryd amser ac nad oedd hyn yn cael ei ariannu. Yn ystod trafodaethau gyda rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr, datgelwyd y cyfyngiadau yr oeddent yn eu hwynebu, wrth i'r cyfranogwyr hyn gyfeirio at heriau yn y meysydd canlynol yn benodol:

- Amser cynllunio ar gyfer ac ymateb i anghenion cymorth dysgwyr unigoledig a gwahaniaethol.
- Manteisio ar ddysgu proffesiynol priodol i gynorthwyo, a chynorthwyo gweithgarwch cynllunio cwricwlwm a dulliau o fonitro cynnydd dysgu yn benodol.
- Cynnig cymorth ychwanegol i athrawon newydd gymhwyso (ANG), nad oeddent ar brydiau yn ddigon parod i gynorthwyo wrth wireddu Cwricwlwm i Gymru ar ôl cwblhau eu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), yn ôl rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr.
- Sicrhau cydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau sy'n ymwneud â Chwricwlwm i Gymru a'u dyletswyddau dan y trefniadau diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan arwain at fwy o bwysau o ran llwyth gwaith.

## Amrywioldeb arfer

25. Er bod y rhan fwyaf o ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r gallu i deilwra'r cwricwlwm er mwyn adlewyrchu anghenion eu dysgwyr, roedd rhai yn gofidio y gallai dehongliadau ac arferion anghyson arwain at fwy o amrywiadau o ran profiadau dysgwyr rhwng ysgolion, trwy amryfusedd.

26. Bu nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn myfyrio am yr amrywiad rhwng arferion ysgolion, gan gynnwys gwahaniaethau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd wrth weithredu'r cwricwlwm. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch ffactorau cymdeithasol-economaidd ehangach, megis y ffaith bod yr adnoddau sydd ar gael yn anghyfartal, a bod ymarferwyr yn ofni y gallai hyn danseilio eu hymdrechion i gynnig profiadau teg dan Gwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys pryderon am y cyfyngiadau ariannol y mae rhai teuluoedd mewn cymunedau difreintiedig yn eu hwynebu, sy'n dylanwadu ar y math o brofiadau a theithiau yr oedd ysgolion yn gallu eu cynnig i ddysgwyr fel rhan o'u cwricwlwm. Nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr y byddai gan ysgolion sydd ag adnoddau neu gyfleusterau gwell – gan gynnwys y rhai sy'n

gwasanaethu cymunedau mwy cefnog – fantais. Nododd y cyfranogwyr hyn – cynrychiolwyr ysgolion uwchradd yn bennaf – y gallai ffactorau cymdeithasol-economaidd gyfrannu at amrywiadau o ran y ffordd y mae ysgolion yn ymateb i'r diwygiadau, gan ehangu'r bylchau o ran canlyniadau a phrofiadau dysgwyr o bosibl.

27. Roedd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd yn priodoli'r amrywioldeb o ran arfer yn eu hysgolion eu hunain i wahanol feddylfryd ymhlith ymarferwyr: adroddwyd bod rhai ymarferwyr, gan gynnwys ymarferwyr profiadol yr oeddent yn gyfarwydd â gweithredu cwricwlwm mwy rhagnodol, wedi gweld y profiad o addasu eu haddysgeg i'r dull mwy hyblyg ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr sy'n ofynnol dan Gwricwlwm i Gymru, yn un heriol.

28. Roedd y persbectifau hyn yn amlygu tensiwn: er yr ystyriwyd yn aml bod galluogedd lleol yn rhywbeth cadarnhaol er mwyn cynllunio cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, roedd rhai cyfranogwyr yn ofni y gallai arwain at arfer tameidiog hefyd.

## Meysydd i'w hystyried

### Canllawiau mwy penodol am sut y gall dulliau cwricwlwm helpu i fodloni anghenion dysgwyr sydd ag ADY, dysgwyr mwy abl a thalentog (MAT), dysgwyr sy'n profi tlodi, a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig

29. Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a gynigir gan Gwricwlwm i Gymru i addasu'r cwricwlwm i adlewyrchu amgylchiadau unigol dysgwyr. Fodd bynnag, ni allai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr adnabod strategaethau penodol Cwricwlwm i Gymru sydd wedi'u teilwra i grwpiau penodol megis dysgwyr sydd ag ADY, dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, (gan gynnwys y rhai sy'n eFSM), neu'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae canfyddiadau'r astudiaeth yn awgrymu y byddai'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi cael budd o gael canllawiau mwy manwl ynghylch sut y gall Cwricwlwm i Gymru gynorthwyo'r grwpiau hyn o ddysgwyr yn uniongyrchol. Gallai hyn helpu i ddiffinio ac egluro'r cyfraniad y bwriedir i Gwricwlwm i Gymru ei wneud i welliannau o ran tegwch a chynwysoldeb mewn ysgolion.

### Mwy o eglurder ynghylch sut y gall camau cynnydd gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb

30. Er y nododd pob ysgol eu bod wedi cyfeirio at y camau cynnydd er mwyn cyfrannu at eu dulliau i fonitro cynnydd dysgwyr, roedd nifer o gyfranogwyr – yn enwedig y rhai sy'n gweithio gyda dysgwyr sydd ag ADY – wedi mynegi pryder ynghylch aneglurder a/neu nifer y camau. Dylid ystyried datblygu enghreifftiau, fel rhan o ganllawiau ychwanegol, sy'n dangos sut i ddefnyddio camau cynnydd mewn ffyrdd sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb i bob dysgwr.

### Mwy o gymorth ar gyfer grwpiau amrywiol o ddysgwyr er mwyn cryfhau tegwch a chynwysoldeb wrth wireddu Cwricwlwm i Gymru

31. Dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth bellach i'r ffordd y caiff adnoddau eu neilltuo i ysgolion sy'n gwasanaethu niferoedd anghymesur o uchel o ran dysgwyr sydd ag ADY, dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan effaith tlodi, neu sydd ag anghenion eraill. Gallai hyn gynnwys archwilio cyfleoedd (gan gynnwys trwy gyfrwng y Grant Datblygu Disgyblion) i gynorthwyo staffio ychwanegol, dysgu proffesiynol, a phartneriaethau cymunedol sy'n gallu cryfhau'r ddarpariaeth mewn ysgol. Mae gofyn gwneud ymdrechion i sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion, a ffrydiau ariannol eraill, yn ddigon hyblyg i alluogi ysgolion i ganlyn dulliau mwy creadigol (er enghraifft rhaglenni pontio estynedig, ymyriadau cymdeithasol-emosiynol) sydd wedi'u hymwreiddio yn egwyddorion Cwricwlwm i Gymru.

32. Gallai camau sy'n cael eu cymryd gan ysgolion i gryfhau tegwch a chynwysoldeb ymestyn i sicrhau bod cyfle cyfartal i ddysgwyr o bob cefndir i ymwneud â gweithgarwch llais y dysgwr hefyd. Dylid annog grwpiau amrywiol o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, i gymryd rhan mewn gweithgarwch ymgysylltu sy'n cyfrannu at ddulliau ysgolion tuag at gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm.

### Rhoi sylw i amrywioldeb wrth weithredu'r cwricwlwm er mwyn hyrwyddo tegwch a chynwysoldeb

33. Mae amrywioldeb o ran arferion ysgolion wrth iddynt weithredu'r cwricwlwm yn peryglu tanseilio'r nod o sicrhau tegwch a chynwysoldeb trwy wneud profiadau

dysgwyr yn ddibynnol iawn ar gyd-destun penodol yr ysgol. Gallai gweithgarwch dan arweiniad awdurdod lleol i gynorthwyo dysgu proffesiynol ystyried hwyluso gweithgarwch ar y cyd sy'n canolbwyntio ar degwch a chynwysoldeb yng Nghwricwlwm i Gymru. Gallai hyn olygu galluogi partneriaethau dysgu proffesiynol gweithredol lle y mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cael cyfleoedd i weld dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb y tu allan i'w hysgol nhw, y mae modd manteisio arno er mwyn cyfrannu at welliannau. Gallai hyn ddatblygu sgyrsiau a gafwyd yn flaenorol trwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm, gan gynnwys trafodaethau ynghylch tegwch a chynwysoldeb.

## Cydweithio gwell rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cynorthwyo parhad o ran tegwch a chynwysoldeb

34. Byddai modd ystyried cynorthwyo trefniadau clwstwr ffurfiol neu fframweithiau pontio sy'n pennu dulliau cyffredin o ran cynnydd, monitro dysgwyr, a dulliau addysgegol cyson rhwng pontio ar gyfer dysgwyr agored i niwed (er enghraifft, y rhai sydd ag ADY neu sydd dan anfantais gymdeithasol-economaidd). Gallai hyn gynnwys hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant ar draws clwstwr neu gymunedau dysgu proffesiynol lle y gall ymarferwyr cynradd ac uwchradd gydweithio ar strategaethau i wireddu Cwricwlwm i Gymru sy'n cynorthwyo parhad ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu risg.

## Mwy o ffocws ar Gwricwlwm i Gymru a chynwysoldeb mewn AGA a dysgu proffesiynol parhaus

35. Canfu'r astudiaeth bod angen gwneud gwelliannau mewn AGA a dysgu proffesiynol parhaus er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Gallai rhaglenni AGA gynnwys modiwlau penodol sy'n ymwneud â Chwricwlwm i Gymru ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc, gan gynnwys ffocws ar ddeall anghenion a datblygiad dysgwyr sydd ag ADY, dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, a darpariaeth wahaniaethol i fodloni'r anghenion hyn. Efallai y bydd angen i raglenni ymsefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso atgyfnerthu ethos Cwricwlwm i Gymru trwy gynnig arweiniad strwythuredig ynghylch addysgeg gynhwysol a chaniatáu trefniadau mentoriaeth gydag athrawon profiadol.

## Gwaith ymchwil pellach ar rôl Cwricwlwm i Gymru wrth wella tegwch a chynwysoldeb

36. Mae safbwyntiau ymarferwyr trwy gydol yr astudiaeth hon yn dynodi bod angen gwneud gwaith craffu parhaus ar effaith Cwricwlwm i Gymru ar degwch a chynwysoldeb – yn enwedig wrth i ddulliau ysgolion barhau i esblygu ac wrth i drefniadau atebolrwydd newydd ddod i'r amlwg. Mae persbectif sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yn hanfodol, gan bod tystiolaeth uniongyrchol gan blant a phobl ifanc ynghylch sut y maent yn profi Cwricwlwm i Gymru, yn gyfyngedig.

37. Mae gwaith ymchwil pellach yn ddymunol er mwyn:

- Archwilio graddau ac ansawdd y ddarpariaeth ar degwch a chynwysoldeb yn AGA a rhaglenni ymsefydlu, gan nodi lle y gellir cryfhau hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar Gwricwlwm i Gymru.
- Cynnal gwaith ymchwil sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, yn enwedig ymhlith dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, er mwyn asesu sut y mae newidiadau Cwricwlwm i Gymru yn effeithio ar eu hymdeimlad o gynwysoldeb a'u cynnydd.
- Archwilio pwyntiau pontio i ddysgwyr, yn enwedig arferion pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd dan Gwricwlwm i Gymru, gan werthuso pa mor effeithiol y maent yn cynnal dulliau cynhwysol ac a oes angen ymyriadau ychwanegol. Dylai hyn ddatblygu gwaith Estyn ynghylch pontio a chynnydd disgyblion.[3]
- Asesu'r amrywioldeb wrth wireddu Cwricwlwm i Gymru ar draws ysgolion sydd â gwahanol ddemograffeg cymdeithasol-economaidd er mwyn deall sut y mae'r amrywiad hwn yn dylanwadu ar gyrhaeddiad grwpiau amrywiol o ddysgwyr

[3] Estyn (2024). Adroddiad Thematig: Pontio a chynnydd disgyblion

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Arad i arwain gwerthusiad ffurfiannol o Gwricwlwm i Gymru (Cwricwlwm i Gymru). Mae Arad yn gweithio gyda nifer o sefydliadau fel rhan o raglen ymchwil eang, gan gynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol Stirling, Prifysgol Auckland ac AlphaPlus Consultancy Ltd.

1.2. Mae'r gwerthusiad yn mabwysiadu dull dulliau cymysg, gan gynnwys arolygon ymarferwyr, arolygon rhieni/gofalwyr a dysgwyr, astudiaethau achos hydredol er mwyn deall teithiau gwireddu cwricwlwm ysgolion a sawl astudiaeth achos ansoddol yn seiliedig ar bynciau a thestunau sy'n archwilio elfennau penodol o Gwricwlwm i Gymru.

1.3. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith ymchwil ynghylch Tegwch a Chynwysoldeb dan arweiniad Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Roedd yr astudiaeth hon yn archwilio sut yr oedd ymarferwyr yn dirnad ac yn defnyddio canllawiau Cwricwlwm i Gymru i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb i ddysgwyr, gan ganolbwyntio ar y ffordd yr oedd y canllawiau yn siapio eu harferion gweithredu.

1.4. Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn:

i. Mae Pennod 1 yn cynnig trosolwg o'r gwerthusiad ffurfiannol, cyn canolbwyntio ar y cyd-destun a chwestiynau ymchwil sydd wedi tywys yr astudiaeth Tegwch a Chynwysoldeb hon.

ii. Mae Pennod 2 yn nodi'r dull a fabwysiadwyd o ran y fethodoleg, gan ddisgrifio'r dull wrth recriwtio cyfranogwyr i'r gwerthusiad, y dulliau casglu data a dadansoddi, a chyfyngiadau'r gwaith ymchwil.

iii. Mae Pennod 3 yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith ymchwil, sy'n seiliedig ar bum prif thema:

- Adran 1: Newidiadau i brofiadau dysgu dysgwyr trwy Gwricwlwm i Gymru.
- Adran 2: Adolygu datblygiad y cwricwlwm a phrofiadau dysgu.
- Adran 3: Adnabod anghenion unigol a chynnig cymorth priodol.
- Adran 4: Capasiti y system i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb.
- Adran 5: Amrywioldeb ymarfer.

iv. Mae Pennod 4 yn cyflwyno'r casgliadau a'r meysydd i'w hystyried ymhellach.

## Trosolwg o'r gwerthusiad ffurfiannol

1.5. Nod y gwerthusiad yw asesu'r graddau y mae'r diwygiadau i'r cwricwlwm yn gweithio yn ôl y disgwyl ac fel y cânt eu nodi yn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru (Y Fframwaith) (Llywodraeth Cymru, 2025). Amcanion y gwerthusiad yw:

- adolygu'r theori newid yn yr Astudiaeth Gwmpasu er mwyn gwerthuso'r cwricwlwm a'r diwygiadau asesu yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2022a), a gwneud diwygiadau yn ôl yr angen, yn arbennig er mwyn ystyried tegwch yn fwy o fewn y theori newid
- ystyried y graddau y mae'r mecanweithiau yn y theori newid, a'r gweithgareddau disgwyliedig, yr allbynnau a'r canlyniadau tymor byr/canolig yn cael eu gwireddu yn ôl y disgwyl
- archwilio graddau'r amrywiad rhwng dulliau ar draws ysgolion a darpariaeth arall[4] a disgrifio pa ffactorau a/neu amodau sy'n cynorthwyo neu sy'n atal y diwygiadau rhag cael eu gwireddu mewn ffordd effeithiol a pha gymorth ychwanegol y mae ei angen
- archwilio safbwyntiau, arferion a phrofiadau uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau a darpariaeth arall mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru, gan gynnwys i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae safbwyntiau, profiadau ac arferion yn gwahaniaethu ar gyfer gwahanol fathau o ymarferwyr ac ysgolion, a pham
- archwilio safbwyntiau a phrofiadau dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau a darpariaeth arall mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru, yn ogystal â'u rhieni/gofalwyr, gan gynnwys i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae profiadau yn gwahaniaethu ar gyfer gwahanol fathau o ddysgwyr a rhieni/gofalwyr, a pham

[4] Defnyddir 'Ysgolion' trwy gydol yr adroddiad hwn i gyfeirio at wahanol leoliadau addysgol, gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol (AHY), gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD). Mewn rhai rhannau o'r adroddiad hwn, nodir y math o leoliad addysg yn benodol, er enghraifft wrth nodi gwahaniaethau yn y canfyddiadau.

- ffurfio casgliadau ac amlygu meysydd i'w hystyried ar gyfer polisi ac arfer ar draws y system gyfan er mwyn cynorthwyo i wireddu diwygiadau asesu ac i'r cwricwlwm yn y dyfodol, a'u heffeithiolrwydd, gan sicrhau bod y rhain yn ystyried ehangder y diwygiadau ar draws gwahanol grwpiau rhanddeiliaid, cyd-destunau a lleoliadau yn llawn

## Cefndir a chyd-destun

1.6. Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg yng Nghymru a chreu system addysg sy'n codi safonau addysgol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd. Mae gan Gwricwlwm i Gymru bedwar diben sy'n fan cychwyn ac yn ddyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Roedd adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), 'Gwella Ysgolion yng Nghymru' (OECD, 2014) a Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), yr adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn adolygiad annibynnol Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, yn nodi'r rhesymeg dros y diwygiadau, yn ogystal ag argymhellion ynghylch sut i gynllunio cwricwlwm newydd a fydd yn addas i Gymru gyfoes. O dan y diwygiadau, mae gofyn i bob ysgol ac uned cyfeirio disgyblion ddatblygu ei chwricwlwm ei hun, o fewn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru a ddiffiniwyd ar lefel genedlaethol, gan alluogi dysgwyr i ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm trwy ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

1.7. Dan Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, mae sgiliau cyfannol i'w datblygu ar draws ystod eang o ddysgu ac addysgu yn sail i'r pedwar diben. Y sgiliau cyfannol hyn yw: creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol a chynllunio a threfnu. Trefnir pynciau o gwmpas chwe Maes: Y Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Ar draws y

chwe maes hwn, o fewn canllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru, ceir 27 datganiad mandadol o'r hyn sy'n bwysig sy'n sicrhau lefel o gysondeb wrth gynllunio cwricwlwm ar draws lleoliadau ac ysgolion, gan bod yn rhaid i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r holl ddatganiadau (Llywodraeth Cymru, 2024a).

1.8. Fel rhan o Gwricwlwm i Gymru, mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau cynnydd yn y sgiliau hyn ar draws pob maes o'r cwricwlwm. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ysgolion ymwreiddio themâu trawsgwricwlaidd mewn dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae'r themâu trawsgwricwlaidd yn cynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb, hawliau dynol, amrywiaeth, addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, a chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

1.9. Adeg y gwaith ymchwil hwn, roedd Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl ddysgwyr cynradd ac ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 7 ac 8.

1.10. Datblygwyd astudiaeth ansoddol Tegwch a Chynwysoldeb i archwilio'r cydberthnasoedd rhyng-gysylltiedig rhwng y ddealltwriaeth o degwch a chynwysoldeb mewn ysgolion, a'r arferion sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm y mae darparwyr addysg yn ystyried eu bod yn cynorthwyo'r egwyddorion hyn o fewn eu hysgolion trwy weithredu Cwricwlwm i Gymru. Un rhesymeg bwysig ar gyfer diwygio'r cwricwlwm oedd bod angen bod ysgolion ac ymarferwyr yn gallu ymateb i anghenion dysgwyr mewn ffordd fwy uniongyrchol, ac felly, roedd angen mwy o alluedd arnynt o fewn y cwricwlwm er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr. Gweithredir Cwricwlwm i Gymru ar y cyd â diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r ddau yn ceisio cynnig cyfleoedd i sicrhau mwy o gynwysoldeb o fewn y system addysg yng Nghymru. Fodd bynnag, er mwyn i hyn ddigwydd, yn ogystal â mwy o degwch, mae angen i ymarferwyr ddeall yr arferion y gallent arwain at y newidiadau cadarnhaol hyn, a chael hyder yn eu gallu i'w gweithredu'n llwyddiannus. Bu'r gwaith ymchwil yn gyfle i ddeall ym mha ffyrdd a pha mor effeithiol y caiff y broses hon o greu cwricwlwm ei gwireddu er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb.

1.11. Mae tegwch a chynwysoldeb yn dermau a ddefnyddir yn helaeth o fewn polisi Cwricwlwm i Gymru ac yn ehangach ar draws llenyddiaeth sy'n ymwneud â systemau addysg. Mae'r ddealltwriaeth o hyn mewn perthynas â pholisi wedi cael ei siapio gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y

Sector Cyhoeddus, sef [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Canllawiau i ysgolion yng Nghymru (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2023)]. Mae'r canllawiau hyn yn mynnu bod ysgolion (a chyrff cyhoeddus eraill) yn gwaredu gwahaniaethu, yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol (anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gredo; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.

1.12. Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru am system addysg gynhwysol yn un sy'n rhoi lle i ddysgwyr ar bob lefel o fewn y system, waeth beth fo eu galluoedd, eu dawn neu eu gofynion. Mae'n cynnwys y system addysg gyfan gwbl – deddfwriaeth a pholisi, systemau ar gyfer ariannu, gweinyddu, cynllunio, darparu, monitro a'r ffordd y trefnir darpariaeth. Mae modd deall tegwch a chynwysoldeb mewn perthynas â thegwch o ran y cyfleoedd i bawb sicrhau cynnydd. Mae'r mesurau i gyflawni hyn yn aml yn cynnwys ffocws ar bolisïau ac arfer sy'n rhoi sylw i anghysondebau sylweddol rhwng grwpiau o ddysgwyr a'r siawns y byddant yn llwyddo, megis gwaredu rhwystrau sy'n rhoi grwpiau penodol dan anfantais a chynnig cymorth priodol er mwyn bodloni anghenion dysgwyr amrywiol. Mae tegwch a chynwysoldeb hefyd yn ymwneud â rhoi sylw i effaith anghydraddoldebau ar gynnydd addysgol, profiadau a chyrhaeddiad. Mae hyn yn cynnwys arferion sy'n sicrhau bod pob dysgwr, beth bynnag yw eu cefndir neu eu gallu, yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan yn y cwricwlwm a chael budd ohono. Mae hefyd yn cyfeirio at ddarpariaeth addysgol lle y mae pob dysgwr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, a'u cynorthwyo. Mae gan gynwysoldeb ystyron mwy penodol hefyd sy'n ymwneud â grwpiau o ddysgwyr y gallent fod mewn perygl o fod ar yr ymylon, o gael eu heithrio neu o dangyflawni megis dysgwyr sydd ag ADY, plant sy'n byw mewn tlodi, plant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, a dysgwyr anabl. Mae ysgolion a lleoliadau yn gyfrifol am sicrhau bod y plant hynny sydd yn y perygl mwyaf yn cael eu adnabod a'u monitro, a bod camau yn cael eu cymryd i waredu rhwystrau er mwyn sicrhau eu presenoldeb a'u cyfranogiad, a'u bod yn gallu cyflawni o fewn y system addysg. Felly, mae'r termau hyn yn adlewyrchu egwyddorion sy'n eistedd o fewn gwahanol ofynion statudol ac anstatudol a dogfennau canllaw i ysgolion (er enghraifft [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru (2018); Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021]; [Deddf Cydraddoldeb (2010)] fel y soniwyd amdani eisoes; [Deddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (2022), Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA) (2006), a Chanllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (2016). Mae cysyniadau tegwch a chynwysoldeb yn ymhlyg ar draws Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal, ceir cyfeiriadau penodol yng nghanllawiau statudol (Llywodraeth Cymru, 2022b) at y gofyniad i ysgolion gynllunio a gweithredu cwricwlwm cynhwysol sy'n hygyrch i bawb. Felly, mae tegwch a chynwysoldeb yn croestorri amrediad o bolisïau ac arferion ysgol gan gynnwys: arferion sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo dysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig yn benodol; sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu ac yn dathlu amrywiaeth a chynwysoldeb mewn ffordd gadarnhaol; rhoi sylw i'r heriau y mae dysgwyr o aelwydydd incwm isel a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu yn eu hwynebu; a deall yr anawsterau y mae plant sydd wedi cael profiad o ofal yn eu hwynebu, yn ogystal â'r rhai o garfannau sy'n gallu profi rhwystrau wrth fanteisio ar ddysgu a phrofiadau mewn ffordd deg, megis dysgwyr sydd â phroblemau iechyd corfforol neu iechyd meddwl, neu'r rhai o grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol.

1.13. Amlygwyd sawl un o'r pryderon y soniwyd amdanynt uchod mewn gweithdy a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024 gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ym maes tegwch. Yn ogystal, amlygwyd pwysigrwydd archwilio sut mae ysgolion yn deall croestoriadedd mewn perthynas â'r ffyrdd y mae amddifadedd cymdeithasol-economaidd yn dwysáu'r heriau i ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig eraill (gan gynnwys rhyw ac ethnigrwydd) neu amgylchiadau personol penodol (megis gofalwyr ifanc), neu'r rhai y mae eu profiadau creu rhwystrau iddynt. Cyfrannwyd at y dull ar gyfer yr astudiaeth ansoddol hon gan ystyriaeth o'r ehangder hwn o faterion perthnasol, gan ddeall pwysigrwydd cynnal ffocws ar y ffordd y maent yn gysylltiedig â phersbectifau a newidiadau i arfer o fewn ysgolion hefyd wrth iddynt weithredu Cwricwlwm i Gymru. Roedd y cysylltiad hwn rhwng tegwch a chynwysoldeb a gweithredu'r cwricwlwm yn rhan ganolog o'r gwaith o gasglu data.

## Nodau'r astudiaeth a chwestiynau ymchwil

1.14. Trwy archwilio sut y caiff elfennau penodol o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru eu gweithredu mewn gwahanol gyd-destunau, nod yr astudiaeth hon oedd sicrhau

dealltwriaeth o'r cwestiwn a yw arferion ysgolion yn cyd-fynd â gweledigaeth diwygiadau Cwricwlwm i Gymru. Ymhellach, roedd yr astudiaeth yn ceisio deall y graddau yr oedd yr arferion hyn yn cyfrannu at wireddu canlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hirach Cwricwlwm i Gymru, fel yr amlinellir yn y theori newid a ddatblygwyd i gynorthwyo'r gwerthusiad o Gwricwlwm i Gymru.

1.15. Roedd yr astudiaeth hon yn archwilio dau gwestiwn cyffredinol mewn perthynas â thegwch a chynwysoldeb:

- Sut mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gweithredu yn ymarferol er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb?
- Sut mae lleoliadau ac ymarferwyr yn cael eu cefnogi i weithredu Cwricwlwm i Gymru mewn ffordd sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb?

1.16. Er mwyn rhoi sylw i'r cwestiynau hyn, bu'r ymchwilwyr yn casglu data gan uwch arweinwyr yn ogystal ag athrawon a staff cymorth (a nodwyd fel 'ymarferwyr' yn yr adroddiad) a oedd yn gweithio mewn pum ysgol gynradd, tair ysgol uwchradd, un ysgol arbennig ac un UCD. Nod y gweithgarwch casglu data oedd casglu amrediad o bersbectifau am agweddau allweddol ar weithredu'r cwricwlwm, manylion gweithgareddau penodol ac arferion sy'n ymwneud ag addysg, a deall safbwyntiau a chredoau a oedd wedi siapio penderfyniadau ymarferwyr a phrofiadau dysgwyr.

1.17. Ychwanegwyd at y cwestiynau ymchwil cyffredinol a nodir yn 1.15 uchod trwy ddatblygu chwe maes archwiliol (gweler isod). Diben y rhain oedd cynnig eglurder o ran ffocws a chysondeb wrth ddatblygu canllawiau trafod ymchwil y byddai modd eu defnyddio gydag amrediad o gyfranogwyr. Roedd y meysydd fel a ganlyn:

Maes archwiliol 1: Persbectifau ynghylch cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb

- Beth yw dealltwriaeth uwch arweinwyr ac ymarferwyr o ysgolion yn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb i bob dysgwr? A yw ysgolion yn ystyried tegwch a chynwysoldeb fel elfennau gwahanol?

Maes archwiliol 2: Cwricwlwm i Gymru a dulliau unigoledig ar gyfer dysgu

- Sut mae uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio Cwricwlwm i Gymru er mwyn mabwysiadu dull unigoledig tuag at ddysgu er mwyn darparu ar gyfer pob gallu?

Maes archwiliol 3: Dealltwriaeth dysgwyr o'u cynnydd

- Sut mae ymarferwyr yn cynorthwyo dysgwyr i ddeall eu cynnydd, a sut mae hyn yn cyfrannu at welliannau o ran cynnydd ar gyfer pob dysgwr?

Maes archwiliol 4: Cynorthwyo mwy o ddysgwyr sy’n cael eu heffeithio gan dlodi, amgylchiadau eraill a’r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig

- Beth mae ymarferwyr yn ei wybod am amgylchiadau dysgwyr, (er enghraifft a ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu beidio, ac amgylchiadau personol ac amgylchiadau’r cartref eraill)? Pa ddulliau a ddefnyddir gan ymarferwyr i gynorthwyo’r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan dlodi ac amgylchiadau eraill, a’r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig? I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae Cwricwlwm i Gymru yn galluogi ymarferwyr i ganolbwyntio ar gynorthwyo’r dysgwyr hyn a sut maent yn gwneud hyn?

Maes archwiliol 5: Sut y mae trefniadau’r cwricwlwm ac asesu yn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb

- I ba raddau y mae trefniadau’r cwricwlwm ac asesu wedi galluogi ysgolion i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb ar gyfer eu holl ddysgwyr? I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae hyn yn wahanol i’r ffordd yr arferai pethau weithio dan y trefniadau blaenorol?

Maes archwiliol 6: Gwahaniaethau ar draws ysgolion a newid gydag amser

- I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae safbwyntiau, profiadau ac arferion yn gwahaniaethu i wahanol fathau o ymarferwyr ac ysgolion, a pham? I ba raddau y mae safbwyntiau, profiadau ac arferion yn newid gydag amser, a pham?

1.18. Defnyddiwyd y cwestiynau i ysgogi trafodaeth ynghylch themâu sy’n ymwneud â thegwch a chynwysoldeb mewn ysgolion a UCDau gydag uwch arweinwyr ac ymarferwyr (gweler Pennod 2 am wybodaeth bellach am y sampl ymchwil).

1.19. Nid oedd y gwaith ymchwil wedi mynd ati i nodi rhestr gyflawn o nodweddion sy’n gysylltiedig â thegwch a chynwysoldeb y byddent yn cael eu cynnwys yn y gwaith maes. Pan na fyddai uwch arweinwyr a/neu ymarferwyr yn sôn am nodweddion allweddol a chefndiroedd dysgwyr y mae gwaith ymchwil wedi dangos eu bod yn gysylltiedig â phrofiadau neu ganlyniadau addysgol gwaeth, nod y tîm ymchwil oedd archwilio ac ymchwilio i’r meysydd hyn gyda chwestiynau ychwanegol. Roedd y tîm ymchwil yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal dull nad oedd yn arweiniol ac a

oedd yn cael ei dywys gan yr ymatebwyr, a chael persbectif cymesur ynghylch tegwch a chynwysoldeb. Fodd bynnag, rhoddwyd blaenoriaeth i'r ymatebion i gwestiynau penagored cychwynnol ynghylch pob thema. Roedd hyn yn golygu bod yr amser i ymchwilio yn fanwl yn gyfyngedig yn ymarferol, gan gynnwys mewn perthynas â grwpiau penodol o ddysgwyr.

## 2. Methodoleg

2.1. Mae'r bennod hon yn cynnig manylion am y fethodoleg ymchwil a ddefnyddiwyd yn ystod y gwaith ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau recriwtio, gwaith maes a gynhaliwyd, y dull er mwyn dadansoddi a chyfyngiadau'r gwaith ymchwil

2.2. Mabwysiadwyd dull ymchwil ansoddol ar gyfer yr astudiaeth hon. Un o brif fanteision gwaith ymchwil ansoddol yw ei fod yn caniatáu i ymchwilwyr gael dealltwriaeth fanwl o brofiadau cyfranogwyr a'r cyd-destunau penodol yr oeddent yn gweithio ynddynt. Dewiswyd y dull hwn gan ei fod yn addas iawn er mwyn archwilio'r ffactorau cymhleth sy'n dylanwadu ar gynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer tegwch a chynwysoldeb ar lefel ysgol.

## Recriwtio a'r sampl

2.3. Estynnwyd gwahoddiad i ysgolion fynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn un neu fwy o'r astudiaethau ansoddol a gynhaliwyd yn ystod ton gyntaf y gwaith ymchwil fel rhan o'r gwerthusiad ffurfiannol. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cyfle i ymgysylltu â'r gwerthusiad trwy Lywodraeth Cymru (gan gynnwys cylchlythyr Dysg a Hwb), yn ogystal â thrwy gyfrwng partneriaethau a rhwydweithiau ysgol helaeth y partneriaid darparu sy'n sefydliadau addysg uwch ac a oedd yn aelodau o'r tîm gwerthuso. Estynnwyd gwahoddiad i ysgolion a lleoliadau fynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn unrhyw rai o'r bedair astudiaeth ansoddol neu astudiaeth Taith y Cwricwlwm[5] trwy lenwi ffurflen ar-lein.

2.4. At ei gilydd, mynegodd 71 ysgol ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn un o'r astudiaethau ansoddol neu fwy a/neu elfen Teithiau Cwricwlwm y gwerthusiad. Lluniodd tîm recriwtio Ymchwil Arad restr hir o 18 ysgol ar gyfer astudiaeth ansoddol Tegwch a Chynwysoldeb, ar sail dewisiadau ysgolion o'r datganiad o ddiddordeb, gan sicrhau hefyd bod gwasgariad o ysgolion ar draws hon a'r holl astudiaethau ansoddol. O blith y rhestr o 18 ysgol, aethpwyd ati i recriwtio naw ysgol ac un UCD i gymryd rhan yn yr astudiaeth ansoddol Tegwch a Chynwysoldeb, a oedd yn cynrychioli croestoriad da fesul sector (cynradd / uwchradd / arbennig /

[5] Roedd agwedd Teithiau Cwricwlwm y gwerthusiad yn cynnwys astudiaethau achos hydredol o 10 ysgol ar draws Cymru dros gyfnod y gwerthusiad.

UCD), fesul rhanbarth (Gogledd, Canol a Gorllewin, Canol de Cymru a De Ddwyrain Cymru), ac yn ôl cyfrwng iaith.

2.5. Roedd pump ysgol gynradd, tair ysgol uwchradd, un ysgol arbennig ac un UCD wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth. Fel y nodwyd yn 2.4, cynrychiolwyd y pedwar rhanbarth yng Nghymru yn y sampl. Roedd y 10 ysgol a oedd wedi cymryd rhan yn cynnwys:

- un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg; roedd yr ysgolion a oedd yn weddill yn rhai cyfrwng Saesneg
- lleolwyd yr ysgolion ar draws chwech awdurdod lleol, gan gynnwys cymysgedd o leoliadau trefol a gwledig
- roedd pedair ysgol yn cynnwys canran uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM)[6-7]
- roedd canran y dysgwyr sydd ag ADY/anghenion addysgol arbennig (AAA) yn yr ysgolion prif ffrwd yn y sampl yn amrywio o llai na 5% i ychydig dan 20%[8-9]; mae hyn yn cyfeirio at ganran y dysgwyr sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan yr ysgol neu gan awdurdod lleol, datganiad AAA, gweithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy.
- cymysgedd o ysgolion yn ôl maint ar sail niferoedd y dysgwyr, er enghraifft roedd yr ysgol gynradd fwyaf yn cynnwys dros 450 o ddysgwyr ac roedd yr un leiaf yn cynnwys llai na 250 o ddysgwyr.

2.6. Cyflwynir crynodeb o'r ysgolion a oedd wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth yn Nhabl 1 isod.

[6] Yn ôl StatsCymru Llywodraeth Cymru (2024b), mae 26.2% o ddisgyblion yng Nghymru yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n cynnwys y rhai sy'n cael eu hamddiffyn gan fesurau pontio. Yn 2019, cyflwynwyd polisi mesurau amddiffyn wrth bontio y cynllun prydau ysgol am ddim gan Lywodraeth Cymru. Diben y mesurau amddiffyn wrth bontio hyn oedd sicrhau na fyddai dysgwyr yn colli eu hawl i gael prydau ysgol am ddim wrth i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno yng Nghymru tan ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol (er enghraifft addysg gynradd neu uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2024c).
[7] Ni chaiff yr UCD ei chynnwys gan nad oes data ar gael.
[8] Ni chaiff yr UCD na'r ysgol arbennig eu cynnwys gan nad oes data.
[9] Tynnir data ADY/Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel Disgyblion (CYBLD) (Llywodraeth Cymru, 2024d). Ni chyhoeddwyd data ar gyfer ysgolion lle y gwelir rhwng un a phedwar dysgwr gyda rhai categorïau ADY/AAA. Ar gyfer yr ysgolion hyn, neilltuwyd gwerth tybiedig o 2 ddysgwr er mwyn gallu sicrhau cyfanswm a chanran y dysgwyr sydd ag ADY/AAA. Roedd gweithrediad y system ADY fesul cam yn mynd rhagddo adeg y lluniwyd yr adroddiad hwn, ac adlewyrchir hyn yn y data CYBLD a ddefnyddiwyd.

Tabl 1: Sampl ysgolion/lleoliadau astudiaeth ansoddol Tegwch a Chynwysoldeb

| Rhanbarth | Cynradd | Uwchradd | Arbennig | UCD |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd | | Cyfrwng Cymraeg x1 | | |
| Canolbarth a Gorllewin | Cyfrwng Saesneg x1 | | | |
| Canol De Cymru | Cyfrwng Saesneg x 2 | Cyfrwng Saesneg x1 | | UCD x1 |
| De Ddwyrain | Cyfrwng Cymraeg x1<br>Cyfrwng Saesneg x1 | Cyfrwng Saesneg x1 | Ysgol arbennig x1 | |

Ffynhonnell: Data cynradd a gasglwyd gan yr awduron

## Dulliau ymchwil

2.7. Cynhaliwyd gwaith ymchwil gydag ysgolion trwy gyfrwng trafodaethau lled-strwythuredig, naill ai dan drefniant un-i-un neu mewn grwpiau bychain. Roedd cyfranogwyr yn cynnwys uwch arweinwyr oedd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y cwricwlwm, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) ac ymarferwyr eraill a nodwyd gan ysgolion fel rhai sydd â chyfrifoldeb dros gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb dysgwyr. At ei gilydd, roedd 51 aelod o staff wedi cymryd rhan mewn trafodaethau, yr oedd 21 o'r rhain yn aelodau o uwch dimau arwain (UDA) ac yr oedd 30 ohonynt yn ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth, gan amrywio o benaethiaid cyfadran i gynorthwywyr addysgu.

2.8. Cwblhawyd rhan fwyaf y gwaith casglu data trwy gyfrwng trafodaethau a gynhaliwyd ar-lein (dros Microsoft Teams) neu wyneb yn wyneb. Roedd y trafodaethau hyn wedi para tua 60 munud a gwnaethpwyd recordiad sain ohonynt.

2.9. Mabwysiadwyd dull lled-strwythuredig a oedd yn cynnig yr hyblygrwydd i gael amrywiaeth o bersbectifau ymhlith yr unigolion a oedd wedi cymryd rhan mewn trafodaethau. Defnyddiwyd cwestiynau penagored i gychwyn sgyrsiau a gynlluniwyd

i arwain at drafodaethau o natur archwiliol. Rhoddwyd themâu i gyfranogwyr cyn y sgwrs.

2.10. Roedd trafodaethau a gafwyd yn ystod gweithdy gyda chynrychiolwyr polisi Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024 wedi cyfrannu at yr offerynnau ymchwil, ac roeddent yn cyd-fynd â'r dull cyffredinol ar gyfer y gwerthusiad. Mae modd gweld y canllawiau trafod llawn yn Atodiad B.

2.11. Nod y trafodaethau ymchwil oedd caniatáu i uwch arweinwyr ac ymarferwyr ddisgrifio eu persbectifau a'u harferion mewn perthynas â thegwch a chynwysoldeb o fewn cyd-destun gweithredu Cwricwlwm i Gymru, gan fanteisio ar eu profiadau proffesiynol ac amgylchedd eu hysgol unigol.

2.12. Roedd adnabod a rheoli amrywioldeb o ran sut yr oedd termau allweddol, sef 'cwricwlwm', 'tegwch' a 'chynwysoldeb' yn cael eu diffinio a'u deall, yn ystyriaeth fethodolegol bwysig, ynghyd â'r rhyng-gysylltiad rhwng y cysyniadau hyn mewn cyd-destunau ysgol. Holwyd uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd eu harferion tegwch a chynwysoldeb wedi deillio o'r gwaith o weithredu Cwricwlwm i Gymru, neu a oeddent yn bodoli cyn hyn. Mae gweithredu tegwch a chynwysoldeb yn ofynion statudol i ysgolion yng Nghymru, ac efallai bod ymarferwyr wedi bod yn dueddol o gynnig ymatebion yr oeddent yn teimlo eu bod yn ddisgwyliedig neu'n cyd-fynd â normau polisi. Roedd ymchwilwyr yn ymwybodol o'r angen i leihau risg tuedd o ran dymunoldeb cymdeithasol[10] y gallai fod wedi cael ei chyflwyno trwy holi sut yr oedd arferion penodol yn cyd-fynd â thegwch a chynwysoldeb. O ganlyniad, roedd y dull a fabwysiadwyd wrth gynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr ysgol yn canolbwyntio ar alluogi archwiliad ymatebol, heb farnu, o'r ffordd y caiff tegwch a chynwysoldeb eu dehongli a'u gweithredu o fewn y cwricwlwm er mwyn sicrhau persbectifau go iawn, ynghyd â gwybodaeth benodol sy'n berthnasol i'r cyd-destun.

2.13. Cynlluniwyd y gwaith dadansoddi i gynnig canfyddiadau cadarn trwy adnabod credoau sylfaenol ac arferion cyffredin yr oedd ysgolion yn eu cysylltu â gweithrediad Cwricwlwm i Gymru sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Roedd y rhain yn cynnwys yr heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu a'r manteision yr oeddent yn tybio eu bod yn dod o weithredu'r newidiadau hyn. Nod yr astudiaeth oedd archwilio nid yn unig sut y mae uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn rhoi sylw i

[10] Mae 'tuedd dymunoldeb cymdeithasol' yn cyfeirio at duedd bosibl mewn gwaith ymchwil lle y gallai'r ateb a roddir gael ei effeithio gan yr hyn a ystyrir yn dderbyniol yn gymdeithasol gan yr ymatebydd.

degwch a chynwysoldeb, ond hefyd, lle y gallai bylchau o ran dealltwriaeth neu arfer fod yn bodoli. Trwy fabwysiadu'r dull hwn, roedd yr ymchwil yn ceisio adnabod meysydd lle y byddai gofyn cael cymorth ychwanegol neu eglurhad efallai er mwyn cryfhau capasiti ysgolion i ddiwallu anghenion pob dysgwr mewn ffordd effeithiol. Cymrwyd gofal wrth gyflwyno'r canfyddiadau, yn enwedig wrth ymhelaethu ar gydberthnasoedd posibl rhwng Cwricwlwm i Gymru a thegwch a chynwysoldeb, er mwyn lleihau tuedd ddeongliadol gymaint ag y bo modd, ac osgoi camddehongli cyffredinrwydd arferion penodol.

## Dadansoddi

2.14. Wrth ddadansoddi'r data a sicrhawyd yn yr astudiaeth ansoddol hon, defnyddiwyd gweithgarwch dadansoddi cynnwys thematig, gan fanteisio ar broses chwe cham Braun a Clarke (Braun a Clarke, 2022):

- ymgyfarwyddo â'r data; darllen pob trawsgrifiad o'r trafodaethau er mwyn cael dealltwriaeth glir o'r cynnwys a drafodwyd
- creu codau cychwynnol er mwyn adnabod data nodedig; creu ac adolygu'r codau mewn perthynas â'r meysydd archwiliol a archwiliwyd yn ystod y trafodaethau
- chwilio am themâu; roedd trefnu'r codau hyn yn grwpiau ar sail elfennau cyffredin wedi galluogi i themâu gael eu nodi
- adolygu themâu; mireinio'r themâu hyn er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r data yn fanwl a'u bod yn wahanol i'w gilydd
- diffinio ac enwi themâu; diffinio'r hyn y mae pob thema yn ei gynrychioli yn glir, a neilltuo enwau cryno iddynt sy'n crisialu eu hanfod
- llunio'r adroddiad; cyflwyno'r themâu mewn naratif cydlynol sy'n rhoi sylw i'r cwestiynau ymchwil

2.15. Dadansoddwyd gwerth dros 15 awr o recordiadau sain o sgyrsiau, ynghyd â nodiadau maes dwy drafodaeth bellach na wnaethpwyd recordiad sain ohonynt. Nod y gwaith dadansoddi data oedd cynnig dirnadaeth fanwl a nodi patrymau a themâu yn hytrach na chanfyddiadau cyffredinol sy'n disgrifio arferion ar draws ysgolion.

2.16. Gan ddadansoddi'r cynnwys mewn ffordd thematig, nododd y tîm ymchwil bum thema a ddaeth i'r amlwg. Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu'n fwy manwl y ffordd y caiff materion sy'n gysylltiedig â thegwch a chynwysoldeb eu deall a'u gweithredu fel rhan o Gwricwlwm i Gymru. Er bod y meysydd archwilio (a amlinellwyd ym Mhennod 1) yn cynnig cyfeiriad defnyddiol er mwyn cynllunio'r canllawiau sgwrs yn ymarferol, roedd y themâu a ddaeth i'r amlwg wedi cynnig sail fwy dilys a chadarn er mwyn dadansoddi ac adrodd, gan osgoi ailadrodd, ac adrodd a allai fod yn dameidiog lle'r oedd ymatebwyr wedi rhoi sylw rhannol i feysydd archwilio, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi cael eu holi fel cwestiynau uniongyrchol yn ystod trafodaethau.

## Nodyn am gyflwyno canfyddiadau

2.17. Mae'r canfyddiadau yn yr astudiaeth hon yn adlewyrchu'r iaith a'r arferion a adroddwyd gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn ystod trafodaethau. Efallai nad yw'r derminoleg a ddefnyddiwyd a'r disgrifiadau arfer wastad yn cyd-fynd ag iaith a gofynion Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Pan fydd hyn yn digwydd, nid yw'r awduron wedi gwneud sylwadau am ddilysrwydd yr arfer a gaiff ei ddisgrifio. Mae'r awduron yn teimlo ei bod yn bwysig a'i bod yn addysgiadol cynrychioli'r canfyddiadau mewn ffordd ddilys – ac adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir gan ymarferwyr. Ar adegau, mae'r awduron wedi cynnwys troednodiadau er mwyn cyfeirio'r darllenydd at wybodaeth neu ganllawiau perthnasol y bwriedir iddynt gynnig gwybodaeth gyd-destunol sy'n ymwneud â phwyntiau penodol a godir yn y bennod canfyddiadau.

## Cyfyngiadau

2.18. Roedd yr ymchwil ansoddol hwn yn archwilio sut y mae ysgolion yn gweithredu Cwricwlwm i Gymru mewn ffyrdd sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Roedd yr astudiaeth yn cynnig amrediad o ddirnadaeth werthfawr ond roedd hefyd yn cyflwyno sawl cyfyngiad.

2.19. O ganlyniad i gyfyngiadau amser, hyd cyfartalog y cyfarfodydd oedd 60 munud, a oedd yn gosod cyfyngiad o ran y dyfnder y byddai modd trafod meysydd archwiliol. O ganlyniad, ceir manylion, yn ogystal â meysydd o ddiddordeb penodol i lunwyr

polisi, nad yw'r data yn eu datgelu. Yn ychwanegol i ymchwil gyda 10 ysgol, rhagwelwyd y byddai gwaith ymchwil yn cael ei wneud gyda thri chlwstwr o ysgolion. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfyngiadau amser ac anawsterau wrth ymgysylltu ag ysgolion clwstwr, ni chynhaliwyd y trafodaethau hyn.

2.20. Er bod cyfansoddiad y sampl yn amrywiol ac yn cynnig safbwyntiau amrywiol, roedd yn fach ac yn hunanddewisol, felly nid yw'r canfyddiadau yn rhai y mae modd eu cyffredinoli. Yn arbennig, efallai nad yw'r anghenion a'r blaenoriaethau unigryw mewn lleoliadau arbenigol yn cynrychioli profiadau lleoliadau tebyg eraill, yn enwedig gan bod data wedi cael ei gasglu gan un ysgol arbennig ac un UCD. Nid diben gwaith ymchwil ansoddol yw sicrhau cynrychiolaeth lawn, ond caniatáu i ystod eang o faterion gael eu nodi, a chynnal trafodaeth fanylach. Fodd bynnag, nid yw'r sampl yn ein galluogi i adrodd am arwyddocâd ystadegol y canfyddiadau neu gyffredinoli'r canlyniadau i boblogaeth ysgolion a lleoliadau. Mae'r adroddiad yn nodi cyffredinrwydd pwyntiau a fynegwyd er mwyn cynnig syniad o ba mor eang yr adroddwyd yr oedd safbwyntiau ac arferion, gan ddefnyddio meintiolwyr fel 'nifer' neu 'rhai, pan fo hynny'n briodol'.

2.21. Roedd y trafodaethau a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn yn cynnig ciplun o'r sefyllfa ar adeg benodol, gan gyfyngu ar y gallu i archwilio 'taith' Cwricwlwm i Gymru ysgolion a'u cynnydd gydag amser. Er bod ysgolion yn aml yn disgrifio eu teithiau wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru, nid oedd y data a gasglwyd yn caniatáu gwerthusiad o'r newidiadau yn ymarferol. Yn ogystal, roedd rhai ysgolion wedi cyfeirio at heriau yn ymwneud ag amser yn benodol, megis recriwtio staff, neu'r ffaith eu bod yn gorfod rhagweld heriau yn y dyfodol, megis newidiadau i'r cyllid ar gyfer gwasanaeth penodol. Gallai'r ffactorau amserol hyn fod wedi dylanwadu ar bersbectifau uwch arweinwyr ac ymarferwyr am bynciau a thestunau cysylltiedig mewn ffyrdd yr oeddent y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn i roi sylw iddynt.

2.22. Roedd yr amcanion ar gyfer yr astudiaeth yn cynnwys deall sut yr oedd ysgolion yn gwireddu Cwricwlwm i Gymru er mwyn cynorthwyo dysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys dysgwyr eFSM, fel y trafodwyd uchod yn 1.17. Er mwyn rhoi sylw i hyn, roedd y cwestiynau trafod yn gwneud cyfeiriad penodol at y grwpiau hyn, ac mewn nifer fach o achosion, gofynnwyd cwestiynau treiddgar pellach wrth gasglu data. Cyn casglu data, rhoddwyd gwybodaeth i gyfranogwyr a oedd yn cynnwys cyfeiriad penodol at y ffordd y mae ysgolion yn cynorthwyo dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a rhwystrau eraill, a'r rhai sydd â

nodweddion gwarchodedig. Yn ystod y broses o gasglu data, fodd bynnag, roedd y cyfeiriadau uniongyrchol a wnaethpwyd at ddysgwyr eFSM gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn fach iawn, a dim ond ambell i gyfeiriad a wnaethpwyd at ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig. Er y gallai treiddio pellach fod wedi cynnig dirnadaeth ychwanegol o'r cymorth ar gyfer y grwpiau hyn, roedd y tîm ymchwil yn cael eu cyfyngu gan yr amser a oedd ar gael ym mhob trafodaeth ac roeddent hefyd yn ceisio lleihau risg tuedd dymunoldeb cymdeithasol gymaint ag y bo modd, lle y gallai cyfranogwyr fod wedi tueddu i gynnig ymatebion yr oeddent yn teimlo eu bod yn ddisgwyliedig neu'n cyd-fynd â normau polisi.

2.23. Roedd her arall yn ymwneud â'r ffaith bod tegwch a chynwysoldeb mewn ysgolion yn gysylltiedig ag ystod eang o bolisïau a chanllawiau statudol ac anstatudol ehangach (gweler 1.10-1.12), yn hytrach na bod yn gysylltiedig â Chwricwlwm i Gymru yn benodol.[11] Yn aml yn ystod trafodaethau, nid oedd persbectifau ymarferwyr yn adlewyrchu a oedd y rhesymeg neu'r penderfyniadau a wneir ynghylch arferion yn seiliedig ar y canllawiau a'r polisi ehangach hwn, neu a oedd yn deillio o'u gwaith ar y cwricwlwm.

[11] Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn nodi "cwricwlwm yr ysgol yw popeth mae dysgwyr yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben. Mae'n fwy na'r hyn rydyn ni'n ei addysgu yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sut rydyn ni'n ei addysgu ac, yn allweddol, pam rydyn ni'n ei addysgu". Cwricwlwm i Gymru: ymlaen â'r daith (Llywodraeth Cymru, 2024e)

# 3. Canfyddiadau

3.1. Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r astudiaeth ansoddol, a oedd yn archwilio sut yr oedd ysgolion yn gweithredu Cwricwlwm i Gymru er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Y ddau gwestiwn ymchwil a archwiliwyd oedd:

- Sut mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gweithredu yn ymarferol er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb?
- Sut mae lleoliadau ac ymarferwyr yn cael eu cefnogi i weithredu Cwricwlwm i Gymru mewn ffordd sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb?

3.2. Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar drafodaethau gydag uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn 10 ysgol. Er yr holwyd cwestiynau i gyfranogwyr yr oeddent yn ymwneud â chwech maes archwilio (gweler 1.17 ac Atodiad B), mae'r canfyddiadau wedi'u strwythuro ar sail y themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod trafodaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cynrychioli'r arfer a'r persbectifau a ddisgrifiwyd gan ymarferwyr eu hunain.

3.3. Mae'n bwysig nodi nad oedd yr ymchwilwyr wedi ffurfio tybiaethau am y ffordd y byddai Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddehongli gan ysgolion[12] neu sut y byddai tegwch a chynwysoldeb yn cael eu diffinio a'u cysyniadoli gan ymarferwyr. Roedd archwilio gwahanol ddehongliadau o degwch a chynwysoldeb y tu hwnt i gwmpas y gwaith ymchwil hwn. Hysbyswyd cyfranogwyr, fodd bynnag, o'r ffaith bod yr ymchwil yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng Cwricwlwm i Gymru a thegwch a chynwysoldeb, ac fe'u hanogwyd i wneud sylwadau am y cysylltiadau rhwng y ddau wrth rannu safbwyntiau a gwybodaeth am arferion yn eu hysgolion.

3.4. Rhannwyd y bennod yn bum adran thematig, y mae pob un ohonynt yn adlewyrchu canfyddiadau allweddol o'r trafodaethau:

- Adran 1: Newidiadau i brofiadau dysgu dysgwyr trwy Gwricwlwm i Gymru. Mae'r adran hon yn archwilio sut yr oedd ysgolion wedi dirnad newidiadau ym mhrofiadau dysgwyr sy'n cyd-fynd â nodau tegwch a chynwysoldeb.

[12] Ym mhenodau Canfyddiadau a Chasgliadau yr adroddiad hwn, defnyddir y termau 'ysgolion' a 'chyfranogwyr' i gyflwyno canfyddiadau sy'n adlewyrchu lleisiau cyfunol yr holl rai a oedd wedi cymryd rhan mewn trafodaethau, gan gynnwys uwch arweinwyr, ymarferwyr a staff cymorth.

- Adran 2: Adolygu dysgu a phrofiadau cwricwlwm. Mae'r adran hon yn archwilio dulliau ysgolion a lleoliadau ar gyfer cynllunio cwricwlwm, dysgu, ac addysgu er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb yn well.
- Adran 3: Adnabod anghenion unigol a chynnig cymorth priodol. Mae'r adran hon yn trafod sut yr oedd ysgolion wedi nodi ac ymateb i anghenion dysgwyr unigol, yn ogystal â disgrifio pryderon ymarferwyr am gynaliadwyedd yr arferion hyn.
- Adran 4: Capasiti system i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Mae'r adran hon yn amlygu pwysau sy'n ymwneud ag amser yr oedd ymarferwyr wedi'i brofi a sut yr oedd ysgolion yn ystyried bod hyn yn hanfodol er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb y cwricwlwm.
- Adran 5: Amrywioldeb arfer. Mae'r adran hon yn ystyried sut yr oedd tybiaethau ymarferwyr o anghysondeb o fewn ysgolion wedi effeithio ar eu hyder mewn newidiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, gan godi pryderon am effaith amrywiadau ar draws y sector o ran y cynnydd tuag at degwch a chynwysoldeb.

3.5. Mae'r adrannau hyn yn adlewyrchu'r arferion a'r persbectifau amrywiol a rannwyd yn ystod trafodaethau, fel y nodwyd ym Mhennod 2. Er bod rhai adrannau yn rhoi sylw uniongyrchol i'r berthynas rhwng Cwricwlwm i Gymru a thegwch a chynwysoldeb, mae eraill yn adlewyrchu heriau a chyfleoedd ehangach a godwyd gan gyfranogwyr. Mae gweddill y bennod hon yn ymhelaethu ar y themâu hyn, gan gynnig tystiolaeth ategol a nodi amrywiadau o ran persbectifau ar draws y mathau o ysgolion sy'n cael eu cynnwys yn y sampl.

# Adran 1: Newidiadau i brofiadau dysgu dysgwyr trwy Gwricwlwm i Gymru

**Crynodeb o Adran 1**

Adroddodd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod yn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb trwy gyfrwng amrediad o strategaethau ac arferion ar draws yr ysgol, a gyflwynwyd i gynorthwyo wrth wireddu Cwricwlwm i Gymru.

**Mwy o ffocws ar degwch a chynwysoldeb**

Adroddodd y rhan fwyaf o ysgolion bod Cwricwlwm i Gymru wedi arwain at fwy o ffocws ar degwch a chynwysoldeb i bob dysgwr, ac yn arbennig ar gyfer dysgwyr ADY a dysgwyr mwy abl a thalentog (MAT), yn ogystal â'r rhai sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (eFSM). Er bod rhai o'r newidiadau hyn wedi cychwyn cyn trefniadau Cwricwlwm i Gymru efallai, roeddent yn teimlo bod Cwricwlwm i Gymru wedi cyflymu'r datblygiadau hyn neu ei fod wedi cyd-fynd â nhw.

Nododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr o bob ysgol bod Fframwaith Cwricwlwm i Gymru wedi cynnig cyfle iddynt ddatblygu cwricwlwm wedi'i deilwra i anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau.

**Datblygu addysgegau i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb**

Adroddodd uwch arweinwyr yn gyson am fwy o ffocws ar adnabod anghenion dysgwyr ac addasu dulliau er mwyn rhoi sylw i'r rhain mewn ffyrdd mwy cynhwysol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ffocws ar gymorth ac addysgeg wahaniaethol wrth ymateb i anghenion dysgwyr sydd â nodweddion penodol.
- Newidiadau i addysgeg er mwyn cynorthwyo mwy o degwch o ran y ffordd y mae dysgwyr yn profi'r cwricwlwm. Roedd hyn cynnwys cymorth wedi'i dargedu ynghylch dulliau astudio, ac adborth gwell gan ddysgwyr er mwyn helpu dysgwyr i ddeall yn well y sgiliau a'r wybodaeth yr oedd eu hangen arnynt er mwyn sicrhau cynnydd. Cyfeiriodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr at newidiadau i arfer yn y dosbarth, gan gynnwys mwy o gymorth un-i-un a gwaith gyda grwpiau llai er mwyn cynorthwyo cynnydd dysgwyr.
- Yn ystod trafodaethau, dim ond cyfeiriadau cyfyngedig a wnaethpwyd gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr at ddysgwyr eFSM a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Nododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr, fodd bynnag, eu bod yn

bodloni anghenion dysgwyr eFSM a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig trwy ganolbwyntio ar fodloni anghenion unigol pob dysgwr.

- Yn gyffredinol, roedd y data yn dynodi symud i ffwrdd o'r arfer o osod dysgwyr mewn grwpiau ar sail gallu, fodd bynnag, adroddodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr am lwyddiant a phrofiadau cyferbyniol mewn perthynas â hyn.

**Cynnydd dysgwyr ac asesu dysgwyr**

Adroddodd y rhan fwyaf o ysgolion bod Cwricwlwm i Gymru wedi cyfrannu at newidiadau o ran y ffordd y maent yn asesu cynnydd dysgwyr, gan gynnwys hwb o'r newydd i adnabod a chynorthwyo anghenion unigol. Roedd hyn yn cynnwys gwneud mwy o ddefnydd o asesiadau parhaus ac mewn rhai achosion, defnyddio proffiliau un tudalen i gyfrannu at waith cynllunio. Nododd nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr bod hyn yn galluogi dull mwy unigoledig, gan adlewyrchu mannau cychwyn a chynnydd dysgwyr mewn perthynas â meysydd penodol o'r cwricwlwm.

Mewn rhai ysgolion, roedd cyflwyno camau cynnydd yn dynodi newid o ddefnyddio nodau cyrhaeddiad yn seiliedig ar oedran, tuag at arfer sy'n briodol ar lefel ddatblygiadol ac addysgegol.

Er bod rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr o'r farn bod y camau cynnydd yn ddefnyddiol, roedd eraill yn beirniadu eu 'haneglurder' tybiedig, gan nodi bod y disgrifiadau dysgu dan bob cam yn anodd i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr eu deall.

Nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr bod newidiadau a gyflwynwyd dan drefniadau'r cwricwlwm newydd wedi arwain at fwy o ddefnydd o hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid hefyd, gan feithrin mwy o gyfrifoldeb ac annibyniaeth ymhlith dysgwyr.

## Mwy o ffocws ar degwch a chynwysoldeb

3.6. Adroddodd y rhan fwyaf o ysgolion bod Cwricwlwm i Gymru wedi arwain at fwy o ffocws ar degwch a chynwysoldeb i bob dysgwr, ac yn arbennig i ddysgwyr sydd ag ADY, dysgwyr mwy abl a thalentog (MAT), a dysgwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (eFSM). Er y gallai rhai o'r newidiadau hyn fod wedi cychwyn cyn dyfodiad Cwricwlwm i Gymru, roeddent yn teimlo bod Cwricwlwm i Gymru wedi cyflymu neu gyd-fynd â'r datblygiadau hyn.

3.7. Nododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr ar draws yr holl ysgolion bod Fframwaith Cwricwlwm i Gymru wedi cynnig y cyfle iddynt ddatblygu cwricwlwm wedi'i deilwra i

anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau. Er eu bod wedi cael eu cymell yn ystod trafodaethau i nodi sut yr oedd gweithredu'r cwricwlwm yn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr, nifer gymharol fach o enghreifftiau a roddwyd gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr o'r ffordd y mae dulliau yn cael eu hanelu'n benodol at grwpiau penodol o ddysgwyr. Yn hytrach, nododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod yn credu, trwy ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion unigol pob dysgwr, eu bod yn roi sylw i anghenion dysgwyr eFSM a'r rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig. Wedi dweud hyn, mynegwyd y farn ganddynt eu bod yn credu bod dull wedi'i deilwra yn fwy tuag at ddatblygu a gwireddu'r cwricwlwm yn fwy effeithiol wrth ymgysylltu dysgwyr o gefndiroedd sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

> "Rydym yn ymwybodol iawn [o'r] amddifadedd yn [yr ardal]. Wrth i ni ddatblygu [ein cwricwlwm], rydym wedi adlewyrchu anghenion y plant, gan sicrhau tegwch ar draws y cyfan." (Ymarferydd, Ysgol Gynradd)

> "[Mae ein datganiad o genhadaeth] yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn yr ydym yn dymuno ei gyflawni ar gyfer [yr ardal hon]. Dyna sut yr ydym yn cyfeirio at ein cwricwlwm, a chredwn ei fod yn rhywbeth a fydd yn gweithio i ni. Mae hwn yn gyfle i ymarferwyr addysgu gynllunio rhywbeth sy'n berthnasol ac sy'n siarad â'n cymunedau." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.8. Roedd ysgolion eraill wedi nodi bod ffocws ar hyrwyddo tegwch trwy gyfrwng 'polisi gwisg ysgol llym' er mwyn sicrhau "nad oes unrhyw stigma", oherwydd y gwelwyd bod rhai dysgwyr wedi bod yn gwisgo dillad gan gynllunwyr. Roedd ysgol arall wedi penodi "hyrwyddwyr tegwch" ymhlith y staff, ac roedd ganddynt gylch gwaith penodol i gynorthwyo a goruchwylio materion tegwch a chynwysoldeb. Roedd y rolau hyn yn ymwneud â hyrwyddo ymgysylltu a chynrychiolaeth ymhlith dysgwyr o bob cefndir. Er enghraifft, roeddent yn sicrhau bod dysgwyr eFSM a dysgwyr sydd ag ADY yn cael eu cynrychioli yn Senedd yr ysgol (cyngor ysgol).

## Datblygu addysgegau er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb

3.9. Adroddodd ysgolion yn gyson eu bod yn defnyddio dulliau dysgu amrywiol er mwyn ymateb i anghenion amrywiol dysgwyr ac er mwyn sicrhau mynediad tecach i'r cwricwlwm. Roedd enghreifftiau o ddulliau a gynlluniwyd i gynorthwyo'r dysgwyr hyn, yn ychwanegol i'r cwricwlwm y mae gan bob un ohonynt yr hawl i'w gael, yn cynnwys sesiynau ynghylch dulliau astudio effeithiol, ymyriadau ymddygiad a

mecanweithiau adborth er mwyn meithrin gwydnwch. Roedd y strategaethau hyn yn caniatáu i ymarferwyr gyflwyno newidiadau i addysgeg a thargedu cymorth ar gyfer grwpiau o ddysgwyr y mae gofyn iddynt gael cymorth gwahaniaethol o fewn addysgu arferol yn yr ystafell ddosbarth.

> "Mae ein gwaith gyda [dysgwyr] difreintiedig, gyda chynwysoldeb a thegwch wir wedi cyfrannu at ein haddysgeg, felly mae ein haddysgeg yn wahanol." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

> "Efallai y byddwn yn gwneud gwers wyddoniaeth gyda chwech o blant yn unig yn ein grŵp, tra bod y gweddill yn gwneud eu gwaith dysgu eu hunain, ac rydw i'n credu eu bod yn cael [...] mwy o'r ffocws un-i-un hwnnw gan athro wedyn, sy'n... eu helpu i feithrin y sgiliau hynny." (Ymarferydd, Ysgol Gynradd)

3.10. Nododd uwch arweinwyr o'r ysgol arbennig a'r UCD bod Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd â'r dulliau yr oeddent wedi eu datblygu cyn ei weithrediad, gan gynnwys mabwysiadu dulliau pwrpasol ac wedi'u teilwra tuag at ddysgu ac addysgu. Adleisiwyd y pwynt hwn gan un uwch arweinydd mewn ysgol gynradd, gan danlinellu pwysigrwydd hyblygrwydd ac ymateb i anghenion unigol dysgwyr.

> "Mae'n sicrhau bod cymorth yn amlweddog [...] gallai fod plentyn y mae angen math penodol o gymorth arnynt a sicrhau bod yr hyblygrwydd hwnnw wastad yno. Rydych chi wir yn cynnig y cyfle i blant ffynnu mewn ffyrdd sy'n naturiol iddynt." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.11. Amlinellodd uwch arweinydd uwchradd bwysigrwydd sicrhau bod gwahaniaethu yn ffocws craidd hefyd, gan gydnabod yr angen i fabwysiadu dulliau sy'n cynnwys lefelau her, ehangder a dyfnder priodol ar gyfer pob dysgwr.

> "Eleni, rydym yn ystyried sut yr ydym yn herio dysgwyr mewn ffordd briodol ac yn gwahaniaethu – felly mae hwn yn ffocws i ni ac mae'n adlewyrchu ein strategaeth cwricwlwm fel ysgol. Mae gwahaniaethu a herio yn rhywbeth allweddol i ni." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.12. Roedd uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cytuno bod hyrwyddo gwydnwch ac annibyniaeth dysgwyr yn rhan ganolog o gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Roeddent yn pwysleisio helpu dysgwyr i ddeall y wybodaeth a'r sgiliau yr oedd angen iddynt eu datblygu er mwyn sicrhau cynnydd. Adroddwyd bod hyn yn annog dysgwyr i "ystyried lle y maent o ran medr penodol" a "dewis lefel yr her" wrth gwblhau tasgau. Nododd uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd bod yr ysgol yn cynorthwyo "annibyniaeth fel dysgwyr ond hefyd, gwydnwch emosiynol" ac ystyriwyd bod hyrwyddo cyfrifoldeb a gwydnwch yn

arbennig o werthfawr ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu heriau neu anfantais. Mae'r arferion hyn yn adlewyrchu sgiliau cyfannol Cwricwlwm i Gymru gan gynnwys meddwl beirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol a chynllunio a threfnu.

3.13. Thema a oedd yn codi dro ar ôl tro ac a adroddwyd gan ysgolion oedd y ffordd yr oedd gweithredu Cwricwlwm i Gymru wedi arwain at gyflwyno neu dreialu addysgu gallu cymysg. Pwysleisiodd uwch arweinwyr mewn sawl ysgol werth grwpiau gallu cymysg wrth feithrin amgylchedd dysgu mwy cynhwysol. Nododd un uwch arweinydd o ysgol gynradd bod y dull hwn wedi helpu i wneud gwahaniaethau rhwng dysgwyr 'ychydig yn fwy anweledig' gan hyrwyddo tegwch a chynwysoldeb trwy leihau cymariaethau amlwg.

> "Gan bod ein dosbarthiadau yn rhai gallu cymysg nawr, sy'n sicrhau bod gennym degwch i bawb...ni fyddwch yn cael plentyn yn eistedd yno yn meddwl, wel, nid ydw i yn y grŵp uchaf." (Ymarferydd, Ysgol Gynradd)

3.14. Amlygodd uwch arweinydd arall mewn ysgol uwchradd sut yr oedd athrawon yn defnyddio gwahaniaethu wrth gynllunio gwersi er mwyn cael effaith gadarnhaol mewn ystafelloedd dosbarth gallu cymysg a ffurfiwyd yn ddiweddar.

> "Mae gennym grwpiau gwahanol...mae un o'r grwpiau hynny yn rhydd i fynd i archwilio, mae un yn annibynnol, mae un yn canolbwyntio ar yr athro. Gallwn newid ein gweithgareddau fel nad yw'r plant mor ymwybodol pa lefel y maent yn gweithio arni." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.15. Fodd bynnag, nid oedd profiadau ysgolion o grwpiau gallu cymysg wedi bod yn gadarnhaol i gyd. Roedd un ysgol uwchradd wedi diddymu'r polisi ar ôl ymgynghori gyda rhieni/gofalwyr, yr oedd yn well ganddynt weld grwpiau gallu. Adroddodd uwch arweinydd yn yr ysgol uwchradd hon bod rhieni dysgwyr 'llai abl' wedi mynegi pryderon ynghylch a oedd cymorth yn ei le ar gyfer eu plant nhw mewn lleoliadau gallu cymysg.

> "Ymgynghorom â rhieni hefyd, a'r ymateb a gawsom ran amlaf o lawer, oedd eu bod yn dymuno cael grwpiau gallu. Ac roedd hi'n peri syndod gweld bod y farn [hon] yn arbennig o gref ar gyfer myfyrwyr llai abl. Mae [rhieni] yn dymuno iddynt wybod...ble y maent a theimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo mewn ffordd ddigonol." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.16. Wrth drafod sut y trefnwyd addysgu a dysgu er mwyn cynorthwyo dysgwyr MAT, nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod wedi symud i ffwrdd o

ddarpariaeth wedi'i thargedu. Ystyriwyd bod hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth Cwricwlwm i Gymru am gwricwlwm sy'n gynhwysol i bob dysgwr trwy ganolbwyntio ar dasgau penagored a disgwyliadau uchel i bawb.

> "Gan ein bod yn holistaidd iawn, rydym yn gweld y plentyn fel y plentyn, nid ydym yn tueddu i'w labelu fel rhai mwy abl a thalentog yn yr [ysgol]. Nawr, mae ein haddysgeg a'n harfer yn fwy 'addysgu i'r brig a sgaffaldio i fyny'...mae hyn wir yn cynnig budd iddynt gan bod athrawon yn gallu eu hymestyn yn fwy." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.17. Fodd bynnag, er gwaethaf y gofynion a nodwyd yng nghanllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru i gynllunio cwricwlwm sy'n ymateb i anghenion ac amgylchiadau penodol pob dysgwr, nodwyd heriau gan rai uwch arweinwyr. Yn arbennig, amlygodd uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd yr her o sicrhau cydbwysedd rhwng dyheadau i sicrhau tegwch dan Gwricwlwm i Gymru, a chyfyngiadau ymarferol amser ac adnoddau cyfyngedig. Roedd sawl cyfranogydd yn teimlo, wrth geisio bodloni anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr, ei bod hi'n anodd sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael cymorth priodol. Mae'r dyfyniadau isod yn datgelu pryderon am y perygl y gallai anghenion rhai dysgwyr gael eu hanwybyddu fel canlyniad anfwriadol canolbwyntio ar grwpiau sydd ag anghenion dysgu penodol.

> "Weithiau, mae sicrhau y bodlonir anghenion yn rhywbeth sydd er anfantais i'r disgyblion sydd ar y brig, gan bod cryn dipyn o amser, egni ac adnoddau yn cael eu cyfeirio at ein disgyblion ADY, ac efallai nad oes cymaint yn cael ei gyfeirio tuag at y rhai MAT." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)
>
> "Weithiau, os nodir eu bod yn ddisgyblion mwy abl a thalentog, cynigir cyfleoedd iddynt... ond yna, beth am y band oddi tanynt? Maen nhw yn blant yr anghofir amdanynt i ryw raddau." (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

## Cynnydd dysgwyr ac asesu dysgwyr

3.18. Adroddodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn aml bod Cwricwlwm i Gymru wedi cynnig ysgogiad o'r newydd i adnabod a chynorthwyo anghenion dysgwyr unigol. Roedd nifer o ysgolion yn rhoi pwyslais ar asesiadau cychwynnol a pharhaus, a monitro cynnydd dysgwyr yn barhaus, gan ystyried bod y rhain yn hanfodol er mwyn cael dull mwy unigoledig. Nodont bwysigrwydd penodol rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o'u mannau cychwyn eu hunain a'u cynnydd.

> “Mae’r cwricwlwm yn caniatáu i ni fod yn ymwybodol o sefyllfaoedd plant. Credaf bod gennym y rhyddid nawr, rydym yn parhau i ddweud ‘cwricwlwm ein hysgol ni ydyw, nid un unrhyw un arall’.” (Ymarferydd, Ysgol Gynradd)

> “Mae’r cwricwlwm newydd, y ffordd yr ydym wedi ei wneud, yn helpu’r plentyn oherwydd y gallwn ystyried pa brofion yr ydym yn dymuno eu defnyddio nawr. Ac mae’r canlyniadau a’r effaith [yn] well – mae’n fwy diagnostig.” (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

> “Mae gwaith cynllunio ein hathrawon yn seiliedig ar asesu manwl sy’n rhoi dysgwyr wrth wraidd y broses mor gynnar ag y bo modd. Felly rydym yn siarad am ddysgwyr ym Mlynyddoedd 1 a 2 yn ymwybodol o’u targedau personol ac yn ymwybodol o’r camau nesaf y mae angen iddynt eu cymryd i sicrhau cynnydd gyda’u dysgu.” (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.19. Disgrifiodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn bron pob ysgol sut y caiff gwybodaeth fanwl am ddysgwyr unigol ei choladu a’i defnyddio i gynllunio cymorth priodol. Roedd hyn yn cynnwys data o brofion diagnostig, yn ogystal â gwybodaeth o ffynonellau eraill sy’n ymwneud ag ADY, Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL), cymhwystra eFSM, neu amgylchiadau eraill y gallent effeithio ar gynnydd. Roedd sawl ysgol wedi mabwysiadu offerynnau megis ‘proffiliau un tudalen’ er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn deall manylion allweddol am bob dysgwr. Roedd uwch arweinwyr yn barnu bod y dulliau hyn wedi bod yn arbennig o fuddiol wrth gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb, gan sicrhau bod dysgwyr o bob cefndir neu gydag anghenion amrywiol yn gallu cael eu cynorthwyo mewn ffordd fwy effeithiol.

> “Yn ogystal â statws eFSM, mae athrawon [yn cael mynediad i] broffil un tudalen y gallai gynnwys gwybodaeth berthnasol a rennir gan y disgybl, y rhiant neu’r ysgol, y gall y staff ei gweld a’i deall ychydig yn fwy o ran adnabod y disgybl sy’n eistedd o’u blaenau.” (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.20. Mewn rhai ysgolion uwchradd, roedd ymarferwyr wedi codi materion am y cynnydd a gaiff ei sicrhau gan ddysgwyr erbyn diwedd Blwyddyn 6, gan nodi nad oeddent yn teimlo bod nifer o ddysgwyr yn barod ar gyfer amgylchedd dysgu a dysgu strwythuredig yr ysgol uwchradd. Mynegwyd pryder gan yr ymarferwyr uwchradd hyn nad yw dysgwyr sy’n cyrraedd o’r ysgol gynradd wastad yn barod ar gyfer y disgwyliadau mewn lleoliadau uwchradd – o ran ymddygiad a sgiliau rhifedd a llythrennedd sylfaenol.

> “Mae’r plant hyn yn dod o [ysgolion] cynradd, ac rydw i wedi gweld hyn yn fwy ac yn fwy dros y blynyddoedd: nid ydynt yn dymuno eistedd i lawr. Nid ydynt yn dymuno cael gwybod mai hon yw y dasg y byddant yn ei gwneud. Maent yn dymuno mynd i grwydro a gwneud beth bynnag y maent yn ei ddymuno. Ac mae hyn yn broblem enfawr yn yr uwchradd.” (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

3.21. Er nad oedd pawb yn rhannu'r safbwyntiau hyn, maent yn adlewyrchu gofidiau am dybiaethau a diwylliannau addysgegol gwahanol rhwng addysg gynradd ac uwchradd. Adroddodd rhai staff uwchradd hefyd eu bod yn dod ar draws dysgwyr yr ystyriwyd bod eu lefelau llythrennedd neu rifedd yn is na'r disgwyl, ac roeddent yn aml yn cyfeirio at brofion sylfaenol neu asesiadau darllen fel tystiolaeth.

> "O ran ceisio rheoli ac ystyried camau cynnydd is nad ydym wedi eu profi o'r blaen efallai, daeth rhai o'n [dysgwyr] Blwyddyn 7 i mewn gydag oedrannau darllen 5.6, sef dechrau'r prawf sylfaenol." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.22. Er nad yw'r persbectifau hyn yn cyd-fynd yn llawn â gweledigaeth Cwricwlwm i Gymru o gynnydd ac addysgeg gynhwysol, maent yn cynnig dirnadaeth o'r ffordd y mae ymarferwyr uwchradd yn delio â realiti ymarferol diwygio'r cwricwlwm ac amrywiaeth dysgwyr wrth y pwynt pontio.

3.23. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi myfyrio hefyd am yr angen i ddadansoddi data ynghylch cynnydd a chyrhaeddiad ymhlith grwpiau penodol o ddysgwyr, megis dysgwyr sydd ag ADY neu eFSM, a sicrhau bod cymorth priodol yn ei le er mwyn ymateb i hyn. Er enghraifft, roedd uwch arweinydd o un ysgol uwchradd wedi myfyrio nad oedd digon wedi cael ei wneud yn flaenorol i archwilio cynnydd ymhlith y grwpiau hyn, ond bod hyn yn rhywbeth y maent yn rhoi sylw iddo nawr o ganlyniad i Gwricwlwm i Gymru.

> "Efallai na wnaethom ddigon i ddehongli'r cynnydd a'r cyrhaeddiad ar draws y grwpiau hynny [ADY ac eFSM] yn fwy cyffredinol, a gweithredu mesurau i'w cynorthwyo. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym wedi dechrau ei wneud nawr." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.24. Cyfeiriodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr at fwy o ffocws ar hunanasesu gan ddysgwyr ac asesu gan gymheiriaid. Adroddont bod arferion hunanasesu yn annog annibyniaeth dysgwyr a chyfrifoldeb dros eu cynnydd eu hunain. Nododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn nifer o ysgolion cynradd bod arferion hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid yn hyrwyddo cyfranogiad cynhwysol, gan gynnig cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio am eu gwaith yn unigol neu mewn grwpiau bychain. Nododd y cyfranogwyr hyn bod hyn yn helpu i greu amgylchedd mwy cynhwysol yn yr ystafell ddosbarth, gan feithrin dealltwriaeth well ymhlith dysgwyr o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith neu fodloni amcanion dysgu.

> "Ceir elfen lle y byddwn yn gofyn iddynt stopio yn ystod y wers ac mewn grwpiau bychain neu fel dosbarth cyfan, gan ofyn iddynt fyfyrio ar y cwestiwn a ydynt yn bodloni'r meini prawf llwyddiant. Cynigir cyfle iddynt ddarllen dros eu gwaith eu hunain neu waith eu cymheiriaid a byddant yn hunanasesu eu gwaith. Felly mae hunanasesu yn rhan o dasgau. Y pwynt allweddol yma yw bod dysgwyr wrth wraidd y broses asesu barhaus... mae'r dysgwyr yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros nodi'r hyn y mae angen ei gynnwys yn eu gwaith nhw, gan ystyried lle y maent hanner ffordd trwy dasg. Felly mae'r marcio a wneir [gan athrawon] yn canolbwyntio yn fwy ar yr hyn y gallant ei wneud fel dysgwyr i symud ymlaen, ac yn llai arnom ni yn beirniadu darn o waith ar ddiwedd tasg fel y byddem wedi ei wneud efallai cyn y diwygiwyd y cwricwlwm." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.25. Nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr, o'r ysgolion cynradd yn bennaf, bod gwahaniaethu tasgau, gyda chymorth camau cynnydd, yn caniatáu i ymarferwyr ganolbwyntio ar ddysgu fesul cam yn hytrach nag asesiadau crynodol.

> "Rydym yn annog dysgwyr i ddangos cyfrifoldeb a chael perchnogaeth o'u gwaith eu hunain. Maent yn ystyried lle y maent o ran medr benodol, a byddant yn dewis lefel yr her y byddant yn ei chwblhau." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

> "Mae plant yn gwneud gwaith hunanasesu lawer yn fwy nawr nag yr oeddent yn arfer ei wneud yn yr hen gwricwlwm... gyda'r asesiadau personoledig hefyd, rydw i'n creu bod hynny'n rhywbeth unigol iddyn nhw, felly mae'n addasu i'w sgiliau." (Ymarferydd, Ysgol Gynradd)

3.26. Amlygodd uwch arweinwyr yn yr ysgolion cynradd hyn sut yr oeddent wedi defnyddio camau cynnydd i dywys y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, gan sicrhau ffocws cytbwys ar ddatblygu sgiliau ac ar wybodaeth a phrofiadau dysgu. Roeddent yn barnu bod y camau cynnydd yn fwy defnyddiol felly fel offeryn er mwyn cynorthwyo cynllunio, yn hytrach na chael eu defnyddio yn ystod trafodaethau gyda dysgwyr neu eu rhieni.

3.27. Mynegwyd safbwyntiau cyferbyniol gan ysgolion ynghylch cyflwyno camau cynnydd. Roedd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd yn barnu eu bod yn cynorthwyo 'dull mwy holistaidd' tuag at gynnydd, a'u bod yn helpu i ganolbwyntio yn fwy ar anghenion dysgwyr, gan hyrwyddo tegwch a chynwysoldeb. Cyfeiriodd y cyfranogwyr hyn at fanteision cael mwy o "ryddid i wahaniaethu, gan ddibynnu ar eich dosbarthiadau, sy'n gallu bodloni anghenion dysgwyr yn well" (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd). Disgrifiodd ymarferydd cynradd arall sut yr oedd y camau cynnydd wedi caniatáu iddynt "sgaffaldio i fyny, felly ceir y lefel her honno yn gyson". Roeddent yn barnu bod hwn yn ddull mwy cynhwysol tuag at addysgu

gan ei fod yn cynnig llwybr i bob dysgwr gaffael sgiliau a gwybodaeth y byddent wedi cael eu hystyried yn briodol ar gyfer y dysgwyr a oedd yn sicrhau cyflawniad uwch yn unig yn flaenorol.

3.28. Ym mhob ysgol, fodd bynnag, gwelwyd ymarferwyr a oedd yn teimlo bod y camau cynnydd yn anodd i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr eu deall. Fe'u hystyriwyd yn '*rhy eiriog'* (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd) neu nid oeddent yn glir i ddysgwyr.

> "Rydw i'n credu ein bod ni wedi cael anhawster yn Saesneg oherwydd [bod y camau cynnydd ar gyfer ein Maes] mor eang. Rydw i'n credu bod gennych chi rywbeth fel 10 [disgrifiad dysgu] ar gyfer ysgrifennu'n gywir yn unig... nid ydynt yn addas ar gyfer y disgyblion o gwbl." (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

3.29. Mewn ysgol arall, cyfeiriodd grŵp o ymarferwyr uwchradd at yr heriau wrth ddefnyddio'r camau cynnydd fel offeryn er mwyn monitro cynnydd a chael y disgyblion i deimlo'n hyderus o "ble yr wyf i, a dyma'r hyn y mae angen i mi ei wneud" (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd). Roedd hyn yn bennaf oherwydd natur annelwig dybiedig rhai o'r disgrifiadau dysgu a oedd yn gysylltiedig â chamau cynnydd.

3.30. Amlygodd yr ysgol arbennig bod nifer o'u dysgwyr yn annhebygol o sicrhau cynnydd y tu hwnt i gam cynnydd 1. Mynegwyd pryderon gan ymarferwyr yn yr ysgol hon eu bod yn aml yn teimlo'n ansicr ynghylch sut i dywys cynnydd dysgwyr cyn cyrraedd y cam hwn.

3.31. Adleisiwyd pryder tebyg gan ymarferwyr mewn rhai ysgolion prif ffrwd (cynradd ac uwchradd), a oedd wedi mynegi rhwystredigaeth am y ffaith nad yw'r camau cynnydd yn cofnodi datblygiad gwybodaeth a sgiliau rhai dysgwyr fesul cam mewn ffordd ddigonol. Barnwyd bod y camosodiad hwn yn rhwystr er mwyn gweithredu dulliau cynhwysol dan Gwricwlwm i Gymru, gan ei fod yn cyfyngu ar allu y cwricwlwm i adlewyrchu a chynorthwyo cynnydd amrywiol pob dysgwr.

3.32. Mae'r adran hon wedi myfyrio ar ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i gwestiynau ynghylch sut yr oedd trefniadau cwricwlwm o fewn Cwricwlwm i Gymru wedi galluogi ysgolion i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb a sut yr oedd wedi hwyluso dulliau dysgu unigoledig ar gyfer dysgwyr o bob gallu. Roedd y canfyddiadau'n amlygu sut yr oedd penderfyniadau ynghylch gweithredu Cwricwlwm i Gymru wedi dylanwadu ar drefnu dysgu sy'n ceisio cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Bydd yr adran ganlynol yn archwilio sut yr oedd newidiadau i

ddysgu ac addysgu dan drefniadau Cwricwlwm i Gymru wedi cael eu teilwra i ymateb i anghenion amrywiol dysgwyr, gan archwilio sut y mae'r addasiadau hyn yn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb yn ymarferol.

# Adran 2: Adolygu dysgu a phrofiadau'r cwricwlwm

**Crynodeb o Adran 2**

Adroddodd pob ysgol eu bod wedi gwneud newidiadau er mwyn cynnwys ac adlewyrchu anghenion dysgwyr yn eu cwricwlwm mewn ffyrdd sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Roedd yr enghreifftiau o newidiadau a ddarparwyd ar draws y sampl ysgolion yn cynnwys:

- Sicrhau bod dysgu ac addysgu yn berthnasol ac o ddiddordeb i ddysgwyr, gan adlewyrchu anghenion dysgwyr wrth gynllunio profiadau dysgu.
- Manteisio ar adborth a safbwyntiau dysgwyr i gyfrannu at weithgarwch datblygu y cwricwlwm, gan adolygu ac addasu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer mathau penodol o ddysgwyr a dosbarthiadau.
- Cynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd sy'n bodloni anghenion amrywiol, ac adroddodd rhai ysgolion bod hyn yn arwain at fuddion o ran ymgysylltu â dysgwyr. Roedd rhai ymarferwyr yn teimlo bod cyswllt rhwng gweithgarwch cynllunio cwricwlwm gwell a lefelau presenoldeb.
- Rhoi pwyslais ar gynorthwyo sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, a chynnig cyfleoedd i ddysgwyr feithrin hyder a gwydnwch. Roedd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn barnu bod hyn yn rhan o ddull holistaidd tuag at gynorthwyo sgiliau a chynnydd dysgwyr.
- Cynorthwyo dyheadau uchel a meithrin sgiliau trwy gyfrwng cyfleoedd dysgu cynhwysol. Roedd hyn yn cynnwys annog cyfranogiad dysgwyr mewn gweithgareddau chwaraeon a'r celfyddydau, annog datblygiad sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau gydol oes megis cyfathrebu, arweinyddiaeth ac empathi, yn ogystal â meithrin sgiliau cyflogadwyedd.
- Canolbwyntio ar bynciau a thestunau sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth a chynwysoldeb yn y cwricwlwm ac mewn gwaith gyda phartneriaid allanol, gan adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gan ysgolion ac ehangu dealltwriaeth.
- Adroddodd nifer o'r ysgolion uwchradd nad ydynt yn siŵr sut i gysoni'r dull mwy holistaidd ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wrth weithredu'r cwricwlwm, gyda'r gofynion sy'n gysylltiedig â chymwysterau TGAU. Gofynnwyd cwestiynau gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd ynghylch sut i ymwreiddio dull sy'n seiliedig ar degwch a chynwysoldeb ar gyfer y cwricwlwm, os yw systemau atebolrwydd yn parhau i flaenoriaethu canlyniadau arholiadau.

## Perthnasedd profiadau dysgu

3.33. Nododd yr holl uwch arweinwyr ac ymarferwyr bod ffocws eu hysgol ar ymateb i anghenion dysgwyr wedi bod yn ystyriaeth fawr wrth gynllunio eu cwricwlwm a chynllunio profiadau dysgu. Roedd hyn yn adlewyrchu ymrwymiad i gynwysoldeb a dull a arweinir gan y dysgwr wrth gynllunio'r cwricwlwm. Roeddent yn credu bod Cwricwlwm i Gymru wedi cryfhau'r ffocws hwn ac amlygont bod hyn wedi peri iddynt gynnwys mwy o ddysgu perthnasol, diddorol, amrywiol a chynhwysol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys yr arfer o gynnwys yr amgylchedd lleol a materion cyfoes mewn gwersi er mwyn ymateb i ddiddordebau dysgwyr ac er mwyn adlewyrchu eu cyd-destun lleol.

> "[Pan] fydd angen iddynt wybod mwy am rywbeth sy'n berthnasol iddyn nhw, rydym wedi dechrau ystyried ein hanes lleol yn fwy. Felly yn hytrach na siarad am hiliaeth, rydym wedi sôn am y terfysgoedd hil yn [yr ardal leol]. Rydw i'n credu bod hyn yn fwy perthnasol iddynt. Felly hwn yw tegwch a chynwysoldeb yn fy marn i." (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

> "Rydym wedi gweld rhai pynciau yn ffynnu – [trwy] gynnwys pethau fel Cynefin, a gwerthfawrogiad o'r ardal leol yn cael ei gynnwys wrth ddarparu'r cwricwlwm, er enghraifft mewn daearyddiaeth." (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

3.34. Esboniodd ymarferwyr mewn bron pob ysgol gynradd ac uwchradd eu bod wedi manteisio ar adborth dysgwyr er mwyn cyfrannu at yr addysgu a'r dysgu, gan adolygu ac addasu deunydd i fod yn addas i ddosbarthiadau a charfannau penodol. Cyfeiriodd ymarferwyr at addasu'r dysgu mewn ffordd sy'n "teimlo'n iawn i'ch dysgwyr ac i'ch dosbarth", gan fanteisio ar eu gwybodaeth o gefndiroedd a diddordebau'r dysgwyr hynny. Cyfeiriodd ymarferwyr at ddefnyddio ddulliau sy'n seiliedig ar ymholi yn gyson hefyd, fel ffordd o integreiddio diddordebau a phrofiadau dysgwyr yn y cwricwlwm yr oeddent yn ei brofi.

> "Dywedont [y dysgwyr] eu bod o'r farn bod rhai themâu yn undonog, heb fod yn ymgysylltu ac yn amherthnasol ar brydiau. Felly, rydym wedi ymateb, ac mae hyn wedi creu ychydig gyffro gydag athrawon a dysgwyr. Bu awgrymiadau am syniadau newydd ar gyfer pynciau a thestunau o ganlyniad uniongyrchol i'r adborth gan ddysgwyr." (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

> "Mae cyflwyno Cwricwlwm i Gymru wedi ein galluogi i fynd ag [ef] i'r cyfeiriad y mae gan y dysgwyr ddiddordeb ynddo. Rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn rhoi sylw i bynciau a thestunau nawr gydag ymchwiliadau. Felly, byddwn yn gofyn cwestiwn a bydd diddordebau'r plant a'u teimladau am hwnnw a'u

> profiadau personol nhw yn cyfrannu at y cyfeiriad y bydd yr ymchwiliad hwnnw yn ei ddilyn.” (Ymarferydd, Ysgol Gynradd)

3.35. Nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr gysylltiad tybiedig rhwng eu hymdrechion i ddatblygu cwricwlwm mwy perthnasol a diddorol, a lefelau presenoldeb gwell dysgwyr.

> “Ar ôl COVID […] [ychydig] iawn o broblemau a gawsom gyda [phresenoldeb], ac rydw i’n credu bod hynny’n rhannol o ganlyniad i ba mor dda y bu ein gwaith o gynllunio’r cwricwlwm a gwrando ar y plant am yr hyn y maent yn dymuno dysgu amdano, ac maent o’r farn ei fod yn gyffrous iawn.” (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)
>
> “Os allwch chi gael y plant i mewn ac mae ganddynt ddiddordeb ac maent yn dymuno dod i’r ysgol, rydw i’n credu bod gennych chi siawns dda iawn gyda’r cwricwlwm hwn gan bod nifer o wahanol ffasedau iddo ac fe ddylai apelio.” (Ymarferydd, Ysgol Gynradd)

3.36. Yn ystod trafodaethau, soniodd rhai cynrychiolwyr ysgolion am y ffaith eu bod yn cynorthwyo wrth gyflwyno diwygiadau ADY ar yr un pryd ag yr oeddent yn gweithredu Cwricwlwm i Gymru. Roedd rhai yn barnu bod y diwygiadau ADY yn rhywbeth cadarnhaol, gan awgrymu eu bod yn cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru trwy roi mwy o bwyslais ar ddulliau sy’n canolbwyntio ar y dysgwr a chynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Er enghraifft, roedd uwch arweinydd mewn un ysgol gynradd ac ymarferydd mewn un arall wedi disgrifio sut yr oedd alinio strategaethau ADY gyda Chwricwlwm i Gymru yn teimlo fel rhywbeth naturiol gan bod y ddau ddiwygiad yn rhoi blaenoriaeth i’r dysgwr unigol.

> “Rydw i’n credu bod diwygio’r ADY wedi cyd-fynd yn hyfryd, mae wedi creu amseru perffaith gyda Chwricwlwm i Gymru gan ei fod yn ystyried safbwyntiau a dymuniadau a theimladau dysgwyr...felly rydw i’n credu eu bod yn cyd-fynd â’i gilydd yn dda iawn.” (Ymarferydd, Ysgol Gynradd)

3.37. Nid oedd uwch arweinwyr ac ymarferwyr wedi disgrifio’r camau a gymerwyd i sicrhau tegwch o ran llais y dysgwr. Fodd bynnag, pan holwyd am y ddarpariaeth i ddysgwyr sydd ag ADY a dysgwyr MAT, nododd un uwch arweinydd eu bod wedi ystyried diddordebau dysgwyr a cheisio ymateb i’r rhain wrth gynllunio eu cwricwlwm.

> “Rydym yn meddwl yn fwy am yr hyn sy’n briodol i wahanol ddysgwyr yn ein dosbarthiadau. Mae elfen llais y dysgwr yn llawer mwy amlwg pan fyddwn yn cynllunio. Beth bynnag fo eu hanghenion, byddwn yn ceisio darganfod eu

> diddordebau a defnyddio hyn yn ein hystyriaethau.” (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.38. Er bod rhai ymarferwyr wedi amlygu manteision cynnwys diddordebau dysgwyr wrth gynllunio’r cwricwlwm, nodwyd heriau gan rai hefyd. Disgrifiwyd bod addasu’r cwricwlwm i fodloni diddordebau amrywiol wedi cymryd amser. Yn ogystal, mynegwyd pryderon gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr ynghylch bylchau posibl yng ngwybodaeth dysgwyr pe byddai pynciau a thestunau sy’n deillio o ddymuniadau’r dysgwyr yn cael blaenoriaeth dros ffurfiau gwybodaeth a sgiliau traddodiadol, megis llythrennedd a rhifedd.

### Cynorthwyo sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr

3.39. Nododd ymarferwyr ym mhob ysgol bod dull mwy holistaidd tuag at ddatblygiad plant wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch gweithgarwch dysgu ac addysgu. Disgrifiwyd amrediad o sgiliau cymdeithasol ac emosiynol gan ymarferwyr o’r holl ysgolion, sy’n cael mwy o ystyriaeth gan Gwricwlwm i Gymru; er enghraifft, meithrin hyder a gwydnwch dysgwyr.

3.40. Roedd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn ystyried bod y sgiliau hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr sy’n wynebu rhwystrau sy’n ymwneud â statws cymdeithasol-economaidd, ADY, neu sy’n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig, sy’n eu galluogi i ymgysylltu yn llawnach â bywyd ysgol. Roedd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn barnu bod y pwyslais hwn yn bwysig wrth gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb trwy gynnig y sgiliau i ddysgwyr ymgysylltu’n llawn â chyfleoedd addysgol yn yr ysgol ac ystyried datblygiad fel rhywbeth sy’n mynd y tu hwnt i gynnydd academaidd.

> “Onid ydyw’n ymwneud â rhoi sgiliau eraill i blant? Yr hyder i gymryd rhan, yr hyder i siarad.” (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)
>
> “[Mae gennym] sesiynau ychwanegol i gynnig cymorth am ddulliau astudio er mwyn datblygu gwydnwch a’r gallu i ganolbwyntio.” (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

### Cynorthwyo sgiliau a datblygiad ehangach dysgwyr

3.41. Nododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr o bron pob ysgol hefyd bod ffocws Cwricwlwm i Gymru ar sgiliau wedi cynnig cyfleoedd i ddarparu profiadau dysgu cynhwysol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys annog cyfranogiad dysgwyr yn y

celfyddydau ac mewn chwaraeon; hyrwyddo sgiliau bywyd megis cyfathrebu (yn enwedig sgiliau llafar), arweinyddiaeth, ac empathi; a phwysleisio sgiliau cyflogadwyedd sy'n gysylltiedig â chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol y mae'n debygol y byddant ar gael i ddysgwyr sy'n bwriadu gadael addysg pan fyddant yn 16 neu'n 18 oed.

> "Rydym yn mynd â'n [dysgwyr] ar gyrsiau preswyl, a rhai plant a oedd wedi cael anhawster, yn academaidd efallai, byddwn yn mynd â nhw allan a bydd eu sgiliau arwain yn tanio, eu dyfalbarhad, eu penderfyniad. Felly, rydym yn gweld y rhan honno o'u talent." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

> "Y gwahaniaeth yr ydym wedi'i wneud nawr yw pan fyddwn yn cychwyn ar bynciau a thestunau, byddwn yn trafod y gyrfaoedd y gallai'r rhain arwain atynt [...] gan ystyried y mathau o fusnesau sydd gennym yma yn yr ardal yn benodol." (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

## Amrywiaeth a chynwysoldeb

3.42. Soniodd ymarferwyr yn gyson am ymdrechion i sicrhau bod y cwricwlwm a'r addysgeg yn eu hysgolion yn adlewyrchu'r grwpiau cymdeithasol amrywiol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol. Roedd un enghraifft gan ymarferwyr mewn ysgol gynradd yn amlygu sut yr oedd yr hyfforddiant yr oeddent wedi'i gael gan Ddysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol (DARPL) wedi arwain at newidiadau ymarferol yn eu hysgol. Yn dilyn yr hyfforddiant, adolygont yr adnoddau darllen a oedd ar gael ar gyfer dysgwyr, gyda ffocws ar "ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm, ond hefyd ein meddyliau yn ogystal" (Ymarferydd, Ysgol Gynradd). Nodwyd bod hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr o gefndiroedd ethnig yn teimlo mwy o ymdeimlad o berthyn a chynwysoldeb.

3.43. Soniodd ymarferwyr mewn ysgol gynradd arall am y trafodaethau a gawsant ynghylch amrywiaeth a chynwysoldeb, a'r gwahaniaeth yr oeddent yn ei obeithio y byddai hyn yn ei wneud i'r diwylliant a'r ethos yn yr ysgol. Esboniont eu bod yn "ystyried derbyn unigoliaeth mewn cymaint o ffyrdd yn ymarferol trwy gydol y flwyddyn, cynwysoldeb pawb" (Ymarferydd, Ysgol Gynradd).

3.44. Adroddodd uwch arweinydd o'r UCD eu bod wedi addasu eu '*diwrnodau a'u hwythnosau thema'* er mwyn cynnwys pynciau a thestunau yn ymwneud â niwrowahaniaeth, amrywiaeth rhywedd a hunaniaeth LHDTC+. Soniodd sawl ysgol hefyd am y gwaith amrywiaeth a chynwysoldeb yr oeddent wedi'i wneud gyda rhanddeiliaid eraill y tu allan i'w hysgol. Soniodd un ysgol gynradd am y gweithgareddau atal hiliaeth yr oeddent wedi bod yn ymwneud â nhw a sut yr oedd

hyn wedi cael ei gefnogi a'i flaenoriaethu gan eu rhwydwaith clwstwr. Disgrifiont waith i sicrhau bod ymweliadau gwesteion, teithiau a gwyliau yn adlewyrchu amrywiaeth cefndiroedd disgyblion a/neu o fewn y gymuned ehangach.

3.45. Soniodd rhai cyfranogwyr yn benodol am y ffordd yr oedd Cwricwlwm i Gymru wedi cynnig cyfleoedd iddynt gysylltu eu haddysgu gyda themâu amrywiaeth a chynwysoldeb, fel yr adlewyrchir yn y sylw canlynol gan un uwch arweinydd.

> "…nawr o leiaf y mae [y cwricwlwm] yn cyfateb â rhywbeth mwy ffurfiol yr ydym i fod yn ei wneud gyda thegwch. Mae'n rhywbeth yr ydym yn ei addysgu – cydraddoldeb ac amrywiaeth." (Uwch Arweinydd, UCD)

## Cymwysterau ac atebolrwydd

3.46. Nododd rhan fwyaf yr ymarferwyr a'r uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd bod yn rhaid i ysgolion uwchradd baratoi dysgwyr ar gyfer cymwysterau a asesir yn allanol o hyd. Roedd nifer yn teimlo'n ansicr ynghylch sut i sicrhau cydbwysedd rhwng dulliau mwy holistaidd sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, a realiti canlyniadau TGAU[13] a mesurau perfformio ysgolion. Amlygwyd pryderon yn sylwadau uwch arweinwyr ac ymarferwyr ynghylch datgysylltiad rhwng eu profiadau nhw o'r cwricwlwm a'r pwysau o wynebu arholiadau ffurfiol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ADY a dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

> "Y gwahaniaeth rhwng y syniad hyfryd hwn o greu cwricwlwm sy'n berthnasol i'r disgyblion... er mwyn peri iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys, ac yna ceir diffyg cydberthynas... yna ceisio cyfateb y rheiny gyda chymhwyster TGAU." (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)
>
> "Yr hyn sy'n ofid i mi, â bod yn hollol onest, yw fy nysgwyr y gallai fod ganddynt ADY a dysgwyr sy'n byw mewn tlodi truenus. I mi, mae cynnig y profiadau hyn iddynt yn hyfryd ac yn gyffrous, ond nhw yw'r dysgwyr sy'n mynd i gael eu rhoi mewn neuadd arholi am ddwy awr ym Mlwyddyn 11 a bydd disgwyl iddynt gyfleu gwybodaeth yn yr un ffordd ag y bydd y disgybl mwyaf cefnog yn gwneud hynny." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.47. Roedd pryderon o'r fath yn peri i rai ymarferwyr gwestiynu'r ffordd orau o gynnal dull sy'n seiliedig ar degwch a chynwysoldeb os yw systemau atebolrwydd yn parhau i roi blaenoriaeth i ganlyniadau arholiadau. Efallai y bydd Cwricwlwm i Gymru yn rhoi dysgwyr dan anfantais yn anfwriadol os na fydd cymwysterau a mesurau perfformio yn cyd-fynd ag ethos Cwricwlwm i Gymru.

[13] Dim ond cymwysterau TGAU y soniwyd amdanynt gan ymarferwyr mewn perthynas â'r pwynt hwn.

> "Dylai eu gwneud yn fwy cyflawn... ond yn y pen draw, erbyn yr adeg pan fyddant yn gadael yr ysgol, byddant yn cael eu hasesu ar sail y cymwysterau y byddant yn eu sicrhau. Ac rydw i'n credu y byddant dan anfantais." (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

3.48. Trafododd rhai uwch arweinwyr ysgolion uwchradd gymwysterau ac eithrio TGAU. Yn yr achosion hyn, roedd uwch arweinwyr yn cydnabod bod y cymwysterau hyn, yr oeddent yn fwy priodol ar gyfer rhai grwpiau o ddysgwyr, wedi helpu i roi cynnig teg a chynhwysol i ddysgwyr sydd â dyheadau amrywiol. Er enghraifft, roedd un ysgol uwchradd wedi cyflwyno cymwysterau cyllid personol er mwyn ymateb i angen a nodwyd ymhlith y dysgwyr, ac adleisiwyd hyn gan uwch arweinydd arall a esboniodd eu bod yn dymuno "datblygu sgiliau mewn ffordd fwy holistaidd...i helpu dysgwyr i nodi cymwysterau penodol sydd fwyaf addas iddyn nhw" (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd). Fodd bynnag, mynegwyd pryderon gan uwch arweinwyr mewn un ysgol uwchradd ynghylch cyfleoedd hyfforddiant annigonol i athrawon er mwyn helpu i baratoi dysgwyr ar gyfer y cymwysterau hyn.

> "…mae'r cymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu haddo, sy'n swnio'n wych, yn dod gyda nifer fawr o gwestiynau hefyd am fylchau sgiliau i athrawon fod yn gallu eu cyflwyno." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)
>
> "Mae'n golygu sicrhau bod y staff yn meddu ar yr arbenigedd i ddarparu BTEC neu Ymddiriedolaeth y Tywysog neu wahanol fath o gymhwyster i'r hyn y maent wedi cael hyfforddiant ynddo efallai, gan nad ydych chi'n gweld unrhyw athrawon o fath TAR yn dod i mewn ac yn dymuno canolbwyntio ar BTEC neu'r math hwnnw o gymhwyster." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.49. Mae'r adran hon wedi trafod sut yr oedd ysgolion wedi gweld hyblygrwydd o fewn Cwricwlwm i Gymru fel cyfle i ymgysylltu'n well â diddordebau dysgwyr, gan gynnig profiadau dysgu mwy holistaidd, a gwella'r ffordd y mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn cymunedau. Bydd Adran 3 yn archwilio sut yr adroddodd ysgolion eu bod yn adnabod ac yn monitro anghenion dysgwyr mewn ffordd fwy systematig wrth iddynt weithredu Cwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio profion diagnostig ac ymgysylltu agosach â theuluoedd a chymunedau lleol er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb.

# Adran 3: Adnabod anghenion unigol a chynnig cymorth priodol

**Crynodeb o Adran 3**

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn ymdrechu i ymwreiddio tegwch a chynwysoldeb trwy adnabod anghenion unigol ac amgylchiadau teuluol, gan gynnig cymorth priodol. Adroddodd nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr bod hyn wedi arwain at fwy o ddealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar ddysgwyr a'u cynnydd, yr oeddent yn aml y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol nhw.

Roedd y prif bwyntiau yn cynnwys:

- Adroddodd sawl ysgol am fwy o ymdrechion i ymgysylltu â theuluoedd, gyda chymorth swyddogion ymgysylltu â theuluoedd. Adroddodd rhai ysgolion bod hyn wedi eu galluogi i addasu dysgu ac addysgu a chynnig cymorth priodol i ddysgwyr.
- Rhai uwch arweinwyr yn mynegi rhwystredigaeth am y ffaith, er bod Cwricwlwm i Gymru yn eu hannog i fabwysiadu dulliau arloesol ac unigoledig tuag at addysgu a dysgu, bod cyfyngiadau ariannol ar ysgolion yn eu hatal rhag gwneud hynny.
- Adroddodd rhai uwch arweinwyr bod colli rolau cynorthwywyr addysgu wedi effeithio ar allu ysgolion i gynorthwyo dysgwyr mewn ffordd effeithiol gyda'u dysgu.

## Ymateb i anghenion dysgwyr ac amgylchiadau teuluol

3.50. Disgrifiodd sawl ysgol eu hymdrechion ychwanegol i ymgysylltu â theuluoedd, a gynorthwywyd gan rolau megis swyddogion ymgysylltu teuluol, a phan fo hynny'n briodol, ymweliadau â'r cartref. Roedd yr ysgolion hyn yn credu bod ymyriadau o'r fath yn arwain at ddealltwriaeth well o amgylchiadau dysgwyr, a bod hyn yn rhywbeth yr oeddent yn ceisio ei adlewyrchu mewn ffordd fwy bwrpasol wrth gynllunio gweithgareddau'r ysgol a meddwl am y profiadau a gynigir fel rhan o'r cwricwlwm.

> "Mae amrediad y plant sy'n dod yma nawr lawer yn fwy amrywiol nag erioed. Bu newid mawr o ran cefndiroedd diwylliannol rhai o'n teuluoedd. Felly rhaid i ni fod yn gynyddol ystyriol o'r ffaith ein bod yn cynrychioli'r teuluoedd hynny a bod y teuluoedd hynny yn rhoi eu ffydd ynom...credwn bod cynrychiolaeth yn hollbwysig yn ein cwricwlwm. Felly rydym wedi cymryd sawl cam i gynnwys ac i adlewyrchu ein cymunedau... credaf ein bod wedi meddwl llawer yn fwy am hyn nawr. [Byddwn] yn treulio amser yn myfyrio am anghenion unigol dysgwyr

> ac anghenion unigol eu teuluoedd, ac mae hynny yn digwydd trwy swyddog ymgysylltu teuluol penodedig." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.51. Soniodd rhai ysgolion eraill am fanteision eu gwaith ymgysylltu cymunedol a gyda theuluoedd wrth eu galluogi i gynnig cymorth priodol a darparu addysgu a dysgu mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at brofiadau tecach i bob dysgwr.

> "O ran sicrhau ein bod yn adnabod ein disgyblion, rydym wedi cydnabod bod angen i ni fynd i'r gymuned yn hytrach na disgwyl i'r gymuned ddod atom ni... felly gweler ein [dull] addysgu ymaddasol. Rydym wedi ceisio creu llyfryn addysgu ymaddasol er mwyn caniatáu i athrawon gael pecyn cymorth lle y byddant yn adnabod, trwy broffil un tudalen [dysgwyr] a'r cydberthnasoedd a'r cysylltiad y maent yn ei feithrin, pa strategaethau addysgu ymaddasol y gallant eu defnyddio i symud dysgu pawb yn ei flaen. Mae'n ystyried sgiliau'r dysgwr ac yn symud y dysgwr ymlaen gan ddefnyddio'r strategaethau a'r profiad sydd gan yr athro, a'r wybodaeth sydd gan yr athro am [y dysgwr]." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

> "Rydw i'n credu bod y disgyblion nad ydynt yn cael cymorth yn y cartref yn cael cymorth da yn yr ysgol... Felly rydym yn [darparu] tegwch o ran y ffordd y gallwn ddwyn y rhai nad ydynt yn cael cymorth yn y cartref i fyny i'r man lle y mae'r lleill." (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

3.52. Nododd uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion bod y broses o gynllunio a gweithredu Cwricwlwm i Gymru wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r amgylchiadau ehangach sy'n effeithio ar ddysgwyr, megis ffactorau sy'n gysylltiedig â thlodi, yr angen am fwy o weithgarwch ymgysylltu gyda theuluoedd, ac anghenion cymorth rhieni/gofalwyr. Roedd y ddirnadaeth hon wedi cyfrannu at eu dull wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig i ddysgwyr sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan yr heriau hyn.

> "Mae'r cwricwlwm yn caniatáu i ni fod yn ymwybodol o sefyllfaoedd pobl arall. Credaf fod gennym y rhyddid nawr, rydym yn parhau i ddweud mai cwricwlwm ein hysgol ni ydyw. Nid cwricwlwm unrhyw un arall. Felly, rydym yn gwybod bod ein dysgwyr yn dod o gefndiroedd penodol." **(**Ymarferydd, Ysgol Gynradd)

> "Mae'r cwricwlwm newydd yn ymwneud â'r syniad hwn o gymuned ysgol, am ddatblygiad holistaidd unigolyn. Mae angen cael y dull hwnnw o feddwl mewn ffordd gydgysylltiedig ar gyfer pob gwasanaeth o fewn addysg. Efallai nad yw'n [ymddangos] fel pai'n ymwneud ag addysg yn uniongyrchol, ond mae yn ymwneud ag ef." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.53. Tynnodd uwch arweinydd o'r ysgol arbennig sylw at yr heriau unigryw y mae rhieni/gofalwyr eu dysgwyr yn eu hwynebu, gan nodi bod rhai wedi cael profiadau

anodd yn yr ysgol eu hunain, a bod eraill yn wynebu stigma diwylliannol sy'n gysylltiedig ag anabledd eu plentyn.

> "Mae gennych chi [rieni a gofalwyr] a oedd wedi cael profiad gwael iawn o addysg eu hunain, neu nad ydynt yn meddu ar rai sgiliau sylfaenol. Mae gennych chi rai hefyd sy'n wynebu heriau diwylliannol, sef eu bod wedi cael eu gwrthod gan eu cymuned oherwydd natur anabledd eu plentyn. Felly maent yn eithaf ynysig yn eu bywyd." (Uwch Arweinydd, Ysgol Arbennig)

3.54. Pwysleisiodd sawl uwch arweinydd bwysigrwydd cysylltu â'r gymuned leol yn ehangach, gan esbonio sut yr oedd hyn wedi cynorthwyo perthnasedd a chynwysoldeb yn y cwricwlwm trwy helpu uwch arweinwyr ac ymarferwyr i ddysgu mwy am y cymunedau a adlewyrchir ym mhoblogaeth dysgwyr yr ysgol. Er enghraifft, disgrifiodd un uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd y cam o lansio "canolfan loeren yn y gymuned, yn yr ardal fwyaf difreintiedig yn ein dalgylch, lle y bydd ein swyddog ymgysylltu teuluol yn mynychu sesiwn galw heibio" (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd). Mewn achos arall, adroddodd ysgol gynradd sut yr oedd cysylltiadau cymunedol agosach wedi helpu i roi sylw i densiynau posibl ynghylch addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

3.55. Rhoddwyd enghraifft arall gan uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd, a nododd y gallai materion lleol, megis camddefnyddio cyffuriau, lesteirio cynnydd dysgwyr mewn ffordd ddifrifol. Nodont y gallai ysgolion ddibynnu ar gymorth heddwas bro yn flaenorol, ond bod toriadau i gyllidebau wedi arwain at ddiddymu'r rôl hon. Roedd hyn wedi arwain at yr ysgol yn ystyried ffyrdd amgen o addysgu dysgwyr am y materion a wynebir yn eu cymunedau lleol trwy gyfrwng darpariaeth y cwricwlwm.

3.56. Cyfeiriodd rhai ysgolion at brosiectau a gweithgarwch partneriaeth yr oeddent yn teimlo eu bod yn werthfawr wrth hyrwyddo tegwch a chynwysoldeb. Cyfeiriodd ysgol uwchradd at ymyriadau wedi'u targedu trwy gyfrwng rhaglen Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Difreintiedig (RADY), a oedd wedi cyfrannu at eu gwaith o hyrwyddo tegwch a chynwysoldeb ac a oedd wedi cael ei hymestyn ar draws yr ysgolion cynradd yn eu clwstwr. Mewn enghraifft arall, esboniodd ysgol gynradd eu bod wedi defnyddio cyllid Grant Datblygu Disgyblion i gynorthwyo "hyrwyddwr dysgwyr agored i niwed' a fu'n gweithio i nodi a datblygu gweithgareddau wedi'u teilwra a oedd yn targedu dysgwyr agored i niwed a'u teuluoedd – gan gynnwys 'plant ffoaduriaid, plant y mae eu rhieni yn y lluoedd arfog, gofalwyr ifanc, plant sipsiwn a theithwyr".

> “Rydw i’n gweithio gyda’r grwpiau hynny yn benodol dan drefniant cylchdro. Mae gan bob grŵp raglen o weithgareddau sy’n eithaf penodol i anghenion eu grŵp... gwahoddir teuluoedd i mewn a byddwn yn cynnal gweithdai, boed hynny yn grefft coginio, taith i rywle lleol yn y gymuned i feithrin ymdeimlad o berthyn i’r teuluoedd hynny sy’n ffoaduriaid... felly rydw i’n teimlo ein bod yn gefnogol iawn tuag at y dysgwyr difreintiedig hynny. Byddwn yn eu hadnabod yn syth wrth iddynt bontio i mewn i’r ysgol ac yna, bydd ein hathrawon dosbarth a’n haelodau UDA [a] CADY yn eu holrhain trwy gydol eu taith yn yr ysgol.” (Ymarferydd, Ysgol Gynradd)

3.57. Nododd un uwch arweinydd mewn ysgol gynradd anesmwythdra ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl y prydau ysgol am ddim cyffredinol i ddysgwyr cynradd, a’r effaith y gallai hyn ei chael ar waith Cwricwlwm i Gymru ar degwch a chynwysoldeb. Adroddont am ostyngiad amlwg yn nifer y teuluoedd sy’n cofrestru’n swyddogol am eFSM, a bod hyn o bosibl o ganlyniad i’r ffaith bod pawb yn cael prydau ysgol am ddim nawr. Roedd gan hyn oblygiadau ar gyfer y cymorth ychwanegol y gallai ysgolion ei gynnig i ddysgwyr a’u teuluoedd gan bod cofrestru ar gyfer eFSM yn gallu ysgogi cymorth ychwanegol.

## Effaith cyfyngiadau ariannol

3.58. Barnwyd bod cyfyngiadau ar y gyllideb yn risg sylweddol gan uwch arweinwyr mewn rhai ysgolion cynradd ac uwchradd wrth barhau gyda’r cymorth ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr ADY a dysgwyr sy’n cael eu heffeithio gan dlodi ac sy’n cael cymorth pellach neu wahaniaethol i fanteisio ar y cwricwlwm. Adroddodd rhai uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac un uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd am doriadau i swyddi cynorthwywyr addysgu a gweithgareddau allgyrsiol y tu allan i’r diwrnod ysgol, yn enwedig yn y celfyddydau. Adroddwyd bod teithiau ysgol, yr oedd ymarferwyr mewn rhai ysgolion cynradd ac uwchradd yn teimlo eu bod yn bwysig er mwyn ehangu gorwelion dysgwyr, wedi mynd yn anos talu amdanynt. Rhoddodd rhai ysgolion sy’n gwasanaethu cymunedau mewn ardaloedd difreintiedig enghreifftiau o deithiau a drefnwyd yn cael eu canslo oherwydd eu fforddiadwyedd i rieni a gofalwyr. Mynegwyd pryder gan rai ysgolion bod prosiectau, gweithgarwch partneriaeth, ac ymyriadau i hyrwyddo tegwch a chynwysoldeb— gan gynnwys y rhai a amlinellwyd yn yr adran flaenorol – mewn perygl o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol.

> “Yn y gorffennol, byddem wedi gallu helpu plant na fyddent yn gallu fforddio mynd [ar deithiau ysgol] trwy dalu rhywfaint o’r gost, ond mae’n llawer

> anoddach gwneud hynny nawr, felly efallai na fydd rhai plant yn dod oherwydd hynny, sy'n rhywbeth a fydd yn cael effaith." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.59. Yn gyffredinol, mynegwyd rhwystredigaeth gan uwch arweinwyr am y ffaith bod Cwricwlwm i Gymru yn eu hannog i fabwysiadu dulliau arloesol ac unigoledig tuag at ddysgu, ond bod cyfyngiadau ariannol yn eu hatal rhag gwneud hynny.

> "Gallwn gael yr holl syniadau a'r holl weledigaeth, ond os na fydd gennym yr arian, ni allwn wneud hyn... mae'n siomedig bod y toriadau wedi cael eu gwneud pan fo angen yr arian arnom yn fwy nag erioed oherwydd yr holl ddiwygiadau... rydych chi'n gofyn i ni wneud mwy, ond gyda llai, ac mae hynny'n amhosibl." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.60. Yn gysylltiedig â hyn, pwysleisiodd un uwch arweinydd sut yr oedd cyfyngiadau o ran amser a chapasiti yn cyfyngu ar eu gallu i fabwysiadu dull mwy unigoledig tuag at addysgu a dysgu, sef rhywbeth a oedd yn rhan annatod o gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb trwy gyfrwng Cwricwlwm i Gymru yn eu barn nhw.

3.61. Mae'r adran hon wedi trafod sut yr oedd ysgolion yn gwneud ymdrechion i ymwreiddio tegwch a chynwysoldeb trwy adnabod anghenion unigol a rhoi cymorth priodol yn ei le. Roedd ysgolion, fodd bynnag, wedi disgrifio heriau wrth geisio cyflawni hyn. Mae Adran 4 yn disgrifio sut yr ystyriwyd bod yr amser ychwanegol, yr hyfforddiant a'r cydweithio sy'n ofynnol er mwyn bodloni anghenion amrywiol dysgwyr dan Gwricwlwm i Gymru, ynghyd â diwygiadau eraill megis y system ADY, yn rhoi mwy o alwadau ar ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion wrth iddynt weithredu'r cwricwlwm mewn ffordd sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb.

## Adran 4: Capasiti y system i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb

**Crynodeb o Adran 4**

Roedd gweithredu Cwricwlwm i Gymru mewn ffordd a oedd yn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb wedi arwain at newidiadau o ran arfer, yr adroddwyd eu bod wedi arwain at alwadau ychwanegol ar uwch arweinwyr ac ymarferwyr ar draws pob ysgol yn y sampl. Er bod uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r galluogedd i deilwra dysgu yn unol ag anghenion amrywiol yn gyffredinol, nododd rhai bod datblygu, cynllunio a darparu adnoddau ar gyfer y dulliau hyn yn cymryd amser ac nad oedd hyn yn cael ei ariannu. Yn ystod trafodaethau gyda rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr, datgelwyd y cyfyngiadau yr oeddent yn eu hwynebu, wrth i'r cyfranogwyr hyn gyfeirio at heriau yn y meysydd canlynol yn benodol:

- cynllunio ar gyfer ac ymateb i anghenion cymorth dysgwyr unigoledig a gwahaniaethol.
- manteisio ar ddysgu proffesiynol priodol i gynorthwyo, a chynorthwyo gweithgarwch cynllunio cwricwlwm a dulliau o fonitro cynnydd dysgu yn benodol.
- cynnig cymorth ychwanegol i athrawon newydd gymhwyso (ANG), nad oeddent ar brydiau yn ddigon parod i gynorthwyo wrth wireddu Cwricwlwm i Gymru ar ôl cwblhau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), yn ôl rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr.
- sicrhau cydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau sy'n ymwneud â Chwricwlwm i Gymru a'u dyletswyddau dan y trefniadau diwygio ADY, gan arwain at fwy o bwysau o ran llwyth gwaith.

### Cynllunio a pharatoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm

3.62. Nododd ymarferwyr yn yr holl ysgolion bod gweithredu Cwricwlwm i Gymru mewn ffyrdd sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb wedi gofyn am waith cynllunio, cydweithio a dysgu proffesiynol sylweddol. I nifer o'r ymarferwyr a'r uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, barnwyd bod datblygu dulliau addysgu unigoledig yn hanfodol ar gyfer tegwch a chynwysoldeb. Roedd rhai ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac un uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd wedi nodi bod creu strategaethau cynhwysol ar gyfer dysgwyr ADY a MAT wedi golygu

buddsoddi amser sylweddol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt heb iddynt deimlo ar wahân o'u cymheiriaid.

> "Yn flaenorol, efallai y gallech chi fod wedi cerdded i mewn i'n hystafelloedd dosbarth ac adnabod bod grŵp o blant fan yna sy'n ddysgwyr MAT. Mae grŵp o blant fan yna sy'n grŵp ADY. Ac rydw i'n credu pe baech chi'n cerdded i mewn i'n hystafelloedd dosbarth nawr, na fyddech chi o reidrwydd yn gallu ffurfio'r barnau cyflym hynny ar unwaith oherwydd y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.63. Er bod diwrnodau HMS, gan gynnwys y diwrnod HMS ychwanegol a ddarparwyd er 2022, wedi cael eu defnyddio i gynllunio Cwricwlwm i Gymru, adroddodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr, mewn ysgolion uwchradd yn bennaf, bod diffyg cyllid i dalu am staff cyflenwi wedi atal ymarferwyr rhag gallu neilltuo amser ychwanegol yn ystod oriau ysgol i gynllunio ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm.

> "Gan ein bod yn gofyn i staff wneud pethau mewn ffordd wahanol, rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod gofyn cael amser i wneud hyn – mae gweithio mewn ffordd wahanol yn gofyn am amser i fyfyrio, cynllunio, arbrofi, adolygu." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

> "Hoffwn pe bai fy nghyfadran yn cael y diwrnod i ffwrdd gyda'i gilydd i weithio ar hyn [ond bydd y Pennaeth yn dweud] na allwn fforddio staff cyflenwi am yr amser hwnnw. Felly, yr unig amser y byddwn fyth yn ei gael yw ar ôl ysgol ac mae hynny'n anodd wedyn." (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

3.64. Mewn rhai ysgolion, tanlinellodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr werth y dysgu proffesiynol parhaus yr oeddent wedi cael budd ganddo ac a oedd wedi cynorthwyo eu hystyriaethau a'u harferion mewn perthynas â thegwch. Roedd hyn yn cynnwys dysgu proffesiynol a sicrhawyd gan un ysgol o ganlyniad i'w cyswllt â phrosiect a ariannwyd gan ERASMUS a oedd yn canolbwyntio ar degwch ac a oedd yn cynnwys ystyried enghreifftiau o degwch mewn systemau addysg pedair gwlad ar draws Ewrop. Nodwyd bod hyn yn cynnig profiadau dysgu proffesiynol i aelodau o staff dros gyfnod o ddwy flynedd, gan helpu i drwytho dealltwriaeth o'r "hyn y mae tegwch yn ei olygu i ni...y gwahaniaeth rhwng tegwch a chydraddoldeb, a sut y bydd hyn yn edrych o fewn yr ysgol" *(*Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd). Nododd cynrychiolydd ysgol gynradd arall bod cyswllt eu hysgol gyda phrosiectau ymholi proffesiynol dros nifer o flynyddoedd wedi bod yn werthfawr wrth gyfrannu at eu haddysgeg a'u harfer, gan gynnwys sut i weithredu egwyddorion addysgegol er mwyn cynorthwyo disgyblion y mae gofyn iddynt gael cymorth gwahaniaethol.

3.65. Rhannwyd rhai enghreifftiau o feysydd lle'r oedd angen cael dysgu proffesiynol pellach, er enghraifft soniodd uwch arweinydd mewn ysgol gynradd am yr angen am ddysgu proffesiynol pellach i ymarferwyr er mwyn mireinio'r ffordd y maent yn monitro cynnydd dysgwyr. Yn yr un modd, mynegwyd pryderon gan uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd am y ffaith nad yw'r proffesiwn wedi meistroli cysyniad cynnydd eto, sy'n rhan annatod o Gwricwlwm i Gymru.

> "Rydw i'n gwybod bod gennym fwy o waith i'w wneud ar hyn, ac mae'n rhan o'n blaenoriaethau eleni. Felly bydd mwy o staff yn cael hyfforddiant amdano." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)
>
> "Nid ydw i'n credu bod y proffesiwn addysgu yn hyderus i wybod eto [am ddilyniant] ...nid ydw i'n credu bod meistrolaeth o hynny o hyd." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.66. Disgrifiodd uwch arweinydd arall mewn ysgol uwchradd y bylchau sylweddol o ran y cymorth a'r canllawiau gan yr 'haen ganol'[14], gyda hyfforddiant cyfyngedig wedi cael ei ddarparu am gynllunio cwricwlwm. Yn yr achos hwn, mynegwyd pwynt ehangach gan yr uwch arweinydd ynghylch y gallu a'r arbenigedd sy'n ofynnol mewn ysgolion er mwyn gallu cynllunio a gweithredu cwricwlwm yn ystod cyfnod o newid ar draws y system addysg.

> "Rydw i'n credu bod rhai peryglon ac yn anffodus, fel ymarferwyr ac athrawon sydd ar flaen y gad wrth orfod rheoli hyn i gyd ar ben delio â nifer fawr o bethau eraill fel y pandemig, diwygiadau ADY, mae llawer iawn yn digwydd mewn ysgolion. Ac weithiau, cael llawer o ryddid yw un o'r pethau gwaethaf sy'n gallu digwydd... Fel athrawon, nid ydym yn arbenigo mewn cynllunio cwricwlwm o gwbl, ac roedd yr holl gymorth a ddarparwyd gan yr haen ganol yn ymwneud â model a oedd yn seiliedig ar ymchwil i raddau helaeth. 'Darllenwch hwn, darllenwch hwn, gwnewch hyn', sy'n wych. Ond mae athrawon yn dymuno cael yr amser i ddarparu, mae angen llwybr arnynt trwy goedwig enfawr." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.67. Roedd un ysgol wedi ceisio rhoi sylw i'r heriau o sicrhau bod digon o 'le' ac amser ar gyfer dysgu proffesiynol trwy gyflwyno 'wythnos anghymesur', lle'r oedd yr wythnos ysgol safonol yn cynnwys cymysgedd o ddiwrnodau byrrach a hirach, gan arwain at greu amser penodedig ar gyfer dysgu proffesiynol a gweithgareddau cynllunio'r cwricwlwm. Roedd ymarferwyr yn yr ysgol yn nodi bod y newid hwn wedi eu galluogi i ystyried cynllun Cwricwlwm i Gymru yn ddyfnach.

---

[14] Y sefydliadau hynny a ddisgrifiwyd yn flaenorol fel y rhai a oedd yn ffurfio'r 'haen ganol' yn [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl](#) oedd y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, Estyn, Cymwysterau Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC), byrddau arholi ac addysg uwch.

> "Heb yr wythnos anghymesur, a'r math hwnnw o ddysgu proffesiynol, efallai y byddem wedi wynebu mwy o heriau wrth weithredu'r cwricwlwm yn y ffordd yr oeddem yn dymuno gwneud hynny, oherwydd efallai na fyddem wedi cael yr amser a'r lle i weithredu'r dysgu proffesiynol hwnnw." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.68. Roedd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn teimlo hefyd nad oes amser digonol yn cael ei dreulio ar raglenni AGA wrth baratoi athrawon newydd ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys yr agweddau tegwch a chynwysoldeb. Dywedodd rhai uwch arweinwyr eu bod wedi tybio yn y lle cyntaf y byddai ANG yn dwyn syniadau newydd ynghylch sut i weithredu Cwricwlwm i Gymru, ond yn hytrach, roeddent wedi canfod bod angen cymorth sylweddol ar athrawon newydd yn aml.

> "Rydw i'n darganfod [gyda'r] myfyrwyr a'r athrawon newydd gymhwyso sy'n dod i'r ysgol, roeddwn yn gobeithio, fel athro hŷn, [y byddent yn] dod i mewn gyda llu o syniadau newydd a deunydd i'n helpu i weithredu'r cwricwlwm newydd. Nid yw hyn wedi digwydd o gwbl. Nid ydynt wedi darllen yn helaeth ac nid oes ganddynt unrhyw sgiliau cynllunio cwricwlwm o gwbl." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)
>
> "Mae gorfod ailddysgu eich addysgeg yn llwyr ac addysgu yn y ffordd newydd hon yn gwthio unigolion o'u man cyffyrddus yn llwyr, ac mae'n brofiad blinedig ac sy'n cymryd amser. Ac nid yw'r athrawon newydd yn cael eu haddysgu mewn ffordd newydd o reidrwydd." (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

## Darpariaeth ADY

3.69. Er bod rhai ymarferwyr yn cydnabod manteision cyfuno diwygiadau ADY gyda Chwricwlwm i Gymru fel y nodwyd yn 3.36, roeddent hefyd yn nodi heriau wrth sicrhau cydbwysedd rhwng gweithredu'r ddau ddiwygiad. Cyfeiriodd sawl ymarferydd at lwyth gwaith uwch o ganlyniad i'r angen i gynorthwyo dysgwyr sydd â CDU law yn llaw â chymorth gwahaniaethol arall. Esboniodd un uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd yr anawsterau o reoli nifer gynyddol o ddysgwyr yr oedd gofyn iddynt gael cymorth pellach neu gymorth gwahaniaethol er mwyn gallu manteisio ar y cwricwlwm, ond nad oeddent yn ddysgwyr ADY o reidrwydd. Roedd hyn yn cynnwys dysgwyr sydd â phroblemau ymddygiadol.

> "Rydym wedi canfod cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd ag anghenion cymorth ychwanegol cymhleth, nid dysgwyr ADY o reidrwydd, ond dysgwyr y mae gofyn iddynt gael cymorth. Heb os, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n amharod i ddod i'r ysgol – mae presenoldeb yn her i rai. Mae problemau ymddygiadol wedi dod yn fwy amlwg. Yn gyffredinol, mae'r darlun

> yn fwy cymhleth ac yn fwy heriol o ran cynorthwyo dysgwyr.” (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.70. Disgrifiodd uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd arall sgwrs gydag uwch arweinydd mewn ysgol gynradd yn eu clwstwr a oedd yn amcangyfrif bod ADY wedi’i nodi ymhlith chwarter o’u dysgwyr 3-8 oed, gan fynegi amheuon ynghylch a fyddai’r ysgol yn gallu ymdopi gyda’r lefelau angen hyn os na ddarperir adnoddau ychwanegol. Er bod y materion hyn yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ADY, roeddent yn aml yn dod i’r amlwg yng nghyd-destun gweithredu Cwricwlwm i Gymru, gan ddangos y galwadau ehangach ar amser ymarferwyr a drafodwyd yn gynharach.

3.71. Mae’r adran hon wedi disgrifio sut yr oedd gweithredu Cwricwlwm i Gymru er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb wedi cynyddu’r pwysau ar ysgolion. Roedd y pwysau hwn yn amlwg iawn mewn perthynas â chynorthwyo dysgwyr sydd ag ADY ac wrth reoli’r croestoriad rhwng diwygio ADY a Chwricwlwm i Gymru. Mae Adran 5 yn archwilio sut yr oedd amrywioldeb wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru, o fewn ac ar draws ysgolion, wedi effeithio ar hyder ymarferwyr yng nghapasiti hirdymor Cwricwlwm i Gymru i hyrwyddo tegwch a chynwysoldeb, yn enwedig yng ngoleuni trefniadau asesu sy’n esblygu a gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ysgol.

## Adran 5: Amrywioldeb arfer

**Crynodeb o Adran 5**

Gan ddatblygu'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn Adran 4, mae'r adran hon yn archwilio cyfyngiad pellach a nodwyd gan ymarferwyr: amrywioldeb wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru o fewn ac ar draws ysgolion.

Er bod y rhan fwyaf o ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r gallu i deilwra'r cwricwlwm er mwyn adlewyrchu anghenion eu dysgwyr, roedd rhai yn gofidio y gallai dehongliadau ac arferion anghyson arwain at fwy o amrywiadau o ran profiadau dysgwyr rhwng ysgolion, trwy amryfusedd.

Bu nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn myfyrio am yr amrywiad rhwng arferion ysgolion, gan gynnwys gwahaniaethau wrth weithredu'r cwricwlwm rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch ffactorau cymdeithasol-economaidd ehangach, megis y ffaith bod yr adnoddau sydd ar gael yn anghyfartal, a bod ymarferwyr yn ofni y gallai hyn danseilio eu hymdrechion i gynnig profiadau teg dan Gwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys pryderon am y cyfyngiadau ariannol y mae rhai teuluoedd mewn cymunedau difreintiedig yn eu hwynebu, sy'n dylanwadu ar y math o brofiadau a theithiau yr oedd ysgolion yn gallu eu cynnig i ddysgwyr fel rhan o'u cwricwlwm. Nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr y byddai gan ysgolion sydd ag adnoddau gwell neu gyfleusterau gwell – gan gynnwys y rhai sy'n gwasanaethu cymunedau mwy cefnog – fantais. Nododd y cyfranogwyr hyn – cynrychiolwyr ysgolion uwchradd yn bennaf – y gallai ffactorau cymdeithasol-economaidd gyfrannu at amrywiadau o ran y ffordd y mae ysgolion yn ymateb i'r diwygiadau, gan ehangu'r bylchau o ran canlyniadau a phrofiadau dysgwyr o bosibl.

Roedd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd yn priodoli'r amrywioldeb o ran arfer yn eu hysgolion eu hunain i wahanol feddylfryd ymhlith ymarferwyr: adroddwyd bod rhai ymarferwyr, gan gynnwys ymarferwyr profiadol yr oeddent yn gyfarwydd â gweithredu cwricwlwm mwy rhagnodol, wedi gweld y profiad o addasu eu haddysgeg i'r dull mwy hyblyg ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr sy'n ofynnol dan Gwricwlwm i Gymru, yn un heriol.

Roedd y persbectifau hyn yn amlygu tensiwn: er yr ystyriwyd yn aml bod galluogedd lleol yn rhywbeth cadarnhaol er mwyn cynllunio cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, roedd rhai cyfranogwyr yn ofni y gallai arwain at arfer tameidiog hefyd.

## Amrywiad o fewn ysgol

3.72. Nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr heriau wrth sicrhau dulliau cyson ar gyfer gweithredu Cwricwlwm i Gymru er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb yn eu lleoliadau. Roedd y ffordd yr oedd ymarferwyr yn dehongli cynnydd ac yn defnyddio disgrifiadau dysgu Cwricwlwm i Gymru yn un maes a oedd yn peri pryder ymhlith rhai uwch arweinwyr. Roedd yr uwch arweinwyr hyn yn cydnabod bod anghysondebau o ran y ffordd yr oedd gwahanol 'bynciau' neu Feysydd yn rhoi adborth i ddysgwyr er mwyn cynorthwyo datblygiad sgiliau, er enghraifft. Nododd un uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd bod diwygiadau'r cwricwlwm wedi arwain at fwy o drafodaeth am y gwahanol ddulliau sy'n cael eu mabwysiadu gan wahanol Feysydd. Mewn un ysgol gynradd, sefydlwyd 'arweinwyr cam cynnydd' er mwyn cynorthwyo cysondeb gyda'r dulliau o fewn grwpiau blwyddyn ac ar draws y camau cynnydd, gan gynnwys ymarferwyr mewn trafodaethau yn rheolaidd.

3.73. Soniodd un uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd am y gwahaniaethau rhwng dulliau a gyflwynwyd dan y trefniadau newydd, gan esbonio bod dull hynod o ganolog tuag at roi adborth i ddysgwyr wedi gwarantu unffurfedd yn flaenorol. Fodd bynnag, ers newidiadau Cwricwlwm i Gymru, roedd gan ymarferwyr lawer mwy o hyblygrwydd. Er bod yr uwch arweinydd yn credu bod y galluogedd hwn yn hanfodol er mwyn bodloni anghenion dysgwyr amrywiol, roedd hefyd wedi cyflwyno anghysondebau. Mynegwyd pryder gan sawl uwch arweinydd bod gormod o amrywioldeb o ran yr adborth a'r dulliau addysgu yn peryglu tanseilio tegwch a chynwysoldeb trwy greu amrywiadau mewn profiadau dysgu o fewn yr un ysgol.

> "Roedd gennym strwythur a rheolaeth ganolog iawn, ac erbyn hyn, llawer mwy o ryddid... Rydym yn gofidio ychydig a yw ein dulliau rhoi adborth wedi mynd yn rhy amrywiol ac nad ydym yn sicrhau'r canlyniadau y mae eu hangen arnom efallai." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.74. Nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd bod meddylfryd yn ffactor allweddol sy'n effeithio ar y ffordd y mae ymarferwyr yn ymateb i newid cwricwlwm. Nodont bod rhai ymarferwyr, gan gynnwys staff profiadol, yn gyfarwydd â model cwricwlwm mwy rhagnodol a'u bod yn ei chael hi'n heriol addasu i'r dulliau mwy hyblyg sy'n ofynnol gan Gwricwlwm i Gymru, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Disgrifiodd un uwch arweinydd y newid i ddefnyddio grwpiau gallu cymysg fel rhywbeth arbennig o anodd i ymarferwyr a oedd wedi gweithio gyda dosbarthiadau sy'n seiliedig ar setiau neu haenau llym ers amser hir.

3.75. Roedd elfen arall o amrywiaeth o fewn ysgol yn codi pan fyddai rhai ysgolion yn ceisio sicrhau bod yr un pwys yn cael ei roi ar holl Feysydd Cwricwlwm i Gymru. Dywedodd rhai ymarferwyr cynradd bod rhai cydweithwyr yn teimlo'n anniddig ynghylch sicrhau cydbwysedd rhwng yr hyn a oedd yn 'bynciau craidd' dan y cwricwlwm blaenorol, a Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill. Ychwanegodd un arweinydd uwchradd bod pwysau o ran amser yn aml yn cymell ymarferwyr i "ddychwelyd i'r hyn a fu'n gyffredin" (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd), gan ddychwelyd i ddulliau cyfarwydd pan fyddent dan straen yn hytrach na threialu'r arferion sy'n canolbwyntio yn fwy ar y dysgwr, yr oeddent yn eu cysylltu â thegwch a chynwysoldeb.

3.76. Yn gyffredinol, adroddwyd bod y gwahaniaethau o ran meddylfryd ac arfer mewn ysgolion weithiau yn arwain at weithrediad anghyson Cwricwlwm i Gymru. Pwysleisiodd ymarferwyr bod amser ar gyfer cynllunio ar y cyd, dysgu proffesiynol, a thrafodaeth agored yn hanfodol er mwyn lleihau'r anghysondebau hyn gymaint ag y bo modd, gan arddel egwyddor cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb.

### Amrywiad rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd

3.77. Arsylwodd sawl uwch arweinydd y gallai dehongliad pob ysgol o Gwricwlwm i Gymru wahaniaethu mewn ffordd sylweddol, yn enwedig o ran y gwahaniaethau tybiedig rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd o ran y ffordd y maent yn gweithredu Cwricwlwm i Gymru ac yn ystyried tegwch a chynwysoldeb. Roedd un uwch arweinydd mewn ysgol gynradd yn pryderu y byddai dysgwyr yn dod ynghyd o wahanol ysgolion cynradd mewn un ysgol uwchradd, y gallent fod wedi dysgu am bynciau a thestunau hollol wahanol, yn ei gwneud yn anodd i ymarferwyr ganfod gwybodaeth a sgiliau blaenorol pob dysgwr.

> "Os nad oes ganddynt y clwstwr cryf hwnnw, ceir perygl y gallai un ysgol gynradd fod wedi gwneud [pynciau a thestunau] ac efallai y byddai grŵp arall wedi gwneud [pynciau a thestunau gwahanol]. Ac felly mae'r grwpiau hynny o blant o'r gwahanol ysgolion yn dod ynghyd... rhaid ei bod hi mor anodd canfod lle y maent a'u gwahanol brofiadau a gwybodaeth." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.78. Roedd ymarferwyr cynradd yn aml yn ystyried bod eu gwaith cynllunio cwricwlwm nhw, sy'n fwy effeithiol ac sy'n seiliedig ar ddiddordeb, yn gryfder, er eu bod yn

mynegi pryderon am y ffaith bod lleoliadau uwchradd yn mabwysiadu dulliau ymatebol tebyg.[15]

> "Rydw i'n credu bod gan [ysgolion uwchradd] gwricwlwm eithaf penodedig, ac mae ein un ni yn hylifol. Mae'n dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd, beth sydd yn y newyddion, beth sydd allan yno... rydym wedi bod yn gweithio fel hyn ers y cwricwlwm newydd [Cwricwlwm i Gymru], ac rydw i'n credu bod hyn wir wedi ymgysylltu â'r plant a'r gymuned." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.79. Roedd rhai uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn gofidio y byddai'r arferion a sefydlwyd ganddynt i sicrhau mwy o gynwysoldeb, megis symud i ffwrdd o ddefnyddio labeli neu gategoreiddio dysgwyr fel rhai MAT neu ADY, yn cael ei 'ddadwneud' pan fyddai dysgwyr yn symud ymlaen i ysgol uwchradd a oedd yn grwpio dysgwyr yn ôl gallu. Roedd y gwahaniaeth ymddangosiadol hwn rhwng athroniaeth yn codi pryderon am y parhad ar gyfer y dysgwyr hynny sydd fwyaf agored i deimlo fel pe baent yn cael eu heithrio.

> "Mae gan yr [ysgol uwchradd] wahanol addysgeg... maent wedi rhoi'r holl blant MAT mewn dau ddosbarth, yna bydd pawb arall yn y lleill. Ac rydym wedi dweud dro ar ôl tro bod hyn yn mynd yn groes i bopeth yr ydym wedi'i newid yn ein haddysgeg." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.80. I'r gwrthwyneb, roedd rhai arweinwyr uwchradd yn dadlau nad yw ysgolion cynradd yn paratoi dysgwyr mewn ffordd ddigonol ar gyfer galwadau academaidd a threfniadol addysg uwchradd, a bod hyn yn effeithio ar ba mor hyderus y gallai ymarferwyr uwchradd deimlo ynghylch cynllunio ar gyfer cynnydd. Nododd un uwch arweinydd, wrth i ysgolion cynradd fabwysiadu eu cwricwlwm eu hunain o fewn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru a ddiffiniwyd yn genedlaethol, bod sgiliau dysgwyr yn amrywio'n sylweddol.

> "[Mae gennym] anghysondebau enfawr gydag ysgolion cynradd [yn y clwstwr]... Mae'r sgiliau y mae'r disgyblion o'r gwahanol ysgolion yn eu dwyn i fyny gyda nhw [yn] seiliedig ar yr ysgol gynradd y maent yn ei mynychu ac mae'r cwricwlwm newydd [Cwricwlwm i Gymru] yn... bwydo hynny gan eu bod [i gyd] yn mynd i fod yn gwneud rhywbeth gwahanol." (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

---

[15] Adeg yr ymchwil hwn, roedd Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl ddysgwyr cynradd ac ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 7 ac 8.

## Amrywiad rhwng ysgolion ar sail proffiliau demograffig gwahanol

3.81. Roedd gwahaniaethau mewn cyd-destunau ysgolion yn siapio dulliau er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb hefyd. Roedd hanner yr ysgolion yn teimlo y gallai'r ffordd y maent yn gweithredu'r cwricwlwm fod yn wahanol i ffordd ysgolion eraill oherwydd maint eu hysgol, eu lleoliad a'r cymunedau y maent yn gweithio gyda nhw; "Dyna sut yr ydym yn cyfeirio at ein cwricwlwm a chredwn ei fod yn rhywbeth a fydd yn gweithio i ni, efallai na fydd yn gweithio i ysgol arall mewn rhan wahanol o Gymru...cyfle yw hwn i gynllunio rhywbeth sy'n berthnasol ac sy'n siarad gyda'n cymunedau" (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd). Disgrifiodd un uwch arweinydd mewn ysgol gynradd y teimlad torcalonnus o gymharu gwaith eu disgyblion nhw gydag ysgolion mewn dalgylchoedd mwy cefnog. Yn eu barn nhw, roedd yn ymddangos bod eu ffocws nhw ar y 'plentyn cyfan', dull yr oeddent wedi ei alinio â Chwricwlwm i Gymru, yn creu gwahanol fathau o gynnydd o'u cymharu â'r dull mwy academaidd yr oeddent wedi ei arsylwi mewn mannau eraill.

> "Mae rhai o'r ysgolion eraill... yn canolbwyntio'n fawr iawn ar y byd academaidd, nid y plentyn cyfan. Felly wrth gwrs, pan fyddwch yn mynd â'ch llyfrau [i gyfarfodydd clwstwr] ac rydych chi'n falch iawn bod y plentyn wedi gwneud yr holl gynnydd hwn... efallai na fydd yn edrych yr un peth â'r hyn sydd ganddyn nhw." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.82. Nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd hefyd sut y gallai gwahaniaethau rhwng dalgylchoedd greu amrywioldeb wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru ac y gallai hyn o bosibl gyfyngu ar eu gallu i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Er enghraifft, amlygodd arweinwyr mewn rhai ysgolion cynradd sut yr oedd cyfyngiadau ariannol mewn cymunedau mwy heriol yn aml yn eu hatal rhag trefnu teithiau addysgol neu ymweliadau preswyl y gallai ysgolion eraill gydag adnoddau gwell eu cynnig.

> "Ceir nifer fawr o ysgolion [lle] y mae'r tlodi yn llawer mwy, felly nid ydyn nhw yn gallu gwneud llawer iawn o'r hyn a wnawn ni. Felly, er enghraifft, byddwn yn mynd â [dysgwyr] ar gwrs preswyl Blwyddyn 4... Dim ond un ym Mlwyddyn 6 y maen nhw yn ei gynnal." (Uwch Arweinydd, Ysgol Gynradd)

3.83. Pwysleisiodd eraill bod addasiadau cymharol syml hyd yn oed, megis dysgu yn yr awyr agored, yn dibynnu ar gyfleoedd i fanteisio ar adnoddau neu le addas, nad yw ar gael yn yr un modd i bob ysgol.

> “Rydw i’n credu bod dysgu yn yr awyr agored yn rhywbeth enfawr yng [Nghwricwlwm i Gymru], ond mae gan rai ysgolion lawer mwy o le y tu allan, ond dim ond gofod concrid cyfyngedig sydd gennym ni.” (Ymarferydd, Ysgol Gynradd)

3.84. Mynegwyd pryderon tebyg gan un ymarferwr mewn ysgol uwchradd, ond gyda ffocws ychwanegol ar y ffaith y gallai gwahaniaethau rhwng dalgylchoedd ysgolion gyfrannu at fwy o amrywiad o ran y ffordd y mae ysgolion yn ymateb i Gwricwlwm i Gymru ac yn ei weithredu, gan ehangu’r bylchau o bosibl rhwng ysgolion mewn ardaloedd mwy cefnog a’r rhai sy’n gwasanaethu ardaloedd lle y gwelir lefelau anfantais cymdeithasol-economaidd uwch.

3.85. Roedd un ymarferydd mewn ysgol uwchradd yn gofidio y gallai ysgolion mewn dalgylchoedd mwy cefnog ei chael hi’n haws dilyn Cwricwlwm i Gymru, gan arwain at ganlyniadau TGAU gwell i’w dysgwyr.

> “A fyddai modd i hynny arwain at fwy o anghydraddoldeb o ganlyniad? Byddwn yn dadlau efallai gyda maestref deiliog... na fyddai’r heriau y bydden nhw yn eu hwynebu... mor fawr... rydw i’n gofidio y gallai’r rhyddid yn y cwricwlwm newydd arwain at fwy o anghydraddoldeb yn yr ystyr hwnnw.” (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

3.86. Pwysleisiodd uwch arweinydd arall, er bod gan eu hysgol nhw “edau aur” tegwch yn rhedeg trwy eu cynllun datblygu, nad oedd Cwricwlwm i Gymru wastad yn canolbwyntio ar degwch a chynwysoldeb mewn ffordd mor amlwg ag y byddent yn ei ddymuno. Roedd yr uwch arweinydd hwn yn teimlo y byddai ffocws cenedlaethol mwy cadarn ar roi sylw i fwlch cyrhaeddiad eFSM yn helpu ysgolion sydd eisoes yn cael anhawster gyda heriau cymdeithasol-economaidd.

> “Os yw mor bwysig â hynny, dylai gael ei oleuo gan oleuadau mawr... cau’r bwlch fu’r peth pwysicaf ers blynyddoedd, ac nid ydym wedi llwyddo i wneud hynny eto.” (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.87. Mynegwyd pryderon gan nifer o gyfranogwyr o ysgolion uwchradd am effaith amrywiad demograffig ar hyder ymarferwyr yng ngallu Cwricwlwm i Gymru i sicrhau gwir degwch. Soniodd un arweinydd uwchradd am y ffaith eu bod yn gofidio a fyddai eu hysgol nhw, er gwaethaf y ffaith eu bod yn rhoi sylw i fylchau yn fewnol, ar ei hôl hi o’i chymharu ag ysgolion sydd â dalgylchoedd gwahanol iawn, gan amlygu’r perygl o greu anghydraddoldebau pellach ar draws y system.

> “…mae’n fy ngofidio gyda chymaint o ymreolaeth, a ydym yn mynd i allu efelychu’r un fath o gyfleoedd cwricwlwm ag ysgol arall y mae ei dalgylchoedd yn wahanol iawn i’n dalgylchoedd ni?” (Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd)

3.88. Yn y cyfamser, soniodd un ymarferydd mewn ysgol uwchradd sut y gallai Cwricwlwm i Gymru fod wedi cryfhau llwybrau i ddysgwyr y byddent yn llai tebygol o symud ymlaen i addysg uwch, ond roeddent yn teimlo bod yr anghysondebau o ran adnoddau ar draws ysgolion yn tanseilio’r potensial hwnnw.

> “Gallai’r cwricwlwm newydd hwn [Cwricwlwm i Gymru] fod wedi bod yn ffordd o sicrhau bod hynny yn digwydd i’n holl ddysgwyr... Ac nid ydw i’n [credu] bod y tegwch yna, nad yw’r ysgol yr un peth i bawb... ni fydd yn cael yr un canlyniadau i bawb. Ac a oes gennym ddigon o amser a digon o ryddid? Nid ydw i’n gwybod a oes.” (Ymarferydd, Ysgol Uwchradd)

# 4. Casgliadau

## Dull casglu a dadansoddi data

4.1. Aeth yr astudiaeth ansoddol hon ati i archwilio sut yr oedd sampl o ysgolion yn gweithredu Cwricwlwm i Gymru er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. I dywys gweithgarwch casglu data, datblygodd y tîm ymchwil chwe maes archwiliol a oedd yn canolbwyntio ar feysydd megis cynnydd dysgwyr, cymorth ADY, a threfniadau cwricwlwm ar gyfer tegwch a chynwysoldeb. Fodd bynnag, yn ystod trafodaethau lled-strwythuredig gyda chyfranogwyr, daeth yn amlwg nad oedd ysgolion yn ymateb i'r meysydd hyn yn llwyr. Yn hytrach, roedd cynllun penagored y trafodaethau wedi cynnig ystod eang o bersbectifau, gan amlygu'r ffaith bod modd dehongli tegwch a chynwysoldeb mewn ffordd wahanol gan ymarferwyr mewn cyd-destunau amrywiol.

4.2. Er mwyn parchu helaethrwydd a chymhlethdod y naratifau hyn, defnyddiodd y tîm ymchwil waith dadansoddi cynnwys thematig a nododd bum thema a ddaeth i'r amlwg. Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu mewn ffordd fanylach sut yr oedd materion sy'n ymwneud â thegwch a chynwysoldeb yn cael eu deall a'u gweithredu fel rhan o Gwricwlwm i Gymru. Er bod y meysydd archwiliol yn cynnig cyfeirnod defnyddiol er mwyn cynllunio'r canllawiau trafod, yn ymarferol, roedd y themâu a ddaeth i'r amlwg wedi cynnig sail mwy dilys a thrylwyr ar gyfer gwaith dadansoddi.

## Newidiadau i brofiadau dysgu dysgwyr trwy gyfrwng Cwricwlwm i Gymru

4.3. Yn gyffredinol, adroddodd ymarferwyr bod tegwch a chynwysoldeb wedi dod yn rhan fwy amlwg o'u hystyriaethau ar ôl cyflwyno Cwricwlwm i Gymru. I nifer o ysgolion, symudwyd i ffwrdd o labelu dysgwyr, megis adnabod 'setiau uchaf' neu 'grwpiau ADY', gan fabwysiadu safbwynt mwy holistaidd o anghenion dysgwyr unigol. Adlewyrchwyd hyn mewn strategaethau megis grwpiau gallu cymysg a mwy o ffocws ar ymreolaeth a hunanasesu dysgwyr, yr adroddodd cyfranogwyr bod y ddwy elfen hon wedi cyfrannu at gymorth gwell i ddysgwyr. Er mai prin yr oedd cyfranogwyr wedi cyfeirio at grwpiau penodol (er enghraifft, dysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig penodol), roeddent yn credu, trwy fabwysiadu dulliau

unigoledig, eu bod yn rhoi sylw i anghenion pob dysgwr fel rhan o Gwricwlwm i Gymru.

4.4. Barnwyd bod newidiadau o’r fath mewn addysgeg yn fwy cynhwysol, gan gynorthwyo dysgwyr gydag amrediad o anghenion gwahanol i ymgysylltu â’r cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys cymorth wedi’i dargedu ynghylch dulliau astudio, ac adborth gwell gan ddysgwyr er mwyn helpu dysgwyr i ddeall y sgiliau a’r wybodaeth y mae ei hangen arnynt i sicrhau cynnydd yn well. Cyfeiriodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr at newidiadau i’r arfer yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys mwy o gymorth un-i-un a gwaith gyda grwpiau llai o faint er mwyn cynnig cymorth wedi’i dargedu yn fwy. Adroddodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn gyson am y ffaith bod newidiadau i addysgeg a strategaethau eraill (gan gynnwys gwahaniaethu, cymorth ymddygiad) yn caniatáu i ymarferwyr dargedu cymorth ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr o fewn addysgu rheolaidd yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys dysgwyr sydd ag ADY a dysgwyr MAT.

4.5. Adroddodd y rhan fwyaf o ysgolion bod Cwricwlwm i Gymru wedi cyfrannu at newidiadau o ran y ffordd y maent yn asesu cynnydd dysgwyr, gan gynnwys ffocws o’r newydd ar adnabod a chynorthwyo anghenion unigol. Roedd hyn yn cynnwys gwneud mwy o ddefnydd o asesiadau diagnostig ac mewn rhai achosion, defnyddio proffiliau un tudalen er mwyn cyfrannu at waith cynllunio. Nododd nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr bod hyn wedi galluogi dull mwy unigoledig, gan adlewyrchu mannau cychwyn dysgwyr mewn perthynas â meysydd penodol o’r cwricwlwm.

4.6. Roedd cyflwyno camau cynnydd yn dynodi newid o nodau cyrhaeddiad yn seiliedig ar oedran i dasgau gwahaniaethol mewn rhai ysgolion. Er bod rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr o’r farn bod y camau cynnydd o gymorth, adroddodd eraill eu bod yn aneglur a nodont bod y disgrifiadau dysgu dan bob cam yn anodd i ddysgwyr a’u rhieni/gofalwyr eu deall.

4.7. Er gwaethaf yr heriau a adroddwyd, roedd yr holl gyfranogwyr yn croesawu’r syniad yn fras y gallai ysgolion addasu eu harfer er mwyn creu amgylchedd dysgu mwy teg a chynhwysol a phrofiadau dysgu i bawb trwy Gwricwlwm i Gymru.

4.8. Mae un casgliad ychwanegol y mae modd ei ffurfio o’r gwaith ymchwil yn ymwneud â’r cyfeiriadau cyson gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr at *ymyriadau.* Mae Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys canllawiau i gynorthwyo ysgolion i

gynllunio cwricwla sy’n cynnwys pob dysgwr, gan leihau’r ddibyniaeth ar ymyriadau ar wahân ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr dan drefniadau’r cwricwlwm newydd. Mae cyfraniadau uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn dynodi bod ysgolion yn darparu ymyriadau i ddysgwyr penodol ac yn ystyried bod y rhain yn atodol i neu’n cyd-fynd â’r cwricwlwm, nad yw efallai yn gyson â gweledigaeth a nodau’r diwygiadau sydd wedi cael eu cyfleu yn y Fframwaith. Gellid ystyried bod hyn yn amlygu risg nad yw ysgolion wedi cyflawni’r nod o ddatblygu cwricwlwm hollol gynhwysol yn llawn.

## Adolygu datblygiad y cwricwlwm a phrofiadau dysgu

4.9. Bu’r ymchwil yn archwilio sut yr oedd ysgolion yn diwygio eu cwricwla er mwyn sicrhau bod profiadau dysgu yn fwy perthnasol, yn fwy diddorol ac yn fwy cynhwysol. Adroddodd pob ysgol eu bod wedi gwneud newidiadau i gynllun y cwricwlwm er mwyn adlewyrchu anghenion dysgwyr, gan ddangos gwahanol ddulliau a manteision tybiedig. Pwysleisiodd rhai ymarferwyr eu bod yn cynllunio dysgu i adlewyrchu diddordebau dysgwyr, cyd-destunau lleol, a chefndiroedd personol, ac roeddent o’r farn bod hwn yn newid sy’n gwella ymgysylltu a phresenoldeb. Mewn achosion eraill, adroddodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr eu bod wedi rhoi pwyslais ar gynorthwyo sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, gan gynnig cyfleoedd i ddysgwyr feithrin hyder a gwydnwch. Ystyriwyd bod hwn yn ddull mwy holistaidd wrth ystyried sgiliau a chynnydd dysgwyr o’i gymharu â threfniadau blaenorol y cwricwlwm. Cyfeiriodd ymarferwyr yn rheolaidd at werth llais y disgybl, gan wahodd disgyblion i gyd-gynllunio prosiectau neu i siapio pynciau a thestunau sy’n seiliedig ar ymholi, gan ddynodi bod Cwricwlwm i Gymru wedi cryfhau eu hymrwymiad i wrando ar syniadau dysgwyr ac ymateb iddynt.

4.10. Mynegwyd ansicrwydd gan nifer o’r ysgolion uwchradd am sut i alinio dull holistaidd ac wedi’i deilwra wrth weithredu’r cwricwlwm, gyda’r gofynion a nodir ym manylebau cymwysterau TGAU. Mynegwyd pryder gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr, os rhoddir blaenoriaeth o hyd i ganlyniadau arholiadau fel rhan o drefniadau atebolrwydd, gallai hyn arwain at heriau wrth geisio cynnal dull sy’n seiliedig ar degwch a chynwysoldeb wrth gyflawni’r cwricwlwm.

## Nodi anghenion unigol a chynnig cymorth priodol

4.11. Nododd nifer o gyfranogwyr bod ffocws Cwricwlwm i Gymru ar ddatblygiad holistaidd yn eu hannog i edrych y tu hwnt i broffiliau academaidd ac ystyried bywyd yn y cartref a ffactorau cymdeithasol-economaidd. Barnwyd bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol wrth deilwra dulliau i adlewyrchu anghenion dysgwyr mewn ffordd sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb, yn enwedig i ddysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, heriau teuluol neu amgylchiadau eraill.

4.12. Cyfeiriodd sawl ysgol at bwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned leol, gan esbonio bod hyn wedi cynorthwyo ymdrechion i sicrhau bod y cwricwlwm yn berthnasol ac yn gynhwysol. Roedd rhai ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau dan anfantais gymdeithasol-economaidd, er enghraifft, wedi sefydlu sesiynau galw heibio i rieni/gofalwyr; cyfeiriodd eraill at waith swyddogion ymgysylltu teuluol wrth gynorthwyo cysylltiadau cymunedol. Lle y codwyd y pwyntiau hyn, roedd ymarferwyr o'r farn bod y perthnasoedd hyn yn gwella eu dealltwriaeth o gefndiroedd ac amgylchiadau dysgwyr, a bod hyn, yn ei dro, wedi eu galluogi i gynllunio a darparu profiadau cwricwlwm priodol a chynhwysol.

4.13. Cyfeiriodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn rhai ysgolion at brosiectau a gweithgarwch partneriaeth yr adroddont y bu'n werthfawr wrth gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Roedd hyn yn cynnwys prosiectau a gynorthwywyd gan arian grant Llywodraeth Cymru, a oedd yn datblygu gweithgareddau wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr agored i niwed a'u teuluoedd.

4.14. Mynegwyd rhybudd gan sawl cyfranogydd, wrth iddynt geisio bodloni anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr, ei bod hi'n anodd sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu cynorthwyo mewn ffordd briodol a bod risg y gallai anghenion rhai dysgwyr gael eu hanwybyddu fel canlyniad anfwriadol canolbwyntio ar grwpiau sydd ag anghenion dysgu penodol. Yn ogystal, mynegwyd pryder gan rai uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd y gallai'r cyfyngiadau ar gyllidebau greu heriau wrth barhau cymorth sy'n targedu grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi. Roedd hyn yn cynnwys gostyngiad yn nifer y swyddi cynorthwywyr addysgu a gweithgareddau allgyrsiol, a allai gyfyngu ar y cyfleoedd i gynorthwyo dulliau mwy unigoledig ar gyfer addysgu a dysgu, rhywbeth a ystyrir yn hanfodol i ymdrechion i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb trwy weithredu'r cwricwlwm.

## Capasiti y system i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb

4.15. Cyfyngiad allweddol yr oedd ysgolion yn ei wynebu oedd y galwadau ar amser uwch arweinwyr ac ymarferwyr er mwyn cynllunio, cael hyfforddiant a chydweithio er mwyn gweithredu Cwricwlwm i Gymru mewn ffordd gynhwysol. Er gwaethaf y cymorth sydd ar gael, roedd nifer o uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn teimlo bod adnoddau cyfyngedig yn effeithio ar allu ysgolion i ddarparu cwricwlwm teg a chynhwysol. Esboniodd sawl cyfranogydd bod gweithredu cwricwlwm gwirioneddol unigoledig sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb— yn enwedig wrth integreiddio diwygiadau ADY – yn broses ddwys y mae gofyn iddi gael myfyrio aml, cynllunio ar y cyd a datblygiad proffesiynol parhaus.

4.16. Er bod rhai ysgolion wedi llwyddo i fanteisio ar ddysgu proffesiynol a oedd wedi helpu i ddatblygu dulliau er mwyn cynorthwyo tegwch, gwelwyd enghreifftiau hefyd o adrodd am fylchau mewn dysgu proffesiynol, er mwyn cynorthwyo wrth gynllunio cwricwlwm yn arbennig a dulliau er mwyn monitro cynnydd dysgwyr. Esboniodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr bod ANG yn cyrraedd heb iddynt gael fawr iawn o hyfforddiant ynghylch Cwricwlwm i Gymru ac roedd gofyn iddynt gael cymorth sylweddol. Roedd hyn yn rhoi straen ychwanegol ar uwch arweinwyr. Roedd pwysau ar gyllidebau yn cyfyngu gallu ysgolion i ariannu'r ymarferwyr dysgu proffesiynol sy'n angenrheidiol er mwyn addasu strategaethau ar gyfer y cwricwlwm a'r ystafell ddosbarth.

4.17. Er bod ysgolion yn gefnogol o'r hyblygrwydd a gynigir gan Gwricwlwm i Gymru, nododd sawl uwch arweinydd fwy o bwysau o ran amser a galwadau uwch o ran llwyth gwaith, a bod hyn yn creu cyfyngiadau wrth weithio tuag at y nod o gael cwricwlwm teg a chynhwysol i bob dysgwr.

## Amrywioldeb arfer

4.18. Roedd y galluogedd a gynigiwyd i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm ysgol eu hunain wedi arwain at strategaethau gweithredu amrywiol – o fewn ysgolion unigol ac ymhlith gwahanol leoliadau (clystyrau, camau cynradd ac uwchradd, a chyd-destunau demograffig). Mynegwyd pryder gan rai ymarferwyr y gallai adnoddau

amrywiol neu anghyfartal, gwahanol ddulliau addysgu ac asedau cymunedol arwain at brofiadau anghyfartal i ddysgwyr.

4.19. Roedd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd yn priodoli amrywioldeb o ran arfer yn eu hysgolion nhw i wahanol feddylfryd ymhlith ymarferwyr: adroddwyd bod rhai ymarferwyr, gan gynnwys ymarferwyr profiadol yr oeddent yn gyfarwydd â gweithredu cwricwlwm mwy rhagnodol, wedi ei chael hi'n heriol addasu eu haddysgeg i'r dull mwy hyblyg ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr sy'n ofynnol dan Gwricwlwm i Gymru.

4.20. Mynegwyd pryder gan rai uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd am y ffaith y gallai camau a gymerwyd i hyrwyddo dysgu cynhwysol gael eu 'dadwneud' gan ddulliau mwy anhyblyg yn yr ysgol uwchradd. Mewn cyferbyniad, awgrymodd rhai arweinwyr uwchradd nad yw ysgolion yn paratoi dysgwyr mewn ffordd ddigonol ar gyfer galwadau addysg uwchradd, a bod hyn yn effeithio ar weithgarwch cynllunio ar gyfer cynnydd ysgolion uwchradd.

4.21. Roedd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd o'r farn y gallai gwahaniaethau rhwng dalgylchoedd ysgolion – sef gwahaniaethau cymdeithasol-economaidd – arwain at amrywioldeb wrth weithredu'r cwricwlwm. Awgrymwyd y gallai amrywiadau wrth weithredu'r cwricwlwm arwain at ddysgwyr yn cael gwahanol brofiadau o'r cwricwlwm, gan gael effaith niweidiol ar ymdrechion i gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb.

## Meysydd i'w hystyried

4.22. Mae'n bwysig cydnabod bod y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar drafodaethau gyda sampl gymharol fach o uwch arweinwyr ac ymarferwyr. Felly, dylid cofio'r cafeat hwn wrth ystyried y canfyddiadau a'r casgliadau.

### 1. Canllawiau mwy penodol am sut y gall dulliau cwricwlwm helpu i fodloni anghenion dysgwyr sydd ag ADY, dysgwyr MAT, dysgwyr sy'n profi tlodi, a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig

4.23. Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a gynigir gan Gwricwlwm i Gymru i addasu'r cwricwlwm i adlewyrchu amgylchiadau unigol dysgwyr. Fodd bynnag, ni allai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr nodi strategaethau penodol Cwricwlwm i

Gymru sydd wedi'u teilwra i grwpiau penodol megis dysgwyr sydd ag ADY, dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, (gan gynnwys y rhai sy'n eFSM), neu'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae canfyddiadau'r astudiaeth yn awgrymu y byddai'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi cael budd o gael canllawiau mwy manwl ynghylch sut y gall Cwricwlwm i Gymru gynorthwyo'r grwpiau hyn o ddysgwyr yn uniongyrchol. Gallai hyn helpu i ddiffinio ac egluro'r cyfraniad y bwriedir i Gwricwlwm i Gymru ei wneud i welliannau o ran tegwch a chynwysoldeb mewn ysgolion.

### 2. Mwy o eglurder ynghylch sut y gall camau cynnydd gynorthwyo tegwch a chynwysoldeb

4.24. Er y nododd pob ysgol eu bod wedi cyfeirio at y camau cynnydd er mwyn cyfrannu at eu dulliau i fonitro cynnydd dysgwyr, roedd nifer o gyfranogwyr – yn enwedig y rhai sy'n gweithio gyda dysgwyr sydd ag ADY – wedi mynegi pryder ynghylch yr aneglurder a/neu nifer y camau. Dylid ystyried datblygu enghreifftiau, fel rhan o ganllawiau ychwanegol, sy'n dangos sut i ddefnyddio camau cynnydd mewn ffyrdd sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb i bob dysgwr.

### 3. Mwy o gymorth ar gyfer grwpiau amrywiol o ddysgwyr er mwyn cryfhau tegwch a chynwysoldeb wrth wireddu Cwricwlwm i Gymru

4.25. Dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth bellach i'r ffordd y caiff adnoddau eu neilltuo i ysgolion sy'n gwasanaethu niferoedd anghymesur o uchel o ran dysgwyr sydd ag ADY, dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan effaith tlodi, neu sydd ag anghenion eraill. Gallai hyn gynnwys archwilio cyfleoedd (gan gynnwys trwy gyfrwng y Grant Datblygu Disgyblion) i gynorthwyo staffio ychwanegol, dysgu proffesiynol, a phartneriaethau cymunedol sy'n gallu cryfhau'r ddarpariaeth mewn ysgol. Mae gofyn gwneud ymdrechion i sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion, a ffrydiau ariannol eraill, yn ddigon hyblyg i alluogi ysgolion i ganlyn dulliau mwy creadigol (er enghraifft rhaglenni pontio estynedig, ymyriadau cymdeithasol-emosiynol) sydd wedi'u hymwreiddio yn egwyddorion Cwricwlwm i Gymru.

4.26. Gallai camau sy'n cael eu cymryd gan ysgolion i gryfhau tegwch a chynwysoldeb ymestyn i sicrhau bod cyfle cyfartal i ddysgwyr o bob cefndir i ymwneud â gweithgarwch llais y dysgwr hefyd. Dylid annog grwpiau amrywiol o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, i gymryd rhan mewn

gweithgarwch ymgysylltu sy'n cyfrannu at ddulliau ysgolion tuag at gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm.

### 4. Rhoi sylw i amrywioldeb wrth weithredu'r cwricwlwm er mwyn hyrwyddo tegwch a chynwysoldeb

4.27. Mae amrywioldeb o ran arferion ysgolion wrth iddynt weithredu'r cwricwlwm yn peryglu tanseilio'r nod o sicrhau tegwch a chynwysoldeb trwy wneud profiadau dysgwyr yn ddibynnol iawn ar gyd-destun penodol yr ysgol. Gallai gweithgarwch dan arweiniad awdurdod lleol i gynorthwyo dysgu proffesiynol ystyried hwyluso gweithgarwch ar y cyd sy'n canolbwyntio ar degwch a chynwysoldeb yng Nghwricwlwm i Gymru. Gallai hyn olygu galluogi partneriaethau dysgu proffesiynol gweithredol lle y mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cael cyfleoedd i weld dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth sy'n cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb y tu allan i'w hysgol nhw, y mae modd manteisio arno er mwyn cyfrannu at welliannau. Gallai hyn ddatblygu sgyrsiau a gafwyd yn flaenorol trwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm, gan gynnwys trafodaethau ynghylch tegwch a chynwysoldeb.

### 5. Cydweithio gwell rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cynorthwyo parhad o ran tegwch a chynwysoldeb

4.28. Byddai modd ystyried cynorthwyo trefniadau clwstwr ffurfiol neu fframweithiau pontio sy'n nodi dulliau cyffredin o ran cynnydd, monitro dysgwyr, a dulliau addysgegol cyson rhwng pontio ar gyfer dysgwyr agored i niwed (er enghraifft, y rhai sydd ag ADY neu sydd dan anfantais gymdeithasol-economaidd). Gallai hyn gynnwys hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant ar draws clwstwr neu gymunedau dysgu proffesiynol lle y gall ymarferwyr cynradd ac uwchradd gydweithio ar strategaethau i wireddu Cwricwlwm i Gymru sy'n cynorthwyo parhad ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu risg.

## 6. Mwy o ffocws ar Gwricwlwm i Gymru a chynwysoldeb mewn AGA a dysgu proffesiynol parhaus

4.29. Canfu'r astudiaeth bod angen gwneud gwelliannau mewn AGA a dysgu proffesiynol parhaus er mwyn cynorthwyo tegwch a chynwysoldeb. Gallai rhaglenni AGA gynnwys modiwlau penodol sy'n ymwneud â Chwricwlwm i Gymru ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc, gan gynnwys ffocws ar ddeall anghenion a datblygiad dysgwyr sydd ag ADY, dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, a darpariaeth wahaniaethol i fodloni'r anghenion hyn. Efallai y bydd angen i raglenni ymsefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso atgyfnerthu ethos Cwricwlwm i Gymru trwy gynnig arweiniad strwythuredig ynghylch addysgeg gynhwysol a chaniatáu trefniadau mentoriaeth gydag athrawon profiadol.

## 7. Gwaith ymchwil pellach ar rôl Cwricwlwm i Gymru wrth wella tegwch a chynwysoldeb

4.30. Mae safbwyntiau ymarferwyr trwy gydol yr astudiaeth hon yn dynodi bod angen gwneud gwaith craffu parhaus ar effaith Cwricwlwm i Gymru ar degwch a chynwysoldeb – yn enwedig wrth i ddulliau ysgolion barhau i esblygu ac wrth i drefniadau atebolrwydd newydd ddod i'r amlwg. Mae persbectif sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yn hanfodol, gan bod tystiolaeth uniongyrchol gan blant a phobl ifanc ynghylch sut y maent yn profi Cwricwlwm i Gymru, yn gyfyngedig.

**Mae gwaith ymchwil pellach yn ddymunol er mwyn:**

- Archwilio graddau ac ansawdd y ddarpariaeth ar degwch a chynwysoldeb yn AGA a rhaglenni ymsefydlu, gan nodi lle y gellir cryfhau hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar Gwricwlwm i Gymru.
- Cynnal gwaith ymchwil sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, yn enwedig ymhlith dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, er mwyn asesu sut y mae newidiadau Cwricwlwm i Gymru yn effeithio ar eu hymdeimlad o gynwysoldeb a'u cynnydd.
- Archwilio pwyntiau pontio i ddysgwyr, yn enwedig arferion pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd dan Gwricwlwm i Gymru, gan werthuso pa mor effeithiol y maent yn cynnal dulliau cynhwysol ac a oes angen ymyriadau

ychwanegol. Dylai hyn ddatblygu gwaith Estyn ynghylch pontio a chynnydd disgyblion.[16]

- Asesu'r amrywioldeb wrth wireddu Cwricwlwm i Gymru ar draws ysgolion sydd â gwahanol ddemograffeg cymdeithasol-economaidd er mwyn deall sut y mae'r amrywiad hwn yn dylanwadu ar gyrhaeddiad grwpiau amrywiol o ddysgwyr.

[16] Estyn (2024). Adroddiad Thematig: Pontio a chynnydd disgyblion

## Atodiad A: Cyfeiriadau


Ainscow, M. (2020). Promoting inclusion and equity in education: Lessons from international experiences. Nordic Journal of Studies in Educational Policy, 6(1), 7–16.

Bernstein, B. (1990). The Structuring of Pedagogic Discourse. Llundain: Routledge.

Boyatzis, R. E. (1998). Transforming qualitative information: Thematic analysis and code development. Llundain: SAGE Publications Ltd.

Braun, V., a Clarke, V. (2022). Thematic analysis: A practical guide. Llundain: SAGE Publications Ltd.

Cenhedloedd Unedig. (2006). Convention on the Rights of Persons with Disabilities. [Cyrchwyd 05/11/2024].

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2023). Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Canllawiau i Ysgolion yng Nghymru. [Cyrchwyd 01/06/2025].

Donaldson, G. (2015). Dyfodol Llwyddiannus: adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, acs.4. [Cyrchwyd 04/06/2025].

Deddf Cydraddoldeb 2010, c.15. [Cyrchwyd 05/11/2024].

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 anaw.2. [Cyrchwyd 05/11/2024].

Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL) (2024) [Cyrchwyd 28/11/2024].

Estyn (2024). Adroddiad Thematig: Pontio a chynnydd disgyblion. Cyrchwyd 18/05/2025].

Llywodraeth Cymru. (2016). Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion: canllawiau ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol [Cyrchwyd 05/11/2024].

Llywodraeth Cymru. (2020). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: canllawiau [Cyrchwyd 04/06/2025].

Llywodraeth Cymru. (2021). Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. [Cyrchwyd 25/05/2025].

Llywodraeth Cymru. (2022a). Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. [Cyrchwyd 19/05/2025].

Llywodraeth Cymru. (2022b). Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm.

[Cyrchwyd 06/06/2025].

Llywodraeth Cymru. (2022c). Hawliau plant yng Nghymru | LLYW.CYMRU. [Cyrchwyd 19/05/2025].

Llywodraeth Cymru (2024a). Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru. [Cyrchwyd 04/06/2025].

Llywodraeth Cymru. (2024b). StatsCymru: Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn. [Cyrchwyd 26/05/2025].

Llywodraeth Cymru. (2024c). Mesurau amddiffyn wrth bontio y cynllun prydau ysgol am ddim: asesiad effaith. [Cyrchwyd 19/03/2025].

Llywodraeth Cymru. (2024d). StatsCymru: Anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig. [Cyrchwyd 27/05/2025].

Llywodraeth Cymru. (2024e). Cwricwlwm i Gymru: ymlaen â'r daith. [Cyrchwyd 10/03/2025].

Llywodraeth Cymru. (2025). Cwricwlwm i Gymru. [Cyrchwyd 06/06/2025].

OECD. (2017). The Welsh Education Reform Journey: A Rapid Policy Assessment. [Cyrchwyd 04/06/2025].

Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Darpariaeth Drosiannol a Darpariaeth Arbed) 2022, w.39. [Cyrchwyd 05/11/2024].

## Atodiad B: Offerynnau ymchwil

# Canllaw trafod ar gyfer trafodaethau ymchwil gydag aelodau o'r uwch dim arwain (UDA)

Bydd y trafodaethau hyn yn amrywio yn dibynnu ar argaeledd staff a strwythur tîm arweinyddiaeth yr ysgol/lleoliad. Er enghraifft, mewn ysgolion cynradd neu UCDau gellir cynnal y drafodaeth gyda phennaeth yr ysgol, gyda dirprwy bennaeth a'r CADY; mewn ysgolion uwchradd neu UCDau, gallai fod yn ddymunol cynnal sgwrs ymchwil un-i-un gyda'r pennaeth/athro arweiniol ac un arall gydag aelodau eraill o'r UDA.

Maes archwiliol 1: Cefnogi tegwch a chynwysoldeb

I ba raddau y mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu wedi galluogi ysgolion/lleoliadau addysg eraill i gefnogi tegwch a chynwysoldeb ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY a dysgwyr mwy abl a thalentog?

- Beth ydych chi'n ei ddeall wrth gyfeirio at *gefnogi tegwch a chynwysoldeb* mewn ysgolion/lleoliadau addysg eraill?
- A yw'r hyn wedi'i ddylanwadu mewn unrhyw ffordd gan gyd-destun yr ysgol hon/yr UCD hon?
- Ers cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, a ydy dulliau a safbwyntiau mewn perthynas â chefnogi tegwch a chynwysoldeb yn yr ysgol/UCD wedi newid? Os felly, sut?

Maes archwiliol 2: Cwricwlwm i Gymru a dulliau unigol o ddysgu

Sut mae ymarferwyr sy'n defnyddio'r Cwricwlwm i Gymru i fabwysiadu dulliau unigol at ddysgu i ddarparu ar gyfer pob gallu, e.e. y rhai sydd ar wahanol gamau cynnydd?

- A allech chi rannu eich safbwyntiau ar y ffyrdd y mae Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu dull mwy unigol o ddysgu o'i gymharu â threfniadau cyn diwygiadau Cwricwlwm i Gymru.

- Sut mae'r safbwyntiau hyn wedi dylanwadu ar ddull yr ysgol o grwpio dysgwyr, yn ôl cyrhaeddiad blaenorol, gallu neu allu cymysg a chyrhaeddiad, neu mewn ffyrdd eraill? (Tîm i fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o ddrysu cyrhaeddiad blaenorol gyda gallu.)
- A yw dulliau o gydnabod cynnydd/ cyrhaeddiad / cyflawniad wedi newid o ganlyniad i'r cwricwlwm a dulliau addysgu unigol o fewn yr ysgol?
- Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y mae dulliau o ymdrin â llais a dewis y dysgwr wedi newid o ganlyniad i gyflwyno'r cwricwlwm?
- A fu unrhyw newidiadau yn y ffordd y mae dysgwyr ag ADY neu anghenion penodol eraill adnabyddadwy yn cael eu cefnogi o ganlyniad i'r cwricwlwm? Os oes, a yw hyn yn wahanol i newidiadau sy'n deillio o ddiwygiadau i ADY?
- Ym mha ffyrdd, os o gwbl, mae'r cwricwlwm wedi darparu cyfleoedd ar gyfer mwy o gynwysoldeb i'r dysgwyr hyn?

Maes archwiliol 3: Dealltwriaeth dysgwyr o'u cynnydd

Sut mae ymarferwyr yn addasu eu haddysgeg i ddiwallu anghenion dysgwyr sy'n adlewyrchu eu mannau cychwyn, a cham datblygu a dilyniant? Sut mae hyn yn gweithio yn ymarferol yn y dosbarth/lleoliad addysg?

- A allech chi ddisgrifio'r math o waith a wneir yn eich ysgol/lleoliad addysg i ddatblygu addysgeg sy'n adlewyrchu cam cynnydd a dilyniant dysgwyr yn eu dosbarthiadau?
- Ydych chi wedi adolygu unrhyw newidiadau i arferion dysgu o fewn y dosbarth?
- Ym mha ffyrdd mae Cwricwlwm i Gymru wedi newid sut mae cynnydd yn cael ei weld a'i gefnogi ar gyfer Dysgu Mwy Abl a Thalentog, dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi ac ar gyfer dysgwyr ag ADY? (Ymchwilio i grwpiau eraill os yw'n berthnasol).
- I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y cwricwlwm yn caniatáu i ysgolion a lleoliadau gefnogi dysgwyr nad ydynt wedi cofrestru fel rhai ag ADY ond sy'n wynebu rhwystrau eraill i'w dilyniant mewn dysgu?

Maes archwiliol 4: Cefnogi mwy o ddysgwyr yr effeithir arnynt gan dlodi, neu rwystrau eraill a'r rhai â nodweddion gwarchodedig

Beth mae ymarferwyr yn ei wybod am amgylchiadau dysgwyr, (er enghraifft, a ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac amgylchiadau personol a chartrefol eraill)? A yw'r data hwn yn dod o ffynonellau / partneriaid lleol eraill? Pa ddulliau y mae athrawon yn eu defnyddio i gefnogi'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan dlodi ac amgylchiadau eraill, a'r rhai â nodweddion gwarchodedig? I ba raddau ac ym mha ffyrdd mae'r Cwricwlwm i Gymru yn galluogi athrawon i ganolbwyntio ar anghenion y dysgwyr hyn a sut maen nhw'n ei wneud?

- A allech chi ddisgrifio'r mathau o ddata sydd gennych ar ddysgwyr a'u cefndiroedd? (Lefel unigol/carfan)
- I ba raddau y bydd athrawon yn yr ysgol/lleoliad addysg yn gwybod am gefndir dysgwyr?
- Ym mha ffyrdd mae'r ysgol/lleoliad addysg yn sicrhau bod cwricwlwm yr ysgol yn gynhwysol ac yn berthnasol i grwpiau penodol o ddysgwyr? (Yn benodol, dysgwyr yr effeithir arnynt gan dlodi, Saesneg/Cymraeg fel iaith ychwanegol, gofalwyr ifanc, LGBTQ+, dysgwyr cefndirol Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, dysgwyr ag ADY, dysgwyr o gefndiroedd gofal).
- Ym mha ffyrdd y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ei wneud yn haws neu'n anoddach cefnogi'r dysgwyr hyn?
- Gan feddwl yn ehangach, beth yw'r heriau sy'n wynebu ysgolion/lleoliadau addysg eraill wrth nodi a chefnogi dysgwyr a allai gael eu heffeithio gan dlodi a sut, os o gwbl, y mae Cwricwlwm i Gymru yn effeithio ar hyn?
- CADY: Ochr yn ochr ag ADY, pa nodweddion eraill y gallech fod yn ymwybodol ohonynt ac yn eu hystyried wrth gefnogi dysgwyr?

Maes archwiliol 5: Sut mae trefniadau cwricwlwm ac asesu yn cefnogi tegwch a chynwysoldeb

I ba raddau y mae'r trefniadau cwricwlwm ac asesu wedi galluogi ysgolion/lleoliadau addysg i gefnogi tegwch a chynwysoldeb ar gyfer eu holl ddysgwyr? I ba raddau ac ym mha ffyrdd mae hyn yn wahanol i sut roedd pethau'n gweithio o dan y trefniadau blaenorol?

- Ym mha ffyrdd mae trefniadau cwricwlwm ac asesu eich ysgol/lleoliad addysg wedi newid fel rhan o’r Cwricwlwm i Gymru?
- Pa grwpiau o ddysgwyr sydd wedi cael eu hystyried yn y newidiadau hyn nad oedd o'r blaen o bosibl?
- A ydych yn credu y bydd gwelliannau mesuradwy ymhen amser i ganlyniadau dysgwyr a allai wynebu anfantais? (Holi a yw ymarferwyr yn credu y bydd gwelliannau'n dod yn benodol oherwydd Cwricwlwm i Gymru neu oherwydd ffactorau allanol eraill).
- A yw'r newidiadau hyn (oherwydd Cwricwlwm i Gymru) wedi creu cyfleoedd i hyrwyddo cynwysoldeb? Os felly, ym mha ffyrdd?
- CADY: A yw'r cwricwlwm wedi newid sut rydych chi'n cefnogi dysgwyr ag ADY i ddeall eu cynnydd ac adnabod camau nesaf yn eu dysgu? Beth am ddysgwyr eraill nad ydynt efallai wedi cofrestru fel dysgwyr ag ADY ond a allai wynebu rhwystrau eraill i'w cynnydd?

Maes archwiliol 6: Gwahaniaethau ar draws ysgolion/lleoliadau addysg eraill a newid dros amser

I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae barn, profiadau ac arferion yn wahanol i wahanol fathau o ymarferydd ac ysgol, a pham? I ba raddau mae barn, profiadau ac arferion yn newid dros amser, a pham?

- A fu unrhyw heriau o ran rheoli newid ar wahanol lefelau drwy'r ysgol/lleoliad addysg arall mewn ffordd sy'n sicrhau bod Cwricwlwm i Gymru yn cael ei weithredu mewn ffordd deg a chynhwysol?
- Sut ydych chi'n teimlo bod y newidiadau sydd eu hangen wedi bod yn wahanol yn yr ysgol/lleoliad addysg arall hwn yn hytrach nag eraill rydych chi'n gyfarwydd â nhw?
- Sut mae perthynas â rhanddeiliaid a rhieni lleol wedi newid o ganlyniad i Cwricwlwm i Gymru?
- A yw Cwricwlwm i Gymru wedi dylanwadu ar agweddau a pholisi mewn perthynas â bwlio a ffurfiau o ragfarn a brofir gan grwpiau amrywiol o ddysgwyr? Os felly, sut?

- A fu unrhyw newidiadau sylweddol i boblogaeth dysgwyr mewn ysgolion/lleoliadau addysg ers cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys mewn perthynas â mudo/lloches/ffoaduriaid a newidiadau mewn cyflogaeth leol, sydd wedi dylanwadu ar sut mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio, ei fireinio a'i wireddu?

## Canllaw trafod ar gyfer trafodaethau ymchwil gydag ymarferwyr ysgolion/lleoliadau addysg eraill

Maes archwiliol 1: Cefnogi tegwch a chynwysoldeb

I ba raddau y mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu wedi galluogi ysgolion/lleoliadau addysg eraill i gefnogi tegwch a chynwysoldeb ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY a dysgwyr mwy abl a thalentog?

- Beth ydych chi'n ei ddeall wrth gyfeirio at *gefnogi tegwch a chynwysoldeb* mewn ysgolion/lleoliadau addysg eraill?
- Beth sydd wedi dylanwadu ar y safbwyntiau hyn (e.e. polisïau ysgol, datblygu proffesiynol, negeseuon gan yr UDA)?
- Ochr yn ochr ag ADY, pa nodweddion eraill y gallech fod yn ymwybodol ohonynt ac yn eu hystyried wrth gefnogi dysgwyr?

Maes archwiliol 2: Cwricwlwm i Gymru a dulliau unigol o ddysgu

Sut mae ymarferwyr sy'n defnyddio'r Cwricwlwm i Gymru i fabwysiadu dulliau unigol at ddysgu i ddarparu ar gyfer pob gallu, e.e. y rhai sydd ar wahanol gamau cynnydd?

- Ym mha ffyrdd, os o gwbl, mae Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi profiad dysgu mwy cynhwysol i ddysgwyr?
- Oes yna heriau i hyn?
- A yw'r cwricwlwm yn fwy addasadwy i wahanol gamau datblygu a chynnydd dysgwyr?
- A yw Cwricwlwm i Gymru wedi helpu ymarferwyr i fabwysiadu dulliau unigol o addysgu ar gyfer dysgwyr ar wahanol gamau datblygu a chynnydd? Os felly, ym mha ffyrdd, a gyda pha grwpiau o ddysgwyr?

Maes archwiliol 3: Dealltwriaeth dysgwyr o'u cynnydd

Sut mae ymarferwyr yn addasu eu haddysgeg i ddiwallu anghenion dysgwyr sy'n adlewyrchu eu mannau cychwyn, a cham datblygu a dilyniant? Sut mae hyn yn gweithio yn ymarferol yn y dosbarth/lleoliad addysg?

- Beth yw eich barn ar ddull Cwricwlwm i Gymru o gefnogi cynnydd? A yw dull y cwricwlwm o gefnogi cynnydd yn helpu i deilwra dysgu yn yr ystafell ddosbarth i gwrdd ag anghenion dysgwyr? Os felly, sut?
- Ydych chi'n teimlo bod dysgwyr yn deall eu cynnydd? Yn gyffredinol, a ydych chi'n credu bod hyn yn cyfrannu at welliannau yn y dyfodol?
- Ydych chi'n credu bod profiadau dysgwyr ag ADY a dysgwyr mwy abl a thalentog wedi newid oherwydd sut mae'r ysgol yn gweithredu'r cwricwlwm? (Potensial ar gyfer grwpiau eraill)

Maes archwiliol 4: Cefnogi mwy o ddysgwyr yr effeithir arnynt gan dlodi, neu rwystrau eraill a'r rhai â nodweddion gwarchodedig

Beth mae ymarferwyr yn ei wybod am amgylchiadau dysgwyr, (er enghraifft, a ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac amgylchiadau personol a chartrefol eraill)? A yw’r data hwn yn dod o ffynonellau / partneriaid lleol eraill? Pa ddulliau y mae athrawon yn eu defnyddio i gefnogi'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan dlodi ac amgylchiadau eraill, a'r rhai â nodweddion gwarchodedig? I ba raddau ac ym mha ffyrdd mae'r Cwricwlwm i Gymru yn galluogi athrawon i ganolbwyntio ar anghenion y dysgwyr hyn a sut maen nhw'n ei wneud?

- Pa ddysgwyr yn eich dosbarthiadau sy'n profi rhwystrau a allai effeithio ar eu dysgu?
- Beth ydych chi'n ei wybod am amgylchiadau personol neu deuluol gwahanol ddysgwyr?
- Ym mha ffyrdd mae Cwricwlwm i Gymru yn eich helpu i addasu eich addysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr? Pa ddysgwyr yw'r rhain? A oes unrhyw heriau?

- (Os nad yn cael ei grybwyll yn benodol) Beth am ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig neu'r rhai y mae tlodi'n effeithio arnynt? Ydych chi'n gwybod pa ddysgwyr sydd yn eich dosbarth?
- Pa ddulliau a dulliau ydych chi'n eu defnyddio i gefnogi'r dysgwyr hyn yn benodol?
- A yw Cwricwlwm i Gymru yn eich galluogi i ganolbwyntio ar gefnogi'r dysgwyr hyn mewn unrhyw ffyrdd penodol? Os felly, sut?

Maes archwiliol 5: Sut mae trefniadau cwricwlwm ac asesu yn cefnogi tegwch a chynwysoldeb

I ba raddau y mae'r trefniadau cwricwlwm ac asesu wedi galluogi ysgolion/lleoliadau addysg i gefnogi tegwch a chynwysoldeb ar gyfer eu holl ddysgwyr? I ba raddau ac ym mha ffyrdd mae hyn yn wahanol i sut roedd pethau'n gweithio o dan y trefniadau blaenorol?

- Ym mha ffyrdd mae trefniadau asesu eich ysgol/lleoliad addysg wedi newid fel rhan o Cwricwlwm i Gymru?
- Ym mha ffyrdd mae eich trefniadau asesu yn ystyried anghenion gwahanol dysgwyr a'u cefndiroedd gwahanol?
- Beth sy'n dod i'r meddwl pan fyddwch chi'n meddwl am ddulliau mwy teg a chynhwysol o asesu?
- A yw'r newidiadau hyn (oherwydd Cwricwlwm i Gymru) wedi creu cyfleoedd i hyrwyddo cynwysoldeb trwy drefniadau asesu?  Os felly, ym mha ffyrdd?

Maes archwiliol 6: Gwahaniaethau ar draws ysgolion/lleoliadau addysg eraill a newid dros amser

I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae barn, profiadau ac arferion yn wahanol i wahanol fathau o ymarferydd ac ysgol, a pham? I ba raddau mae barn, profiadau ac arferion yn newid dros amser, a pham?

- Gan feddwl am eich cyd-destun ysgol/lleoliad, a yw Cwricwlwm i Gymru wedi newid y ffordd y mae’r ysgol yn meddwl am addysgu cynhwysol sy'n adlewyrchu profiadau dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, dysgwyr Du,

Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, dysgwyr anabl a dysgwyr ag ADY? Os felly, sut?

- I ba raddau, os o gwbl, y mae llais y dysgwr yn cael ei ymgorffori mewn penderfyniadau ynghylch dewisiadau'r cwricwlwm, beth i'w ddysgu, sut a pham y caiff ei addysgu? Ydy hyn wedi newid o ganlyniad i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru?
- Lle bo'n berthnasol i'r cwricwlwm, i ba raddau y mae treftadaeth, profiadau a bywydau dysgwyr a'u teuluoedd yn cael eu hadlewyrchu yng nghwricwlwm yr ysgol/lleoliad addysg? Beth yw'r dulliau a ddefnyddir yn yr ysgol/lleoliad i glywed gan ddysgwyr, a'u teuluoedd a'u cymunedau am y pethau hyn?
- A fu unrhyw newidiadau i gynrychiolaeth o amrywiaeth o fewn yr hyn a addysgir ac a ddysgir ac mewn adnoddau dysgu ac addysgu (e.e., gan Lywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, neu ysgolion eu hunain) yn ddiweddar o ganlyniad i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru? Os ydych chi wedi gwneud newidiadau i'ch adnoddau ysgol eich hun, a allech chi esbonio beth oedd y rhain a beth arweiniodd at y newidiadau?